*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Cynhelir cyfarfod o **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn rhithiol **dros Zoom DDYDD LLUN 16 IONAWR 2023** am 09:30awr**.**

Yn gywir
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgan Buddiannau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**
   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022**

5. **Materion yn Codi**

6. **Adroddiad y Cadeirydd**

7. **Alldro Ariannol 2022-23**

8. **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023-26 a Chyllideb 2023-24**

9. **Strategaeth Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys**

10. **Cyflwyniad i Rôl Archwilio Cymru – Euros Lake, Archwilio Cymru**

11. **Archwilio Cymru - Adroddiad Lleihau Allyriadau Carbon**

12. **Adroddiad Bioamrywiaeth - i'w Gymeradwyo**

13. **Cynllun Gwella a Lles**

14. **Ymholiad Arena Manceinion**

## 15. Adolygiad Thematig y Prif Gynghorydd Tân ac Achub o Hyfforddiant Gweithredol

## 16. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

## <u>**RHAN II**</u>

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 fod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

## 17. Y Diweddaraf am Weithredu Diwydiannol

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom ddydd Llun 17 Hydref 2022. Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am.

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Richard Fairhead | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Shân Morris | Prif Swyddog Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Steve Morris | Rheolwr Technegol TGCh |
| Mike Whiteley | Archwilio Cymru |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Neil Coverley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**YN ABSENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ken Taylor | Cyngor Sir Ynys Môn |

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Datganodd y Cyng. Rob Triggs fuddiant yn Eitem 16 (Rhan II) felly byddai'n gadael y cyfarfod cyn yr eitem honno.

## 3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Ni roddwyd rhybudd o faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 MEHEFIN 2022

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2022 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.**

## 5 MATERION YN CODI

5.1 6.1 Tanau wedi mynd yn wyllt yn yr awyr agored – Cadarnhaodd y PSTC Millington fod adolygiad o danau wedi mynd yn wyllt yn yr awyr agored wedi cael ei gynnal yn dilyn digwyddiadau yn gynnar yn y flwyddyn. Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwn o ran cit a chyfarpar wrthi'n cael eu gweithio allan gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

5.2 7.4 (ii) – nodwyd na chynhaliwyd cyfarfod y Panel Gweithredol a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 19 Medi, oherwydd angladd y Frenhines.

## 6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Nodwyd bod adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei ddarparu ar gyfer y cyfarfod hwn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng Mehefin a Hydref 2022.

6.2 Tynnodd y Cadeirydd sylw at ran o'r adroddiad a oedd yn nodi'r ymweliadau â gwahanol orsafoedd tân gyda'r Dirprwy Gadeirydd. Bu'r ymweliadau hyn yn werthfawr ac roeddent wedi cael derbyniad da gan y staff. Roedd yr ymweliad â Gorsaf Dân Glannau Dyfrdwy wedi cael ei ohirio oherwydd salwch ond byddai'r ymweliad hwnnw'n digwydd maes o law.

6.3 Cododd y Cadeirydd un mater nad oedd yn yr adroddiad, sef angladd Michelle Corbett-Jones, aelod gweithredol o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru y Gwasanaeth) a fu farw'n sydyn ar 22 Medi. Roedd Michelle yn uchel ei pharch gan ei chydweithwyr, a phrofiad teimladwy oedd mynd i'r seremoni.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

## 7 ALLDRO AMCANOL 2022-23

7.1 Roedd y PSTC MacArthur wedi cyflwyno adroddiad Alldro Amcanol 2022-23 a oedd wedi rhoi gwybodaeth i'r aelodau am sefyllfa'r gwariant refeniw a chyfalaf yn 2022/23, fel yr oedd pethau ar 31 Awst 2022.

7.2 Cafodd yr aelodau wybod y dylid bod yn ofalus wrth ystyried unrhyw adroddiad ariannol a roddir ar hyn o bryd ac sy'n edrych tuag at y dyfodol, a hynny oherwydd y cyfnod economaidd ac ariannol ansicr.

7.3 Ar ddiwedd 2021/22 roedd nifer o eitemau gohiriedig o wariant wedi cael eu cario drosodd ac wedi cael eu rhoi mewn cronfeydd a glustnodwyd. Hefyd, nid oedd y negodiadau am gyflogau 2022/23 wedi cael eu setlo a byddent yn creu pwysau costau ailadroddus. Y sefyllfa gyffredinol oedd y byddai'r gwariant yn uwch na'r gyllideb ond y byddai pwysau costau o flwyddyn ariannol 2022/23 yn cael eu rheoli drwy ddefnyddio cronfeydd yn hytrach na gosod ardoll ychwanegol ar awdurdodau lleol.

7.4 Nodwyd trosolwg o'r gwariant yn ôl mathau, ynghyd â'r sefyllfa a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd maes pryder cynyddol yn ymwneud â thaliadau cyllid cyfalaf, a oedd yn cynnwys cost benthyca. Byddai angen i'r cynnydd sylweddol mewn cyfraddau llog yn yr wythnosau diwethaf gael ei fonitro'n ofalus.

7.5 Llongyfarchwyd y Gwasanaeth am fod yn ddarbodus wrth gynyddu cronfeydd.

7.6 Nodwyd mai costau staffio oedd yr amrywiad mwyaf. Ym mis Rhagfyr 2021, yr amcangyfrif oedd 2% o godiad yn y dyfarniad cyflog ond ers hynny cafwyd cynnydd o 5%. Byddai hynny'n golygu bod rhaid i'r broses o osod y gyllideb ar gyfer 2023-24 fod yn fwy darbodus

oherwydd bydd y cronfeydd wedi cael eu dihysbyddu yn sgil dyfarniad cyflog 2022-23.

7.7 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, fel sydd yn yr adroddiad;**

**(ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a phroblemau gyda chadwyni cyflenwi;**

**(iii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r negodiadau sy'n mynd ymlaen ynglŷn â chyflogau; a**

**(iv) cymeradwyo'r defnydd o gronfeydd cyffredinol a'r gronfa gyffredinol.**

## 8 ADNEWYDDU CONTRACTAU YNNI

8.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad ar Adnewyddu Contractau Ynni, a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y contractau ynni ar gyfer cyflenwi nwy a thrydan ar draws ystad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

8.2 Cafodd y PSTC MacArthur ei llongyfarch am y camau a gymerwyd er mwyn cael y fargen orau bosibl.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi:**

**(i) y trefniadau contractiol ar gyfer prynu nwy a thrydan; a**

**(ii) y goblygiadau cysylltiedig o ran risg a chostau o'r 1 Hydref 2022 ymlaen.**

## 9 CANOLFAN HYFFORDDI NEWYDD

9.1 Cyflwynodd y DBST Forshaw yr adroddiad am y ganolfan hyfforddi newydd a oedd yn rhoi manylion y gwaith a wnaed hyd yma ar lunio achos busnes manwl dros yr opsiwn o ganolfan hyfforddi a datblygu newydd ar gyfer y Gwasanaeth. Byddai hyn yn golygu bod modd darparu gwell gwasanaethau a sicrhau diogelwch diffoddwyr tân am y 25 mlynedd nesaf o leiaf.

9.2 Darparwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau yn dilyn y cyflwyniad, a nodwyd y byddai canolfan hyfforddi a datblygu newydd yn cyflawni'r wyth maes cymhwysedd craidd ar gyfer diffoddwyr tân.

9.3 Cytunwyd y byddai hyfforddiant rhyngasiantaethol a hurio'r cyfleuster allan i wasanaethau tân ac achub a gwasanaethau brys eraill yn cael eu hystyried o ddifri.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad;**

**(ii) awdurdodi rhyddhau gwariant hyd at uchafswm o £250,000 o'r cronfeydd a glustnodwyd er mwyn datblygu'r cam nesaf o**

**achos busnes manwl dros y opsiwn/opsiynau o ganolfan hyfforddi a datblygu newydd ar gyfer y Gwasanaeth.**

## 10 GOSOD CYLLIDEB 2023-24

10.1 Rhoddodd y PSTC MacArthur gyflwyniad ar Osod y Gyllideb, a oedd yn amlinellu proses y gyllideb, y rhagdybiaethau cynllunio a'r amserlenni ar gyfer gosod cyllideb refeniw'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2023/24.

10.2 Nodwyd mai 15 Ionawr 2023 oedd y dyddiad olaf y gallai'r gyllideb gael ei chyflwyno i awdurdodau lleol. Cysylltwyd â thrysoryddion pob awdurdod lleol ynglŷn â'r gyllideb ddrafft hon.

10.3 Tynnwyd sylw at y ffaith fod llawer iawn o bwysau ar gyllideb 2022/23 oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol. Byddai pwysau ar yr Awdurdod Tân yn arwain at ardoll uwch i'r awdurdodau lleol, a byddai angen i'r Aelodau fod yn atebol i'w hawdurdod lleol eu hunain er mwyn esbonio'r cynnydd hwn, a allai fod hyd at 15%. Nodwyd hefyd y posibilrwydd o gynnydd tebyg yn y flwyddyn ariannol ddilynol.

10.4 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau am yr adroddiad hwn a theimlai un aelod ei bod yn bwysig rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith nad yn sgil gorwariant y cafwyd y cynnydd yn yr ardoll, beth fyddai'r cyhoedd yn ei gael am y gwariant ychwanegol, ac y byddai'r Awdurdod yn defnyddio cronfeydd wrth gefn er mwyn lleddfu'r pwysau ar y gyllideb yn y flwyddyn ariannol bresennol.

10.5 Tynnwyd sylw at y risg o £1.1m o ran cyfraniadau pensiwn y cyflogwr i ddiffoddwyr tân, a oedd yn arfer cael ei gefnogi'n ariannol gan Lywodraeth Cymru ac a welir ym mharagraff 15 o'r adroddiad. Cadarnhawyd nad yw'r sefyllfa wedi cael ei chadarnhau ar gyfer 2023/24 ac ymlaen ond y byddai Llywodraeth Cymru yn egluro hyn maes o law. Gofynnwyd am gael nodi y gallai hyn fod yn bwysau ychwanegol o ran cost.

10.6 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2023/24; a**

**(ii) nodi'r cynnydd i ddarparu amcangyfrifon cychwynnol o'r gyllideb i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr, a cheisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i gyllideb refeniw 2023/24 yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023.**

## 11 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

11.1 Cyflwynodd y PSC Morris y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod drafft o'r adroddiad hwn eisoes wedi bod gerbron yr Awdurdod ym mis Mehefin. Roedd yr adroddiad yn

cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22 i'r Awdurdod ei gymeradwyo.

11.2 Nodwyd bod y newidiadau a wnaed ers i'r adroddiad drafft cychwynnol gael ei ryddhau yn cael eu rhestru ym Mharagraff 12.

11.3 Cadarnhaodd yr Archwilydd Allanol ei fod yn fodlon â'r datganiad diwygiedig.

11.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r newidiadau a wnaed i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021/22; a**

**(ii) cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22.**

**12 ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL**

12.1 Cyflwynodd y DBST Forshaw yr Asesiad Perfformiad Blynyddol. Roedd yr adroddiad yn asesu perfformiad y Gwasanaeth yn ystod 2021/22 o ran ei gynnydd wrth gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant hirdymor, a'i Amcanion Cydraddoldeb tymor canolig, ynghyd â'i gydymffurfiaeth â Safonau perthnasol y Gymraeg.

12.2 Nodwyd bod yr adroddiad yn gynhwysfawr iawn ac yn cynnwys llawer o enghreifftiau rhagorol o arferion da. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith mai'r her enfawr i'r Gwasanaeth oedd argaeledd diffoddwyr tân ar-alwad.

12.3 Llongyfarchwyd y Gwasanaeth am ei lwyddiannau o ran hyrwyddo'r Gymraeg. Gofynnwyd am gynnwys ystadegau yn y dyfodol ynghylch datblygiad sgiliau Cymraeg yr Aelodau a'r cymorth a gynigir iddynt.

12.4.1 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2021/22 (yn ddibynnol ar fân ychwanegiadau a chywiriadau os oes angen) i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30/09/2022; a**

**(ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi fersiwn gryno syml o'r elfennau allweddol o adroddiad yr asesiad.**

13 **DATGANIAD O GYFRIFON 2021-22**

13.1 Cyflwynodd y Trysorydd, Dafydd Edwards, Ddatganiad o Gyfrifon archwiliedig 2021/22 i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a oedd yn cadarnhau barn archwilio ddiamod.

13.2 Gofynnodd am gael diolch i'r PSTC MacArthur, Helen Howard, Pennaeth Cyllid a chynrychiolwyr o Archwilio Cymru am yr holl waith a oedd wedi cael ei wneud ar y papurau.

13.3 Nodwyd bod paragraff 12 yn amlinellu'r newidiadau yr oedd Archwilio Cymru wedi gofyn amdanynt.

13.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r sefyllfa alldro archwiliedig a'r perfformiad fel sydd i'w gael yn Natganiad o Gyfrifon 2021/22 (Atodiad 1);**
**(ii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2);**
**(iii) nodi'r llythyr o gynrychiolaeth arfaethedig; a**
**(iv) cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2021/22.**

## 14 PARATOI AR GYFER YR YMCHWILIAD I COVID-19

14.1 Rhoddodd y PSC Morris gyflwyniad ar y papur ynghylch Paratoi ar gyfer yr Ymchwiliad i Covid-19, a oedd wedi cael ei lunio er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau am y gwaith a wneir gan y Gwasanaeth i gasglu ac archifo tystiolaeth o baratoadau'r Gwasanaeth a'i ymateb i bandemig COVID-19. Nodwyd mai eitem er gwybodaeth oedd hon.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a oedd yn yr adroddiad.**

## 15 MATERION BRYS

15.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Ar ddiwedd Rhan I o'r agenda, gadawodd y Cyng. Rob Triggs y cyfarfod ac yna penderfynwyd symud i Ran II o'r cyfarfod.

## 16 NEGODIADAU YNGHYLCH CYFLOGAU DIFFODDWYR TÂN A'R POSIBILRWYDD O WEITHREDU DIWYDIANNOL

16.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y negodiadau cenedlaethol ynghylch cyflogau, y posibilrwydd o weithredu diwydiannol a'r trefniadau parhad busnes sy'n cael eu sefydlu.

16.2 Ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, roedd cynnig cyflog diamod arall o 5% wedi cael ei wneud. Roedd Undeb yr FBU wedi penderfynu holi barn ei aelodau ynglŷn â derbyn hyn ai peidio, a'r argymhelliad oedd ei wrthod. Gallai unrhyw weithredu diwydiannol ddigwydd ddiwedd mis Rhagfyr.

16.3 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y sefyllfa'n symud yn sydyn, a byddai'n arwain at oblygiadau sylweddol i ofal tân ledled Gogledd Cymru. Cafodd yr Aelodau sicrwydd y byddant yn cael gwybodaeth yn rheolaidd am y sefyllfa.

**16.4 PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Amh.** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau i Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu sawl cyfarfod a digwyddiad, yn fewnol ac yn allanol ar ran yr Awdurdod.

## ARGYMHELLIAD

3 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

## SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i ystyried o'r blaen.

## GWYBODAETH

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cyfarfod â'r Prif Swyddog Tân yn rheolaidd. Maent hefyd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân cyn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2022.

6 Ar 17 Hydref mynychodd y Dirprwy Gadeirydd y seremoni cyflwyno tystysgrifau ar gyfer cwblhau cwrs Phoneix a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân Dinbych.

7 Ar 19 Hydref cyfarfu'r Cadeirydd â Llinos Morris, Caplan Gwirfoddol y Gwasanaeth, i ddysgu mwy am ei rôl.

8 Ar 21 Hydref bu'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Awdurdod mewn cyfarfod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

9 Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo'r Gwasanaeth Tân a ohiriwyd ar 27 Hydref a chymerodd y Cadeirydd ran yn y broses o gyflwyno gwobrau. Roedd y Dirprwy Gadeirydd yn bresennol hefyd.

10 Ar 31 Hydref, mynychodd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân gyfarfod rhithwir gyda Chadeiryddion/Dirprwy Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru i drafod gohebiaeth ddiweddar a dderbyniwyd oddi wrth y Dirprwy Weinidog.

11 Ar 11 Tachwedd mynychodd y Dirprwy Gadeirydd y seremoni cyflwyno tystysgrifau ar gyfer cwblhau cwrs Phoneix a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân y Fflint. Roedd Maer y Fflint – y Cynghorydd Michelle Perfect hefyd yn bresennol.

12 Ar 17 Tachwedd, mynychodd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, y Prif Swyddog Tân ac aelodau eraill o'r Awdurdod angladd cyn Aelod o'r Awdurdod, y Cynghorydd Brian Blakeley.

13 Ar 21 Tachwedd cafodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd eu cyfweld drwy Zoom gan aelodau o Swyddfa Archwilio Cymru i drafod adolygiad 'Lleihau Galwadau Diangen'.

14 Ar 22 Tachwedd aeth y Dirprwy Gadeirydd i gyflwyniad ymddeoliad yng Ngorsaf Dân y Fflint ar gyfer y Rheolwr Gorsaf Tommy Probert. Roedd y Prif Swyddog Tân a Maer y Fflint – y Cynghorydd Michelle Perfect hefyd yn bresennol.

15 Ar 23 Tachwedd cyfarfu Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod â Chlerc a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau.

16 Ar 28 Tachwedd, roedd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân yn bresennol mewn cyfarfod rhithwir o Banel Tân ac Achub CLILC ynghyd â Chadeiryddion/Dirprwy Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru.

17 Ar 2 Rhagfyr aeth y Cadeirydd i ddigwyddiad cynnau'r Goleuadau Nadolig yn Llangefni a chyfarfu â'r criw lleol a oedd yn cymryd rhan yn y digwyddiad.

18 Ar 5 Rhagfyr mynychodd y Dirprwy Gadeirydd Wasanaeth Carolau Nadolig Cyfun y Gwasanaethau Brys a gynhaliwyd yng Nghadeirlan Llanelwy.

19 Ddydd Nadolig, ymwelodd y Cadeirydd â Gorsafoedd Tân Caernarfon, Bangor a Chaergybi i gwrdd â'r criwiau oedd ar ddyletswydd.

20 Ers yr adroddiad diwethaf mae'r Cadeirydd hefyd wedi bod yn gohebu â'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pynciau a ganlyn:-

- Adolygiad Thematig hyfforddiant y Prif Gynghorydd Tân ac Achub;
- adolygiad diwylliant annibynnol Brigâd Dân Llundain;
- trefniadau ar gyfer cyfarfod cyntaf y Fforwm Partneriaeth

Gymdeithasol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir gan aelodau yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Nid oes goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Nid oes goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Nid oes goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Nid oes risgiau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard** |
| Pwnc | **Alldro Dros Dro 2022/23** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi diweddariad i'r aelodau ar y sefyllfa gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2022/23, fel yr oedd ar 30 Tachwedd 2022.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cymeradwywyd y gofyniad cyllideb net gan yr Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021. Cadarnhaodd hyn ofyniad net o £39.41m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Rhagwelir y bydd gwariant gwirioneddol yn £42.42m sy'n cynnwys prosiectau a ohiriwyd yn ystod pandemig Covid, amcangyfrifon o setliadau cyflog cenedlaethol uwchlaw'r ddarpariaeth gyllidebol o 2% a phwysau cyffredinol oherwydd chwyddiant. Bydd y defnydd o arian wrth gefn a glustnodwyd, y gronfa gyffredinol a darpariaethau yn lliniaru'r costau ychwanegol ac ni ragwelir y bydd angen ardoll atodol.

3 Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb cyfalaf 2022/23 o £2.91m ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhaglen gyfalaf yn wynebu pwysau o ran costau, ac os caiff yr holl waith disgwyliedig ei gwblhau, bydd gorwariant o £0.120m.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i aelodau:

(I) nodi'r rhagamcanion alldro cyfalaf a refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 fel y nodir yn yr adroddiad;
(II) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a materion cadwyn gyflenwi;
(III) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trafodaethau cyflog parhaus; a
(IV) cymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a rhai cyffredinol.

**SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i ystyried o'r blaen gan yr aelodau.

## CEFNDIR

6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa alldro gwariant cyfalaf a refeniw drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

## GWYBODAETH

## CYLLIDEB REFENIW

7 Cafodd y gyllideb net o £39.412m ei chymeradwyo ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Rhagfyr 2021. Yn dilyn gwaith cynllunio pellach, cadarnhawyd y gofyniad cyllideb net cyffredinol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Mehefin 2022, a'r adeg hynny nodwyd hefyd y byddai gwariant a ohiriwyd o 2021/22 yn cael ei dalu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Yn ogystal, nodwyd y risg benodol sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog gan fod y dyfarniadau cyflog cenedlaethol yn weddill.

8 Mae costau staff yn cynrychioli 76% o'r gwariant gros. Pennir y gyllideb ar y sefydliad staffio sydd wedi'i gymeradwyo a'r gweithgarwch a ragwelir.

9 Roedd y broses o bennu'r gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai dyfarniadau cyflog yn 2% i'r holl staff. Cwblhawyd a chytunwyd ar y cynnig cyflog i staff llywodraeth leol yn cynnwys codiad o £1,925 ar draws pob gradd. Mae hyn yn cyfateb i tua 6.6% o'i gymharu â'r rhagdybiaeth cynllunio o 2%.

10 Mae dyfarniad cyflog o 5% wedi'i gynnig ar gyfer rolau diffoddwyr tân a diffoddwyr tân ystafell reoli. Mae hyn wedi cael ei wrthod gan Aelodau Undeb y Frigâd Dân ac mae pleidlais staff ar hyn o bryd ar gyfer streic. Daw'r bleidlais i ben ar 30 Ionawr 2023.

11 Mae'r rhagolygon nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn adlewyrchu'r pwysau anochel hysbys o ran costau a gaiff ei brofi mewn perthynas â chostau cyfleustodau, cynnal a chadw adeiladau a chostau tanwydd. Fodd bynnag, erys ansicrwydd pellach oherwydd pwysau chwyddiant cyffredinol a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi sy'n arwain at wariant uwchlaw'r gyllideb a ragwelwyd.

12 Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, derbynnir incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grant, yn ogystal ag ad-daliadau gan gyrff eraill mewn perthynas â'r defnydd o'n hadeiladau.

13 Mae costau cyllido cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a chostau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Pan osodwyd y gyllideb, ni ragwelwyd y cynnydd sylweddol yng nghyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn ystod 2022/23. Mae'r cynnydd dilynol wedi arwain at effaith andwyol ar y sefyllfa ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y rhagolwg.

## ALLDRO REFENIW

14 Mae'r adroddiad yn rhagamcanu sefyllfa gytbwys gyffredinol ond o ystyried y pwysau chwyddiant bu'n rhaid cynnwys trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Manylir ar y dadansoddiad isod.

| | Cyllideb (£000) | Rhagolwg (£000) | Amrywiant (£000) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 30,130 | 31,167 | 1,037 | 3.44% |
| Tir ac adeiladau | 2,901 | 4,084 | 1,183 | 40.78% |
| Cludiant | 1,204 | 1,263 | 59 | 4.90% |
| Cyflenwadau | 4,919 | 5,420 | 501 | 10.18% |
| Taliadau Trydydd Parti | 451 | 451 | - | 0.00% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 2,263 | 2,513 | 250 | 11.05% |
| Incwm | -2,456 | -2,482 | -26 | 1.06% |
| **Rhagolwg Alldro** | **39,412** | **42,416** | **3,004** | **7.62%** |
| Trosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | | -1,959 | -1,959 | |
| Trosglwyddo o Ddarpariaethau | | -345 | -345 | |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol | | -700 | -700 | |
| **Defnydd o gronfeydd wrth gefn** | | **-3,004** | **-3,004** | |
| **Sefyllfa Rhagolwg** | **39,412** | **39,412** | **-** | |

## COSTAU GWEITHWYR

15 Mae costau gweithwyr yn rhan sylweddol o'r gyllideb (76%) ac yn cynnwys tâl, costau pensiwn, cost recriwtio a hyfforddi a gwasanaethau gweithwyr, megis gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

16 Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith ym mis Ebrill 2022. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran recriwtio i swyddi gwag, ond o fewn y farchnad swyddi mae'n profi'n heriol i recriwtio i swyddi arbenigol. Fodd bynnag, mae'r swyddi hyn yn parhau i fod yn hollbwysig i gyflawni'r amcanion corfforaethol.

17 Mae ymarfer recriwtio llawn amser diweddar wedi arwain at benodi 24 o recriwtiaid newydd; dechreuodd 12 ym mis Medi a 12 ym mis Ionawr. Bydd y swyddi newydd hyn yn ymateb i ymddeoliadau hysbys a disgwyliedig er, oherwydd y cyfnod gofynnol o hyfforddiant, bu'n rhaid mynd y tu hwnt i'r lefelau sefydliad arferol i sicrhau parhad gwasanaeth. Mae gweithredu'n parhau i gynyddu nifer y diffoddwyr tân rhan amser ac mae'n faes pwysig i ganolbwyntio arno er mwyn mynd i'r afael â materion argaeledd a'u cynnal.

18 Disgwylir i'r costau goramser sy'n gysylltiedig â chynnal argaeledd gwasanaeth ac ar gyfer salwch fod yn £0.900m ar ddiwedd y flwyddyn.

19 Cafwyd gwariant o £0.301m mewn perthynas â dyfarniadau tâl gwyliau ôl-ddyddiedig. Roedd hyn yn angenrheidiol yn dilyn achos cyfreithiol cenedlaethol mewn perthynas â'r elfennau tâl y dylid eu cynnwys yn y cyfrifiad tâl gwyliau. Arweiniodd newidiadau i gyfraniadau pensiwn prentisiaid yn dilyn trosglwyddo o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) i'r cynllun diffoddwyr tân at gyfraniadau cyflogwr ychwanegol o £0.044m. Caiff y costau hyn eu hariannu drwy'r darpariaethau a sefydlwyd yn 2021/22.

20 Mae'r gorwariant a ragwelir mewn costau staffio yn dod i £1.037m ac mae'n cynnwys y canlynol:

- costau disgwyliedig dyfarniadau cyflog yn ystod y flwyddyn;
- goramser ychwanegol ar gyfer salwch a chynnal argaeledd;
- tâl gwyliau ôl-ddyddiedig;
- recriwtio ychwanegol i ddiffoddwyr tân amser cyflawn;
- swyddi dros dro i gyflawni prosiectau penodol; llai
- gostyngiadau yn deillio o swyddi gwag presennol.

21 Mae cost disgwyliedig y dyfarniad cyflog yn ystod y flwyddyn ar gyfer staff Diffoddwyr Tân Ystafell Reoli a Diffoddwyr Tân yn parhau i fod yn ansicr ar hyn o bryd er bod unrhyw godiad cyflog dros 2% yn risg ariannol. Nodwyd hyn yn ystod y broses o osod y gyllideb a chynigir y dylid defnyddio'r arian wrth gefn ar gyfer 2022/23 ar gyfer dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Amcangyfrifir bod hyn yn £0.700m ar hyn o bryd, gan gynnwys staff CPLlL.

## COSTAU HEB FOD YN GYFLOG

22 Mae'r gyllideb heb fod yn gyflog yn wynebu pwysau sylweddol. Mae'r rhain oherwydd materion pris a chyflenwad. Yn ogystal, mae argaeledd a chostau nwyddau eraill megis cyflenwadau adeiladu, offer TGCh a rhannau fflyd hefyd yn peri pryder o ystyried cymhlethdod cadwyni cyflenwi ac ansicrwydd byd-eang.yn cynnwys costau tanwydd ac ynni sy'n parhau i fod yn anrhagweladwy.

23 Cynhelir adolygiad o wariant nad yw'n ymwneud â chyflogau gan ddeiliaid cyllidebau i sicrhau bod y rhagamcanion yn parhau i fod yn rhesymol.

### Tir ac Adeiladau

24 Mae costau adeiladau yn rhagamcanu gorwariant o £1.183m, sy'n cynnwys y costau rhagarweiniol y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf, mewn perthynas â datblygu'r achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi newydd (£0.25m).

25 Mae ansefydlogrwydd y farchnad a chostau cynyddol nwy a thrydan yn her ariannol fawr i'r Awdurdod. Y gorwariant rhagamcanol presennol ar gyfer cyfleustodau yw £ 0.15m. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cefnogaeth i fusnesau gan gynnwys cyrff sector cyhoeddus tan 31 Mawrth 2023. Mae costau ynni yn cael eu monitro fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru.

26 Mae'r rhagamcan hefyd yn cynnwys cost y gwaith a gafodd ei ohirio yn 2021/22. Mae cyllid ar gael ar gyfer y gwaith hwn o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**Cludiant**

27 Mae'r gyllideb cludiant yn rhagweld amrywiad o £0.059m. Mae costau cynyddol mewn perthynas â rhannau cerbydau a thanwydd yn achosi pwysau ar y gyllideb hon, sydd ar hyn o bryd yn cael ei rheoli'n fewnol yn bennaf.

**Cyflenwadau**

28 Y gyllideb cyflenwadau net yw £4.919m a'r gorwariant a ragwelir ar hyn o bryd o £0.501m, sy'n cynnwys mentrau yn ystod y flwyddyn a fydd yn cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

29 Mae pwysau chwyddiant sylweddol mewn nifer o feysydd busnes-gritigol ac mae camau'n cael eu cymryd i'w cyfyngu a'u lliniaru, lle bo modd.

30 Mae'r sefyllfa alldro a ragwelir yn cynnwys costau ar gyfer meddalwedd Diogelwch Tân newydd, newid offer gweithredol hanfodol a gwaith prosiect mewn perthynas â'r adolygiadau amrywiol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ledled y Gwasanaeth. Cynlluniwyd y rhain yn dilyn cau blwyddyn ariannol 2021/22 a byddant yn cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**Taliadau Trydydd Parti**

31 Mae taliadau trydydd parti yn ymwneud â chytundebau lefel gwasanaeth gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint a Heddlu Gogledd Cymru.

32 Mae'r gwariant hwn yn cael ei ragamcanu o fewn y gyllideb ar hyn o bryd.

**CYLLID CYFALAF**

33 Mae'r gyllideb ariannu cyfalaf yn neilltuo cyllid refeniw i ariannu gwariant cyfalaf.

34 Mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yn cynrychioli'r isafswm y mae'n rhaid ei godi ar gyfrif refeniw awdurdod bob blwyddyn ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf, a fydd wedi'i ariannu i ddechrau trwy fenthyca. Mae'n rhan o holl arferion cyfrifyddu'r Awdurdod, a'i nod yw sicrhau y gall yr Awdurdod dalu'r dyledion sydd ganddo o brynu asedau cyfalaf, megis adeiladau a cherbydau.

35 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod bennu swm o MRP bob blwyddyn ariannol, y mae'n ei ystyried yn ddarbodus drwy gyfeirio at ofyniad cyllido cyfalaf wedi'i gyfrifo (CFR). Yr MRP ar gyfer 2022/23 yw £1.94m.

36 Yn ogystal, mae'r gyllideb yn dal y costau llog mewn perthynas â benthyciadau'r Awdurdod. Oherwydd y sefyllfa economaidd gyfnewidiol, mae cost benthyca wedi cynyddu'n sylweddol bellach, sydd wedi arwain at bwysau cyllidebol presennol o £0.25m.

37 Mae'r sefyllfa hon yn cael ei monitro'n ofalus ond mae risg o gynnydd pellach gan fod angen benthyciadau newydd yn chwarter olaf y flwyddyn i gymryd lle benthyciadau sy'n aeddfedu ac i ariannu gwariant cyfalaf.

38 Ar hyn o bryd, mae £0.30m wrth gefn i wrthbwyso costau llog uwch.

**INCWM**

39 Yn ogystal â'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig ar gyfer ffioedd a thaliadau a grantiau.

40 Mae ffioedd a thaliadau yn ymwneud yn bennaf ag ailgodi tâl am adeiladau a rennir â chyrff eraill.

| | **Cyllideb £000** | **Rhagamcan £000** | **Amrywiant £000** |
|---|---|---|---|
| Grantiau | 2,299 | 2,299 | 0 |
| Ffioedd a thaliadau | 277 | 303 | 26 |
| **Cyfanswm** | **2,455** | **2,466** | **26** |

41 Cynyddodd incwm arall oherwydd yr elw o waredu cerbyd (£10k) ac incwm buddsoddi dros dro (£16k).

**Cyllid Grant**

42 Cyfanswm y dyraniadau cyllid grant 2022/23 yw £2.299m (2021/22: £2.397m). Ceir dadansoddiad o'r cyllid grant ar gyfer 2022/23 isod. Mae'r holl grantiau'n cael eu monitro'n ofalus trwy gydol y flwyddyn ariannol i nodi unrhyw amrywiadau ac i alluogi cymryd camau adferol.

| | **Dyraniad £000** |
|---|---:|
| Lleihau Llosgi Bwriadol | 157 |
| Offer Diogelwch Cartref | 223 |
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc | 148 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 154 |
| Cyfraniadau Pensiwn Diffoddwyr Tân | 1,081 |
| Ffioedd Gwasanaeth Firelink | 416 |
| Mannau Gwefru Cerbydau Trydan | 120 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **2,299** |

**RHAGLEN GYFALAF**

43 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £2.916m ym mis Rhagfyr 2021. Yn ogystal, bydd £0.167m o wariant yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn oherwydd llithriad mewn cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol.

44 Mae'r rhagamcan yn rhagdybio mai dim ond 3 thŵr hyfforddi fydd yn dechrau eleni, yn lle'r 4 y cyllidebwyd ar eu cyfer.

45 Yn ogystal, mae angen £0.02m ychwanegol i gael fan newydd yn lle un sydd â difrod damwain na ellir ei drwsio.

46 Mae arian grant yn ymwneud â gwell cyfleusterau hyfforddi yn Nolgellau a'r Rhyl. Fe'i derbyniwyd yn 2021/22 ond eleni ddechreuodd y gwaith. Mae angen rhagor o waith, y disgwylir iddo ar hyn o bryd gostio £0.096m ychwanegol.

47 Fel sy'n wir am y gyllideb refeniw, mae'r rhaglen gyfalaf yn wynebu pwysau o ran costau, gyda chostau uwch mewn perthynas â phrynu cerbydau a gwaith adeiladu. Mae hyn wedi arwain at fod angen £0.024m ychwanegol.

48 Mae manylion y cynlluniau isod:

| Cynllun | Cyllideb £000 | Rhagolwg £000 | Amrywiant £000 |
|---|---|---|---|
| Amnewid Peiriannau Tân | 1,248 | 1,248 | - |
| Faniau Gorsaf Aml-Bwrpas | 160 | 170 | 10 |
| Offer Gweithdy | 20 | 12 | -8 |
| Fan Newydd | - | 20 | 20 |
| Amnewid Tŵr Hyfforddi | 160 | 85 | -75 |
| Adeiladau – Mân Waith | 245 | 260 | 15 |
| **Cyfanswm 2022/23** | **1,833** | **1,795** | **-38** |
| Treigl – Peiriannau Tân | 923 | 923 | - |
| Treigl – Tyrau Hyfforddi | 160 | 222 | 62 |
| **Cyfanswm treigl o 2021/22** | **1,083** | **1,145** | **62** |
| TGCh – Gweinydd | 167 | 167 | - |
| **Cyfanswm a Ariennir o'r Cronfeydd Wrth Gefn** | **167** | **167** | **-** |
| Offer Gweithredol | 92 | 92 | 0 |
| Gwaith Adeiladu | 146 | 242 | 96 |
| **Cyfanswm a Ariennir o Grant** | **238** | **334** | **96** |
| **Cyfanswm: Rhaglen Gyfalaf** | **3,321** | **3,441** | **120** |

49 Mae cyllid y cynllun cyfalaf fel a ganlyn:

| Ariannu | Swm £000 |
|---|---|
| Benthyg | 2,916 |
| Cyllid Grant | 238 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 167 |
| **Cyfanswm** | **3,321** |

**BENTHYG**

50 Ariennir gwariant cyfalaf yn bennaf trwy fenthyca allanol yn y tymor byr; mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben, a elwir yn fenthyca mewnol.

51 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthyca mewnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthyca cyfalaf sydd ei angen, fel y'i cyfrifwyd gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), wedi'i ariannu'n llawn gyda dyled benthyciad allanol gan fod arian sy'n cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio fel ateb dros dro i ariannu gwariant cyfalaf a chynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i'r arian wrth gefn gael ei ddefnyddio, bydd angen disodli'r benthyca mewnol gyda benthyca allanol.

52 Rhagwelir y bydd benthyciadau'r Awdurdod yn £22.26m ar 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn cynnwys £6.0m o fenthyciadau tymor byr dros dro, gan gyrff sector cyhoeddus eraill a £16.26m o fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Mae hyn yn dibynnu ar argaeledd cyllid mewnol ac mae'n parhau i fod yn faes risg i'r Awdurdod.

## DEFNYDD O GRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI

53 Nod cronfeydd ariannol wrth gefn yr awdurdod yw darparu cyllid ar gyfer buddsoddi mewn gweithgareddau yn y dyfodol a gweithredu fel rhwyd ddiogelwch rhag ofn y bydd heriau ariannol tymor byr yn deillio o alwadau gweithgaredd neu bwysau na ellir eu rhagweld.

54 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod wedi clustnodi £5.57m wrth gefn sydd wedi ei gronni yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd llithriad mewn recriwtio a gweithgareddau yn sgil pandemig covid.

55 Yn 2021/22 neilltuwyd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i ariannu costau a ddylai fod wedi'u hysgwyddo yn 2021/22, ond roedd problemau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi yn golygu na ellid cwblhau'r rhain a bu oedi. Yn ogystal, mae cronfeydd wrth gefn wedi'u sefydlu i ariannu codiadau mewn cyfraddau llog, cynnydd mewn chwyddiant, gwelliannau i'r system a gwelliannau i wasanaethau.

56 Mae'r alldro dros dro yn rhagdybio y bydd cronfeydd wrth gefn o £2.0m yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Adolygir y defnydd o gronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod buddsoddiad digonol yn yr isadeiledd i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol yn unol â'r ddarpariaeth gwasanaeth arfaethedig sy'n cynnwys gwaith atal ac ymateb brys. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yr Awdurdod yn cynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon yn unol â'r safonau penodedig. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n fanwl i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb gymeradwy yn cael eu nodi'n briodol a'u hadrodd i'r Aelodau. |

*Mae’r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Pwnc | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/26 a Chyllideb 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cymeradwyo’r gyllideb refeniw derfynol ar gyfer 2023/24 ac ardollau perthnasol ar awdurdodau cyfansoddol, cymeradwyo’r gyllideb gyfalaf derfynol ar gyfer 2023/24, a nodi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2023/26. Mae'r adroddiad yn cyflwyno tri opsiwn, ar ôl ymgynghori ag Aelodau, ac yn nodi'r risgiau a'r ansicrwydd sylweddol sy’n ein hwynebu ar hyn o bryd.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) osod cyllideb ariannol gytbwys bob blwyddyn a chadarnhau ffigyrau cyfraniad i bob awdurdod cyfansoddol erbyn diwedd 16 Chwefror cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

3 Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 a’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS). Caiff y cyllid sydd ei angen gan bob awdurdod lleol cyfansoddol ei gadarnhau hefyd.

4 Mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 a'r MTFS yn cynnwys nifer o ragdybiaethau, risgiau a’r ansicrwydd sydd wedi'u nodi yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r gwaith cynllunio a wnaed i leihau gofyniad y gyllideb ar gyfer 2023/24, gan gynnwys risgiau ac ansicrwydd cysylltiedig;
(ii) cymeradwyo cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2023/24, yn unol ag argymhelliad y swyddogion gyda chyfanswm gofyniad cyllideb o £44.7m (Opsiwn 2, +11.85%), neu gyfanswm gofyniad cyllideb o £43.31m (Opsiwn 3) gyda'r newidiadau i wasanaethau'n dod â'r cynnydd i lawr i 9.9% yn dilyn ymgynghori ag Aelodau;
(iii) cymeradwyo'r ardollau ar filio awdurdodau, yn seiliedig ar gynnydd cyfartalog mewn cyfraniadau gan awdurdodau cyfansoddol o £4.7m (11.85%) neu £3.9m (+9.9%), yn ogystal â'r Cyfraniadau Grant Pensiwn i'w trosglwyddo i setliad grant cynnal refeniw terfynol y Cynghorau, fel y nodir yn Atodiad 4;
(iv) cymeradwyo cyllideb gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2023/24, fel y nodir yn Atodiad 3; a chymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**ARSYLWADAU GAN BWYLLGORAU ERAILL A DYDDIAU CYNLLUNIO AELODAU**

6 Mae'r cynigion a nodir yn y papur hwn yn cyd-fynd â'r dull gosod cyllideb a amlinellwyd i gyfarfod yr Awdurdod ar 17 Hydref 2022, gan gynnwys y risgiau a'r ansicrwydd cysylltiedig.

7 Yn ystod cyfarfodydd sefydlu a chynllunio'r aelodau a gynhaliwyd ar 13 Mehefin a 6 Hydref 2022, rhoddwyd trosolwg o'r modelau cyflenwi gwasanaethau a'r heriau cysylltiedig sy'n wynebu'r Awdurdod.

8 Roedd yr asesiad cychwynnol o'r gyllideb yn nodi gofyniad cyllideb o £44.7m (+13.5%) a chafodd hwn ei gyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol ar 12 Rhagfyr 2022. Nododd yr aelodau'r asesiad a gofyn am ostyngiadau pellach.

9 Cyflwynwyd diweddariad gerbron cyfarfod cynllunio'r aelodau ar 3 Ionawr 2023. Roedd hwn yn nodi pwysau ychwanegol o ran costau o £0.4m a oedd yn deillio o newidiadau i grantiau gan Lywodraeth Cymru, a hefyd gofyniad diwygiedig o £44.081m (+11.85%). Gofynnodd yr aelodau am gynigion i leihau'r gofyniad cyllideb ymhellach gan gynnwys newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaethau.

**CEFNDIR**

10 Mae Cynllun Gwella a Llesiant 2023/24 yn cadarnhau amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod:

**Amcan 1:** gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a lles pobl yng ngogledd Cymru
**Amcan 2:** parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i wella pa mor gydnerth ydynt
**Amcan 3:** gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosib, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
**Amcan 4:** parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid
**Amcan 5:** cynnal gweithlu amrywiol cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg
**Amcan 6:** datblygu ffyrdd o ddod yn fwy amgylcheddol ymwybodol er mwyn lleihau effaith ein gweithgarwch ar yr amgylchedd
**Amcan 7:** sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael

11 Darparodd adroddiad y Prif Swyddog Tân i Aelodau ym mis Medi 2021 asesiad sefyllfa. Roedd hyn wedi cadarnhau mai'r prif heriau sy'n wynebu'r Awdurdod yw sicrhau bod digon o griwiau tân ar-alwad ar gael; sicrhau digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o allu corfforaethol i ddiwallu gofynion presennol a gofynion y dyfodol.

12 Yn dilyn yr asesiad hwn, cymeradwyodd yr Awdurdod nifer o adolygiadau mewnol gan gynnwys adolygu gofal tân, adolygiad o'r system diffoddwyr tân ar ddyletswydd (criwiau ar-alwad) ac adolygiad hyfforddiant i sicrhau diogelwch diffoddwyr tân. Mae'r adolygiadau hyn yn parhau, er bod cynigion y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn adeiladu ar yr asesiadau cychwynnol gan gynnwys datblygu capasiti a mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch.

13 Rhoddwyd y cynigion ar gyfer gosod y gyllideb i Aelodau yn yr adroddiad i'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022. Mae cynigion y gyllideb a nodir yn yr adroddiad hwn yn sicrhau y dilynir dull strategol o gynllunio ariannol a chynllunio cyllid er mwyn gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

14 O ystyried yr heriau sylweddol i'r gyllideb a'r cyfyngiadau ariannol sy'n cael eu profi bu'n rhaid nodi camau gweithredu i leihau'r gofyniad cyllideb ymhellach. Mae'r sgôp ar gyfer gwneud arbedion effeithlonrwydd yn fach o ystyried maint y gostyngiadau yn y gyllideb dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae'r cynigion ar gyfer y gyllideb a nodir yn y papur hwn yn cynnwys risgiau ac ansicrwydd gweddilliol a mesurau sy'n effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau.

**CYLLIDEB REFENIW DRAFFT 2023/24**

15 Gwnaed gwaith cynllunio cyllideb fanwl ac amlinellir y rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau a'r amheuon yn Atodiad 1. Ar ôl cyflwyno'r asesiad cynllunio cychwynnol i'r Aelodau ar 12 Rhagfyr 2023, cyflwynwyd gofyniad cyllideb diwygiedig i'r Aelodau yn y cyfarfod cynllunio ar 3 Ionawr 2023. Ar gais yr Aelodau, mae rhagor o waith wedi'i wneud i gyflwyno cynigion ar gyfer gostyngiadau pellach i'r gofyniad cyllideb, gan gydnabod y bydd hyn yn effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau. Yn unol â hynny, mae'r papur hwn yn nodi tri opsiwn i'r Aelodau. Mae cyfraniadau pob awdurdod lleol cyfansoddol ar gyfer pob opsiwn wedi'u nodi yn Atodiad 4.

| Opsiwn | Cyflwynwyd i'r Aelodau | £'m | Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn % |
|---|---|---|---|
| 1 | 12 Rhagfyr 2023 | 44.71 | 13.5 |
| 2 | 3 Ionawr 2023 | 44.08 | 11.8 |
| 3 | 16 Ionawr 2023 | 43.31 | 9.9 |

**Opsiwn 1**

16 Cadarnhaodd yr asesiad cynllunio a gyflwynwyd i'r Aelodau ar 12 Rhagfyr 2022 ofyniad gwariant net ar gyfer 2023/24 o £44.71m sy'n gynnydd o flwyddyn i flwyddyn o £5.30m. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys gwaith a gynhaliwyd o ran bob pennawd gwariant i ohirio gwariant blaenoriaeth is a dileu eitemau a ystyriwyd yn rhai dewisol o ran natur.

| £'m | 2022/23 | 2023/24 | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | 28.20 | 31.76 | 3.56 |
| Heb fod yn dâl (net o incwm) | 11.21 | 12.95 | 1.74 |
| **Cyfanswm** | **39.41** | **44.71** | **5.3** |

17 Mae'r tabl isod yn rhoi cysoniad rhwng cyllideb refeniw 2022/23 a'r gyllideb arfaethedig wreiddiol ar gyfer 2023/24.

| | £'000 |
|---|---|
| **Cyllideb 2022/23** | **39,410** |
| Rhagdybiaeth gyflog wreiddiol (fesul MTFP) | 500 |
| Dyfarniadau cyflog uwchben y rhagdybiaethau a gynlluniwyd | 1,700 |
| Cynnydd mewn darpariaeth hyfforddiant | 350 |
| Cynnydd mewn gwydnwch gweithredol | 520 |
| Gwytnwch a gallu corfforaethol | 100 |
| Diogelwch Tân Busnes | 100 |
| Costau ynni | 890 |
| Cynydd yn y gyfradd llog | 600 |
| Taliadau cyfalaf yn ymwneud â phrynu tir | 150 |
| Pwysau chwyddiant eraill | 394 |
| **Asesiad cyllideb 2023/24** | **44,714** |

**Opsiwn 2**

18 Cynhaliwyd cyfarfod cynllunio pellach gyda'r Aelodau ar 3 Ionawr 2023 i adolygu cynnig diwygiedig ar gyfer y gyllideb. Roedd hyn yn cynnwys rheoli’r pwysau ychwanegol o ran costau a oedd yn deillio o ddileu cymorth Llywodraeth Cymru o £0.4m ar gyfer y rhwydwaith gwasanaethau brys cenedlaethol.

19 Yn y cyfarfod hwn, cyflwynwyd amcangyfrif diwygiedig o £44.081m (+11.8%) a oedd yn cynnwys defnyddio arian wrth gefn i liniaru effaith y gostyngiad mewn grant. Roedd mesurau eraill yn cynnwys lleihau’r asesiad cynllunio o ddyfarniadau cyflogau yn ystod 2023/24 i 4% ac ymrwymo i nodi £0.2m pellach o fewn costau'r gyflogres.

20 Nododd yr aelodau’r sefyllfa a gofyn am gynigion pellach y gellid eu gweithredu yn 2023/24 er mwyn gostwng y cynnydd i 9.9%.

**Opsiwn 3**

21 Er mwyn cyflawni'r cynnydd o £3.9m (+9.9%) o flwyddyn i flwyddyn, mae angen lleihau'r asesiad cynllunio gwreiddiol £1.4m ac amsugno effaith y £0.4m yn dilyn y gostyngiad mewn grant. O ystyried y gostyngiadau yn y gyllideb dros y 15 mlynedd diwethaf, mae'r cyfle i wneud arbedion effeithlonrwydd yn fach a bydd y mesurau hyn yn effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau a'r capasiti corfforaethol yn ystod 2023/24.

22 Bydd capio'r gwariant ar gyfer 2023/24 ar £4.31m yn effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau a'r capasiti corfforaethol. Byddai gostyngiadau pellach yn golygu gwneud newidiadau strwythurol parhaol y mae angen asesiadau cynllunio manwl ac ymgynghoriad cyhoeddus ar eu cyfer ac ni ellir eu gweithredu cyn 2024/25. Mae adolygiad gofal tân ar y gweill ar hyn o bryd a bydd y canfyddiadau'n cael eu hystyried gan yr Awdurdod yn ystod Ebrill 2023. Bydd hyn yn galluogi newidiadau strwythurol parhaol i fodelau cyflenwi gwasanaethau y gellir cynnal asesiad risg llawn arnynt ac a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Haf 2023.

23 Mae'r tabl isod yn cynnwys cynigion ar gyfer lleihau'r gyllideb i £43.31m (+ 9.9%). Mae'r cynigion hyn yn cynnwys mesurau a fydd yn effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau a'r capasiti corfforaethol. Mae cysoniad llawn rhwng yr asesiad gwreiddiol o'r gyllideb o £44.71m (Opsiwn 1) a'r opsiwn o gapio gwariant ar £43.31m (Opsiwn 3) i'w gael yn Atodiad 5.

| Cynnig | £'000 | Risg |
|---|---|---|
| Cyn ymgynghoriad cyhoeddus, peilota uchafswm amser ymateb o 35 munud. | -300 | Y safon bresennol yw uchafswm amser teithio o 30 munud. Bydd ymestyn yr amser ymateb yn cynyddu difrifoldeb tanau, oherwydd ei bod yn cymryd mwy o amser i fynd atynt. Bydd yn lleihau nifer y criwiau sydd ar gael ar draws Gogledd Cymru o 20 i 18 yn ystod y dydd a 28 yn ystod y nos. |
| Lleihau nifer y gweithwyr cymorth diogelwch yn y cartref o 14 i 11, lleihau nifer yr archwiliadau a chyngor diogelwch yn y cartref o 20,000 y flwyddyn i 17,500 y flwyddyn | -100 | Cynnydd mewn tanau yn y cartref ymhlith y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau |

| | | |
|---|---|---|
| Gohirio prynu'r cyfarpar dillad personol (PPE) ar gyfer tanau yn yr awyr agored tan 2024/25 | -200 | Bydd yr argymhellion iechyd a diogelwch ar sail yr ôl-drafodaeth a gafwyd eleni ar danau yn yr awyr agored yn cael eu gohirio. Y Gogledd yw'r unig wasanaeth tân ac achub yng Nghymru heb y cyfarpar diogelu personol hwn. |
| Parhau i gynyddu'r broses recriwtio i swyddi gwag mewn gorsafoedd ar alwad ond cyfyngu hyn i gynnydd net o 20 diffoddwr tân | -168 | Parhau gyda'r her a'r gost o ôl-lenwi gorsafoedd ar alwad i sicrhau eu bod ar gael i ymateb i risgiau yn eu hardal |
| **Gofynion cyllideb net 2023/24** | **43,313** | **Cynnydd o 9.9%** |

**Trosolwg o'r penawdau o ran gwariant**

24 Mae costau cyflogau gweithwyr yn fwy na 70% o'r gwariant net. Oherwydd trafodaethau am gyflogau sy'n ddyledus a chwyddiant cyflog, mae'r Awdurdod yn wynebu ymrwymiadau ychwanegol na ellir mo'u hosgoi ac mae hwn yn parhau i fod yn bwnc sy'n achosi ansicrwydd sylweddol. Y rhagdybiaeth cynllunio bresennol yw bod hawliad cyflog 2022/23 wedi'i setlo ar 5%, a bod y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24 yn 4% i'r holl staff. Hwyrach y caiff cytundeb dwy flynedd ei sicrhau, ond gan nad yw dyfarniadau cyflog cenedlaethol wedi'u cwblhau eto, mae hyn yn parhau i fod yn risg sylweddol o ran cynllunio. Mae'r gwaith yn parhau i sicrhau rheolaeth ofalus dros gostau gweithwyr, gan gynnwys parhau i reoli cyflogau amrywiol.

25 Darperir dadansoddiad o gostau'r gweithwyr isod (opsiwn 3) sy'n cadarnhau bod dros 89% o'r costau'n ymwneud â gweithwyr sy'n gweithio mewn rolau darparu gwasanaethau.

| Dadansoddi'r Gyllideb Staffio | 2023/24 £'m | 2024/25 £'m | 2025/26 £'m |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Ymateb | 24.661 | 25.974 | 26.846 |
| Gwasanaethau Amddiffyn ac Atal | 2.670 | 2.879 | 2.994 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 3.061 | 3.354 | 3.486 |
| **Gofyniad Cyllideb Staffio** | **30.392** | **32.207** | **33.326** |

26 Cynyddodd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr i ddiffoddwyr tân yn ystod 2019/20 yn dilyn ailwerthusiad 2016 gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth cychwynnol o £1.1m a gafodd ei dalu'n uniongyrchol i'r Awdurdod. Cadarnhawyd y bydd cymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer 2023/24, er bydd yr arian yn cael ei dalu i awdurdodau lleol drwy eu setliad Grant Cynnal Refeniw terfynol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn ychwanegol at gyhoeddi setliad drafft yr awdurdodau lleol ar 13 Rhagfyr 2022, ac os caiff y swm hwn ei gynnwys yn ardoll yr Awdurdod, bydd yr effaith yn gost-niwtral i'r awdurdodau lleol.

27 Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, cyflwynodd deiliaid y gyllideb gynlluniau adrannol yn manylu ar eu gwariant disgwyliedig nad ydyw ar gyflogau. Ystyriwyd y risgiau penodol o dan bob pennawd ar gyfer y gyllideb gan arwain at yr asesiad cyllideb cychwynnol ar gyfer cyflenwadau, gwasanaethau a thaliadau trydydd parti o £13.04m. Ers hynny, mae'r sefyllfa wedi dirywio ymhellach gan fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn dileu'r grant o £0.4m i gynorthwyo â chostau'n ymwneud â rhwydwaith y gwasanaethau brys. Mae'r costau hyn yn hanfodol ac felly mae hyn yn achosi pwysau ychwanegol o ran costau.

28 Mae'r pwysau anochel o ran costau a brofir yn y rhan fwyaf o feysydd nad ydynt yn gostau cyflogau yn gyffredin ar draws y sector cyhoeddus. Yn benodol, nodwyd yn yr adroddiad i'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022 bod pwysau costau ynni o £0.9m yn cael eu profi a hefyd bod cymorth y Llywodraeth ond yn cael ei warantu tan 31 Mawrth 2023.

29 Mae'r gofyniad i'r sector cyhoeddus gyflawni ôl troed carbon sero-net erbyn 2030 wedi golygu bod angen cynnal adolygiad o effeithlonrwydd ynni ystâd yr Awdurdod a lefel allyriadau ei gerbydau. Er nad oes cyllideb benodol wedi'i dyrannu ar gyfer strategaethau i leihau ynni, mae'r holl waith caffael yn cynnwys camau i leihau ôl troed carbon yr Awdurdod.

30 Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Mae sawl cynnydd yng nghyfraddau sylfaenol Banc Lloegr wedi digwydd yn ystod 2022/23 ac mae'r cyfraddau benthyca bellach yn 5.2%. Mae hyn yn amrywiant sylweddol i'r cyfraddau isel sydd wedi bod ers nifer o flynyddoedd ac mae'r gyllideb ariannu cyfalaf wedi cael ei chynyddu i adlewyrchu'r sefyllfa sy'n dal i ddirywio. Mae costau llog o £0.15m wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2023/24 mewn perthynas â phrynu tir posib. Bydd y cynllun hwn yn amodol ar gymeradwyaeth ar wahân gan Aelodau.

31 Bydd yr ansicrwydd economaidd sy'n deillio o faterion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi fyd-eang a chwyddiant uchel yn cael ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn creu ansicrwydd a risgiau sylweddol a allai olygu bod angen diwygio dyraniadau cyllideb i fynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n newid.

**CYNLLUN CYFALAF DRAFFT 2023/24**

32 Amlinellir y cynllun cyfalaf drafft yn Atodiad 3 ac mae'n cynnig gofyniad cyfalaf o £6.53 miliwn ar gyfer 2023/24. Mae prif elfen y cynllun yn ymwneud â'r posibilrwydd o brynu tir er mwyn darparu ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi newydd a'r buddsoddiad hanfodol mewn offer tân newydd.

33 Mae'r cynllun yn cynnwys cyflwyno cyllid o £0.375 o 2022/23, sy'n ymwneud â disodli'r tyrau hyfforddi presennol sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Mae'r tendrau ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

34 Dim ond cynlluniau adeiladu y gellir eu cwblhau'n ddiogel yn yr hinsawdd sydd ohoni sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu cyn i'r cyllid gael ei ryddhau.

35 Mae gwaith yn parhau er mwyn lleihau allyriadau carbon gan gynnwys defnyddio cerbydau sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Mae nifer o gerbydau trydan a hybrid wedi'u rhoi ar les i swyddogion ar ddyletswydd, i gymryd lle cerbydau disel. Eu rhoi ar les yw'r dull mwyaf cost-effeithiol ar hyn o bryd o gaffael, ar gyfer y mathau hyn o gerbydau, ac mae'n galluogi'r Adran Fflyd i adolygu eu haddasrwydd a'u perfformiad a manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf.

36 Mae'r gwariant cyfalaf ar gyfer y dyfodol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Canolfan Hyfforddi newydd i ddisodli'r trefniadau presennol. Mae'r ddarpariaeth o hyfforddiant wedi cael ei nodi gan Gyngor Tân Cymru fel maes ffocws allweddol ac nid yw'r trefniadau presennol yn gynaliadwy yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae'r amcangyfrifon cyfalaf cychwynnol wedi'u cynnwys o fewn Atodiad 3 ac maent yn sicrhau bod y cynllun ariannol tymor canolig (MTFP) yn cynnwys yr effaith bosibl ond nid yw hyn yn gyfystyr â chymeradwyaeth, ac mae'r ffigyrau ar hyn o bryd yn seiliedig ar y senario waethaf bosibl. Mae'r prosiect yn ei gyfnod cychwynnol ar hyn o bryd ac er bod darpariaeth ariannol wedi'i chynnwys yn rhan o'r MTFP, bydd y cynigion manwl yn destun dadansoddiad manwl a threfniadau cymeradwyo ar wahân gan gynnwys yr asesiad fforddiadwyedd.

37 Bydd y gwariant cyfalaf yn cael effaith ganlyniadol ar y gyllideb refeniw yn ystod blynyddoedd ariannol i ddod. Mae taliadau ariannu cyfalaf perthnasol wedi'u cynnwys o fewn y cynllun ariannol tymor canolig ac mae'r manylion i'w cael yn Atodiad 2.

## STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023/26 (MTFS)

38 Darperir yr MTFS drafft o fewn Atodiad 2 ac mae'n asesu’r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth gwasanaethau. Gwariant sy'n gysylltiedig â gweithwyr yw'r brif gost o hyd ac mae'r strategaeth ariannol tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaeth cynllunio o ddyfarniad cyflog o 4% ar gyfer 2023/24, gan leihau i 3% dros y cyfnod cynllunio sy'n weddill.

39 Amlinellir y risgiau a'r amheuon allweddol sy'n ymwneud â'r MTFS yn atodiad 1. Y rhagdybiaeth gynllunio bresennol ar gyfer yr MTFS yw y bydd cyllid grant ar gyfer y costau pensiwn ychwanegol sy'n deillio o werthusiad Adran Actiwari’r Llywodraeth (GAD) 2016 y bydd cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn parhau i gael ei ariannu'n ganolog.

40 Mae gwariant cyfalaf dros y blynyddoedd i ddod yn parhau i fod mewn perthynas â disodli offer tân a cherbydau arbennig, yn ogystal â disodli systemau TGCh. Mae'r MTFS hefyd yn cynnwys costau dros dro sy'n gysylltiedig â phrynu tir, ac adeiladu Canolfan Hyfforddi newydd, ac mae’n nodi y bydd hyn yn destun cymeradwyaeth a fforddiadwyedd ar wahân.

## CYFRANIADAU AWDURDODAU CYFANSODDOL

41 Mae cyfraniadau arfaethedig yr Awdurdodau cyfansoddol wedi'u cofnodi yn Atodiad 4 ac yn darparu'r ardoll ar gyfer pob un o'r opsiynau a amlinellir yn y papur hwn.

42 Mae swm pellach i ddod (i'w gynnwys yn yr ardoll) mewn perthynas â’r newidiadau i'r llif arian yn ymwneud â'r Grant Pensiwn, er bydd hyn yn gost-niwtral i'r awdurdodau lleol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor. |
| Cyllideb | Mae'r cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn yn cadarnhau tri opsiwn ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer 2023/24. Mae Opsiwn 3 yn cynnwys camau a fyddai'n effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaeth a chapasiti corfforaethol. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb refeniw gytbwys. Yn unol â hyn, rhaid i'r Awdurdod hefyd gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol eraill gan gynnwys arferion cyfreithiol priodol. Felly, bydd unrhyw newidiadau strwythurol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori â'r staff fel y bo'n addas. |
| Staffio | Mae pob un o'r opsiynau yn yr adroddiad hwn yn gofyn rheoli'r gwariant staff yn ofalus. Mae Opsiwn 2 yn cynnwys mesurau i nodi arbedion mewn cyllidebau staff presennol a allai effeithio ar lwyth gwaith a chapasiti staff. Mae Opsiwn 3 yn cynnwys rhagor o gynigion i ostwng costau staff ymhellach a fydd yn effeithio ar gapasiti corfforaethol yn ogystal â darpariaeth y gwasanaeth. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Dim |

| | |
|---|---|
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae asesiad risg wedi'i gynnal ar y gyllideb ddrafft a nodwyd y risgiau canlynol:<br>• Cyflawnwyd cynnydd blwyddyn i flwyddyn o 9.9% yn dilyn mesurau sy'n effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaeth a chapasiti corfforaethol;<br>• mae'r gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd dyfarniadau cyflog yn 5% ar gyfer 2022/23 a 4% ar gyfer 2023/24. Nid oes cytundebau cenedlaethol wedi'u gwneud eto;<br>• y rhagdybiaeth gynllunio yw y bydd cymorth Llywodraeth Cymru i'r cynnydd mewn pensiynau diffoddwyr tân yn parhau. Cafodd ei gadarnhau y bydd hyn yn parhau'n weithredol ar gyfer 2023/24 ond wedi'i ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol (drwy'r grant cefnogi refeniw);<br>• y rhagdybiaeth gynllunio wreiddiol oedd y byddai cyllid o £0.4m gan Lywodraeth Cymru yn parhau ar gyfer y rhwydwaith gwasanaeth brys cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu'r grant hwn yn ôl bellach ac mae hwn nawr yn achosi pwysau o ran cost;<br>• mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol yn ystod 2023/24. Nid oes asesiad o'r costau wedi'i gynnal eto; a<br>• mae'r ansicrwydd ynghylch chwyddiant cyffredinol a phrinder yn y gadwyn gyflenwi yn parhau ac nid oes costau ychwanegol wedi'u ffactora yn y gyllideb ar gyfer 2023/24. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth osod cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau'r gweithiwr | • Mae'r cyllidebau staffio wedi'u llunio ar fodelau darparu gwasanaethau presennol a'u diweddaru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd o fewn asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân yn 2021. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi staff ac i sicrhau capasiti gweithredol a chorfforaethol.<br><br>• Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol a gyflwynwyd i aelodau ym mis Rhagfyr 2021 yn tybio dyfarniadau cyflog cenedlaethol o 2%. Nid yw'r asesiad hwn bellach yn ddilys ac mae angen darpariaeth sylweddol i fynd i'r afael â dyfarniadau cyflog 2022/23 (sydd heb eu cwblhau eto ar gyfer diffoddwyr tân) a dyfarniadau 2023/24. Mae cynigion y gyllideb yn tybio bod anghydfod cyflog diffoddwyr tân ar gyfer 2022/23 wedi'i setlo ar 5%. Mae amcangyfrif dros dro o 4% ar gyfer 2023/24 hefyd wedi'i gynnwys.<br><br>• Mae'r cynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau yswiriant gwladol sy'n berthnasol o fis Ebrill 2022 bellach wedi'i wyrdroi yn dilyn canlyniad mini-gyllideb Medi 2022. | • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog diffoddwyr tân ar gyfer 2022/23, er y rhagwelir aneddiadau uwchben darpariaeth y gyllideb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae darpariaeth wedi'i wneud ar gyfer costau cyson setliad o 5% ar gyfer 2022/23.<br><br>• Roedd y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb ar y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau LGPS ar gyfer 2022/23. Roedd hyn yn uwch na'r asesiad cynllunio gwreiddiol ar gyfer 2022/23 ac mae wedi arwain at bwysau cyson yn y gyllideb.<br><br>• Nid yw'r dyfarniadau cyflog ar gyfer 2023/24 wedi'u cwblhau eto ac mae'r rhagdybiaeth cynllunio bresennol yn cynnwys cynnydd o 4%. Mae hwn yn faes sy'n achosi ansicrwydd a risg. Petai'r costau'n fwy na'r rhagdybiaeth cynllunio, yna efallai y bydd ardoll atodol yn ofynnol.<br><br>• Mae cynllun y gyllideb yn tybio lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llu o ddigwyddiadau'n digwydd, bydd pwysau'n codi ar y gyllideb. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Tybir y bydd y cynnydd i gyfraddau cyfraniadau pensiwn cyflogwr sy'n deillio o werthiant diwethaf Adran Actiwari y Llywodraeth yn parhau i gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.<br><br>• Yn dilyn yr ymchwiliad cyhoeddus i drychineb Grenfell, mae'r Ddeddf Diogelwch Tân (2021) wedi cyflwyno newidiadau i'r rheoliadau adeiladu. Bydd cynigion y gyllideb yn adlewyrchu staffio a hyfforddiant diwygiedig i staff er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu ymateb i'r newidiadau hyn. | • Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y grant i gefnogi'r cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cynllun pensiwn diffoddwyr tân yn parhau ar ei lefel bresennol o £1.1m. Fodd bynnag, fydd hwn ddim yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Awdurdod mwyach ond yn hytrach bydd y cyllid yn cael ei roi'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol cyfansoddol yn ogystal â'u cyllid presennol (cost-niwtral i awdurdodau lleol).<br><br>• Ym mis Rhagfyr 2018, collodd y llywodraeth ei hapêl i her gyfreithiol y trefniadau pensiwn trosiannol ar gyfer diffoddwyr tân. Bydd yr adferiad yn berthnasol i holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Mae'r canlyniad ariannol yn anhysbys ac nid oes darpariaeth wedi'i wneud.<br><br>• Mae'r cynllun pensiwn ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi ar delerau ac amodau llywodraeth leol yn destun prisiad bob pedair blynedd. Mae'r prisiad diweddaraf yn cael ei gwblhau a bydd yn dod i rym o fis Ebrill 2023. Nid yw'n hysbys a fydd hyn yn effeithio ar gyfraniadau'r cyflogwr ac mae'n parhau i fod yn risg ar hyn o bryd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae'r cynllun pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân yn destun prisiad bob pedair blynedd. Mae'r canlyniadau'n llywio'r cyfraddau cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr a bennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd canlyniad y prisiad nesaf yn berthnasol o fis Ebrill 2024 ac mae disgwyl iddo gynyddu cyfraddau cyfraniad cyflogwyr o'u lefel bresennol o 27.3% o gyflog pensiwn. Er na fydd hyn yn effeithio ar y flwyddyn ariannol 2023/24 mae'n parhau i fod yn risg ac yn destun ansicrwydd dros y cylch cynllunio tymor canolig. |
| Heb fod yn Gyflog | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau nad ydynt yn talu yn cael eu llunio ar fodelau darparu gwasanaethau presennol a'u diweddaru i adlewyrchu rheidrwydd sy'n deillio o asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân. Mae'r galw ar y gyllideb nad yw'n gyflog yn cynyddu ymhellach gan effaith chwyddiant a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi.<br><br>• Mae cyllidebau wedi'u llunio gan ddefnyddio gwybodaeth a barn broffesiynol rheolwyr cyllideb a rhwymedigaethau cytundebol sylfaenol, ond mae rhywfaint o waith amcangyfrif yn rhan ohonynt. Lle gellir mesur pwysau'r costau, mae'r rhain wedi cael eu nodi ar wahân (e.e. ynni) | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflog ac yn ymdrechu i reoli pwysau'r costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hwn yn parhau i fod yn risg oherwydd y pwysau parhaus ar y gadwyn gyflenwi sy'n deillio o gynnydd mewn prisiau a phroblemau o ran argaeledd. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus ond oherwydd ansefydlogrwydd sylweddol, nid yw'n bosibl mesur yr effaith yn llawn.<br><br>Mae cost nwy a thrydan yn bwysau cost amlwg ac mae'r rhagdybiaethau cynllunio presennol yn cynnwys cynnydd o £0.9m o'r asesiad cychwynnol ar gyfer y cynllun ariannol tymor canolig.<br><br>• Mae gwaith caffael cenedlaethol Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys yn mynd rhagddo ond mae oedi sylweddol yn y gwaith hwnnw. Mae'r contract presennol wedi cael ei ymestyn ac yn hanesyddol mae'r Awdurdod wedi derbyn £0.4m gan Lywodraeth Cymru tuag at ddarparu'r gwasanaeth presennol. Y rhagdybiaeth wreiddiol oedd y byddai'r cymorth refeniw presennol yn parhau ond tynnodd Llywodraeth Cymru hwn yn ôl ar 14 Rhagfyr 2022. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Er bod yr Awdurdod yn parhau i weithio tuag at leihau ei ôl troed carbon, nid oes cynlluniau manwl wedi'u ffurfio eto. Bydd y gwaith hwn yn symud ymlaen yn ystod 2023/24 ac nid oes darpariaeth benodol o ran cyllideb wedi'i chynnwys. |
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofyniad ariannu cyfalaf ar gyfer 2023/24 yn cael ei ddylanwadu gan wariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24 ac effaith y cynnydd mewn cyfradd llog. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn achosi risg sylweddol o ystyried yr ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd. Bydd gwaith modelu ariannol pellach yn cael ei wneud er mwyn asesu sensitifrwydd sefyllfa ariannol a pherfformiad yr Awdurdod i gynnydd pellach mewn cyfraddau llog a bydd y gwaith yn cael ei gynnwys wrth osod y gyllideb. |
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi cael eu hadolygu a'u gosod yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn. |

**Atodiad 2 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/2026 – Refeniw**

| | 2022/23 Cyllideb £m | 2022/23 Amcanestyniad £m | 2023/24 Cyllideb £m | 2024/5 Cyllideb £m | 2025/6 Cyllideb £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau cyflogau gweithwyr* | 30.130 | 31.167 | 30.392 | 32.207 | 33.326 |
| Costau eraill yn ymwneud â gweithwyr | | | 1.432 | 1.342 | 1.345 |
| **Cyfanswm Costau Gweithwyr** | **30.130** | **31.167** | **31.824** | **33.549** | **34.671** |
| **Cynnydd o ran Costau Gweithwyr** | | | **5.62%** | **5.42%** | **3.34%** |
| Safleoedd | 2.901 | 4.084 | 3.470 | 3.605 | 3.790 |
| Trafnidiaeth | 1.204 | 1.263 | 1.239 | 1.177 | 1.154 |
| Cyflenwadau, Gwasanaethau a 3ydd Parti | 5.370 | 5.871 | 5.676 | 6.350 | 6.081 |
| **Cyfanswm y Gwariant nad ydyw ar Gyflogau** | **9.475** | **11.218** | **10.384** | **11.132** | **11.025** |
| **Cynnydd yn y Gwariant nad ydyw ar Gyflogau** | | | **9.60%** | **7.20%** | **-0.96%** |
| Ffioedd a Thaliadau/Amrywiol Incwm | - 0.277 | - 0.303 | - 0.262 | - 0.271 | - 0.280 |
| Incwm Grant | - 2.179 | - 2.179 | - 0.682 | - 0.682 | - 0.682 |
| Grant SCAPE a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol yn y grant cynnal refeniw (RSG) | | | - 1.080 | - 1.080 | - 1.080 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **- 2.456** | **- 2.482** | **- 2.024** | **- 2.033** | **- 2.042** |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau Llog | **2.263** | **2.513** | **3.129** | **4.670** | **6.936** |
| Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau | | - 3.004 | | | |
| **Gofynion y Gyllideb** | **39.412** | **39.412** | **43.314** | **47.318** | **50.590** |
| **Cynnydd yn y Gyllideb** | | | **9.90%** | **9.24%** | **6.92%** |

* Yn cynnwys y costau pensiwn sy'n gysylltiedig â Grant SCAPE

**Atodiad 3 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/2026 - Cyfalaf**

| **Cynllun** | **2023/24 £m** | **2023/24 £m** | **2024/25 £m** |
|---|---|---|---|
| Uwchraddio System Gorchymyn a Rheoli | 0.600 | 0.500 | |
| Canolfan Hyfforddi Newydd | 3.000 | 25.000 | 20.000 |
| Disodli Offer Tân | 1.430 | 1.400 | 3.550 |
| Faniau Gorsaf Amlbwrpas | 0.189 | 0.513 | 0.608 |
| Faniau Gweithdy'r Fflyd | | 0.201 | |
| Cerbydau Arbenigol | 0.150 | 0.260 | |
| Offer Arbenigol | | 0.500 | 0.500 |
| Fflyd - system newydd ar gyfer cwympiadau | 0.100 | | |
| Caledwedd TGCh | | 0.785 | |
| Ailosod Tŵr Hyfforddi | 0.250 | 0.250 | 0.250 |
| Adeiladau - Gwaith Mân | 0.813 | 0.750 | 0.750 |
| **Cyfanswm 2023/24** | **6.532** | **30.159** | **25.658** |
| Treigl - Tyrau Hyfforddi | 0.375 | | |
| **Cyfanswm Treigl o 2022/23** | **0.375** | | |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | **6.907** | **30.159** | **25.658** |

## Atodiad 4 - Cyfraniadau Awdurdodau Lleol Cyfansoddol 2023/24

| Awdurdod | 2022/2023 Cyfraniad £ | Poblogaeth | Dosraniad % | 2023/24 Gofynion y Gyllideb Opsiwn 1 (13.5%) | 2023/24 Gofynion y Gyllideb Opsiwn 2 (11.85%) | 2023/24 Gofynion y Gyllideb Opsiwn 3 (9.9%) | 2023/24 Cyfraniadau Grant Pensiwn wedi'u talu i'r Grant Cynnal Refeniw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Môn | 3,915,486 | 69,842 | 9.92% | 4,434,413 | 4,371,637 | 4,295,515 | 107,106 |
| Cyngor Gwynedd | 7,017,885 | 125,539 | 17.83% | 7,970,731 | 7,857,893 | 7,721,066 | 192,520 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 6,631,214 | 118,625 | 16.84% | 7,531,747 | 7,425,123 | 7,295,832 | 181,917 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 5,381,432 | 96,198 | 13.66% | 6,107,810 | 6,021,345 | 5,916,497 | 147,524 |
| Cyngor Sir y Fflint | 8,813,821 | 157,626 | 22.38% | 10,008,001 | 9,866,322 | 9,694,523 | 241,728 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7,652,042 | 136,419 | 19.37% | 8,661,525 | 8,538,907 | 8,390,222 | 209,205 |
| **Cyfanswm** | **39,411,879** | **704,249** | **100%** | **44,714,228** | **44,081,228** | **43,313,655** | **1,080,000** |
| Grant Pensiwn | 1,080,000 | | | 1,080,000 | 1,080,000 | 1,080,000 | |
| **Gros** | **40,491,879** | | | **45,794,228** | **45,161,228** | **44,393,655** | |

## Atodiad 5 - Cysoni opsiynau cyllideb

| | £'000 | Rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| **Cyllideb 2022/23** | **39,410** | |
| Y rhagdybiaeth cyflogau gwreiddiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig | 500 | 2% ar gyfer 2022/23 a 2% ar gyfer 2023/24 |
| Dyfarniadau cyflogau uwchben y rhagdybiaethau cynllunio | 1,700 | 5% ar gyfer 2022/23 (eisoes wedi'i wrthod gan Undeb y Brigadau Tân) a 5% ar gyfer 2023/24 |
| Costau ynni | 890 | Dim cefnogaeth lywodraethol 2023/24 |
| Cynnydd o ran cyfraddau llog | 600 | Ar fenthyciadau sydd eisioes yn bodoli a ddefnyddiwyd i ariannu peiriannau tân ac adeiladau newydd yn y gorffennol. (Ni ddarperir cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub) |
| Taliadau cyfalaf yn ymwneud â phrynu tir | 150 | Os yw'r Awdurdod yn cymeradwyo'r achos busnes ar gyfer y ganolfan hyfforddi tân newydd, mae hyn i ddarparu ar gyfer prynu'r safle yn 2023/24 |
| Cynnydd o ran cydnerthedd gweithredol | 520 | Cryfhau capasiti diffoddwyr tân RDS, pum swydd diffoddwr tân ychwanegol i fynd i'r afael ag ymddeoliadau disgwyliedig, taliadau datblygiad proffesiynol parhaus a chyfarpar diogelu personol perthnasol ar gyfer tanau yn yr awyr agored. |
| Diogelwch Tân Busnes | 100 | Rheoliadau ychwanegol o ganlyniad i Ymchwiliad Grenfell yn gofyn am ddwy swydd ychwanegol i weithio ag arolygwyr awdurdodau lleol i graffu ar gynlluniau a gwaith adeiladu |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn darpariaeth hyfforddiant | 350 | Dwy swydd Rheolwr Criw i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i safonau cenedlaethol ac i dalu diffoddwyr tân rhan-amser (RDS) i hyfforddi ar benwythnosau |
| Cydnerthedd a gallu corfforaethol | 100 | Swyddog cynllunio corfforaethol, swyddog ymgysylltu digidol a swyddog pensiwn |
| Pwysau arall oherwydd chwyddiant | 394 | |
| **Gofynion cyllideb 2023/24** | **44,714** | **13.50%** |
| Llywodraeth Cymru yn dileu grant tuag at redeg system gyfathrebu genedlaethol - Airwave | 400 | Ni all unrhyw wasanaeth brys symud o system Airwave nes daw system arall wedi'i chaffael yn genedlaethol yn ei lle yn 2027 |
| Llywodraeth Cymru yn dileu grant pensiwn | 1,080 | Wedi'i ddarparu i wneud iawn am benderfyniad y Trysorlys i leihau cyfradd SCAPE |
| Cydnerthedd a chapasiti corfforaethol a gweithredol | -200 | Cyfle i gyfuno rhai swyddi a gohirio recriwtio |
| Lleihau rhagdybiaethau cyflogau | -333 | Setliad dwy flynedd posibl ar sail 5% a 4% |
| Seilwaith cronfeydd wrth gefn | -500 | Mae hyn yn gohirio'r cynnydd am 12 mis |
| Symud grant pensiwn i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw | -1,080 | |
| **Gofynion cyllideb net 2023/24** | **44,081** | **Cynnydd o 11.85%** |

| **Cynnig** | | **Risg** |
|---|---|---|
| Cyn ymgynghoriad cyhoeddus, peilota uchafswm amser ymateb o 35 munud. | -300 | Y safon bresennol yw uchafswm amser teithio o 30 munud. Bydd ymestyn yr amser ymateb yn cynyddu difrifoldeb tanau, oherwydd ei bod yn cymryd mwy o amser i fynd atynt. Bydd yn lleihau nifer y criwiau sydd ar gael ar draws Gogledd Cymru o 20 i 18 yn ystod y dydd a 28 yn ystod y nos. |

| | | |
|---|---:|---|
| Lleihau nifer y gweithwyr cymorth diogelwch yn y cartref o 14 i 11, lleihau nifer yr archwiliadau a chyngor diogelwch yn y cartref o 20,000 y flwyddyn i 17,500 y flwyddyn | -100 | Cynnydd mewn tanau yn y cartref ymhlith y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau |
| Gohirio prynu'r cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer tanau yn yr awyr agored tan 2024/25 | -200 | Bydd yr argymhellion iechyd a diogelwch ar sail yr ôl-drafodaeth a gafwyd eleni ar danau yn yr awyr agored yn cael eu gohirio. Y Gogledd yw'r unig wasanaeth tân ac achub yng Nghymru heb y cyfarpar diogelu personol hwn. |
| Parhau i gynyddu'r broses recriwtio i swyddi gwag mewn gorsafoedd ar alwad ond cyfyngu hyn i gynnydd net o 20 diffoddwr tân | -168 | Parhau gyda'r her a'r gost o ôl-lenwi gorsafoedd ar alwad i sicrhau eu bod ar gael i ymateb i risgiau yn eu hardal |
| **Gofynion cyllideb net 2023/24** | **43,313** | **Cynnydd o 9.9%** |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | | |
|---|---|---|
| Adrodd i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2023** | |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** | |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard – Pennaeth Cyllid** | |
| Pwnc | **Diweddariad ar Reoli Trysorlys a Chyfalaf** | |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw:

i. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar weithgarwch rheoli'r trysorlys ar gyfer 2022/23; a
ii. cyflwyno i'r aelodau y Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y Strategaethau) arfaethedig sy'n ymgorffori'r Datganiad Isafswm Refeniw ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Datblygu strategaethau rheoli cyfalaf a thrysorlys yw'r dull arfer gorau o gynllunio gwariant a chyllid cyfalaf yn y tymor hwy. Mae'r Strategaethau hyn yn rhoi trosolwg o'r gwariant cyfalaf arfaethedig yn y dyfodol, y cyllid cyfalaf a'r gweithgaredd rheoli'r trysorlys sydd ei angen i gyflawni amcanion Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

3 Dylai'r Awdurdod hefyd sicrhau bod y goblygiadau refeniw yn cael eu hystyried yn llawn a bod y penderfyniadau gwariant cyfalaf a chyllid yn gynaliadwy yn ariannol. Mae'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP – Minimum Revenue Provision) yn nodi canlyniadau refeniw yr asesiadau cynllunio cyfalaf cyfredol.

4 Mae'r Strategaethau hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch sut y rheolir risgiau cysylltiedig a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Maent yn rhoi crynodeb o'r prosesau a'r gweithdrefnau cyffredinol sy'n llywodraethu prynu ac ariannu asedau er mwyn gwella dealltwriaeth aelodau o'r meysydd hyn, sydd weithiau'n dechnegol.

5 Mae'r Strategaethau hyn wedi'u datblygu ar y cyd â'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio yr atodiadau yn yr adroddiad hwn yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2022. Nododd y Pwyllgor Archwilio gynnwys yr adroddiad ond ni allai gadarnhau'r Strategaethau Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys na'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) gan fod y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 yn parhau ar ffurf drafft bryd hynny.

## ARGYMHELLION

6 Gofynnir i'r aelodau:

i. sylwi ar sefyllfa ganol-blwyddyn gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2022/23;
ii. cymeradwyo'r Strategaethau Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys a'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24, yn amodol ar unrhyw newidiadau angenrheidiol, ar ôl cymeradwyo'r cyllidebau refeniw a chyfalaf terfynol ar gyfer 2023/24; ac
iii. yn achos newidiadau i'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 dirprwyo cymeradwyaeth i'r Strategaethau hyn a'r Datganiad MRP i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2023.

## CEFNDIR

5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Strategaethau Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf a'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

## GWYBODAETH

6 Mae Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn cadarnhau gweithgarwch rheoli cyfalaf a thrysorlys am y cyfnod 1 Ebrill 2022 – 30 Medi 2022. Darperir diweddariad blwyddyn lawn i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023.

7 Mae'r Strategaethau Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys a'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw wedi'u cynnwys yn Atodiadau 2 – 4. Mae'r gwariant cyfalaf a'r gofynion benthyca dilynol sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiadau yn cynnwys y gwariant cyfalaf arfaethedig a nodir yn y cyllidebau cyfalaf a refeniw drafft ar gyfer 2023/24. Os bydd angen diwygio'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2023/24 ymhellach, bydd angen diwygio'r strategaethau a'r Datganiad MRP.

8 Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r cynlluniau ar gyfer gofynion gwariant cyfalaf ac ariannu'r Awdurdod yn y dyfodol ac fe'i nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Nodir bod cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys buddsoddiad mawr mewn canolfan hyfforddi newydd ar gyfer darparu hyfforddiant hanfodol i'n staff. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddatblygu dros y flwyddyn sydd i ddod ac yn cael ei gyflwyno i Aelodau mewn cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol. Bydd yr achos busnes yn cynnwys y goblygiadau ariannol, gan gynnwys llywodraethu a fforddiadwyedd hirdymor y cynigion

9 Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y Strategaeth) wedi'i chynnwys o fewn Atodiad 3 ac mae'n rhoi trosolwg o ddull yr Awdurdod o fenthyca er mwyn ariannu'r cynlluniau gwariant cyfalaf. Mae'r Strategaeth hefyd yn ymgorffori'r dull o reoli buddsoddiadau, er y dylai Aelodau nodi bod hyn yn ymgorffori rheoli arian dros ben tymor byr yn unig.

10 Mae'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw yn rhoi sylwebaeth bellach ar oblygiadau refeniw gwariant cyfalaf a chynlluniau ariannu ac fe'i nodir o fewn Atodiad 4.

11 Mae'r dogfennau hyn yn dechnegol eu natur ac yn dilyn yr arfer a argymhellir a amlinellir gan y Sefydliad Cyllid Cyhoeddus Siartredig (Cipfa – Chartered Institute of Public Finance). Er eu bod yn cael eu cyflwyno fel dogfennau ar wahân, maent yn cyflwyno trefniadau llywodraethu sy'n cwmpasu gwariant cyfalaf, ariannu a gweithgarwch rheoli'r trysorlys cysylltiedig.

12 Cefnogir yr Awdurdod drwy ddefnyddio ymgynghorwyr proffesiynol, Arlingclose, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad mewn perthynas â gweithgareddau rheoli'r Trysorlys.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod prynu asedau e mwyn cefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddoeth, fforddiadwy a chynaliadwy. Bwriad y Strategaeth Gyfalaf yw sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn isadeiledd i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymateb brys a gwaith atal am beth amser yn y dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r strategaethau'n cysylltu â'r lleoliad refeniw a chyllideb gyfalaf sy'n ystyried fforddiadwyedd tymor hwy |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi yn yr atodiadau i'r adroddiad. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Yr Iaith Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r adroddiad yn gosod y risgiau cyllidol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi. |

## Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2022/23 (Atodiad 1)

### Rhagymadrodd

Ym mis Rhagfyr 2003 mabwysiadodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) *Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer* (Cod CIPFA) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo adroddiadau hanner-blynyddol a blynyddol ar reoli'r trysorlys. Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi diweddariad ychwanegol.

Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 mewn cyfarfod ar 16 Ionawr 2022. Gan fod yr Awdurdod wedi benthyca symiau sylweddol o arian i ariannu ei wariant cyfalaf, mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

Cyhoeddodd CIPFA ei God Ymarfer Rheoli'r Trysorlys [y Cod TM] a'i God Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf diwygiedig ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r newidiadau allweddol yn y ddau god yn ymwneud â rhesymau a ganiateir i fenthyca, gwybodaeth a sgiliau, a rheoli buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys. Daeth yr egwyddorion yn y ddau God i rym ar unwaith, er y gall awdurdodau lleol ohirio cyflwyno'r gofynion adrodd diwygiedig o fewn y Codau diwygiedig tan flwyddyn ariannol 2023/24 pe dymunant, ac mae'r Awdurdod wedi dewis gwneud hynny.

Mae rheoli risg trysorlys yn yr Awdurdod yn cael ei wneud o fewn fframwaith y Cod TM. Bellach mae'r Cod hwn hefyd yn cynnwys gofynion ychwanegol helaeth ar gyfer buddsoddiadau gwasanaeth a masnachol, ymhell y tu hwnt i'r rhai yn fersiwn 2017.

### Cyd-destun Allanol

**Cefndir economaidd:** Mae'r gwrthdaro parhaus yn yr Wcráin wedi parhau i roi pwysau ar chwyddiant byd-eang ac mae'r rhagolygon economaidd ar gyfer twf y DU a'r byd yn parhau'n wan. Tyfodd mwy o ansicrwydd oherwydd sefyllfa wleidyddol y DU tua diwedd y cyfnod yn dilyn y 'digwyddiad cyllidol'.

Yn ystod y cyfnod mis Ebrill-Medi parhaodd y cefndir economaidd i gael ei nodweddu gan brisiau uchel olew, nwy a nwyddau, chwyddiant uchel parhaus a'i effaith ar gostau byw defnyddwyr, dim golwg o ddiwedd yr elyniaeth rhwng Rwsia ac Wcráin a'i heffaith gysylltiedig ar y gadwyn gyflenwi, a pholisi dim-Covid Tsieina.

Roedd rhethreg a chamau gweithredu'r Banc Canolog yn parhau'n gadarn. Fe wnaeth Banc Lloegr, y Gronfa Ffederal a Banc Canolog Ewrop oll wthio'r cyfraddau llog i fyny dros y cyfnod ac ymrwymo i frwydro'n erbyn chwyddiant, hyd yn oed pan fyddai'r canlyniadau yn ôl pob tebyg yn ddirwasgiadau yn y rhanbarthau hynny.

Arhosodd chwyddiant y DU yn eithriadol o uchel. Trawodd dangosydd blynyddol CPI 10.1% ym mis Gorffennaf, y gyfradd uchaf ers 40 mlynedd, cyn disgyn yn gymedrol i 9.9% ym mis Awst. Cofrestrodd RPI 12.3% ym misoedd Gorffennaf ac Awst. Cynyddodd y rheoleiddiwr ynni, Ofgem, y cap ar brisiau ynni 54% ym mis Ebrill, tra bod cynnydd pellach yn y cap o fis Hydref, a fyddai wedi gweld aelwydydd â defnydd ynni cyfartalog yn talu dros £3,500 y flwyddyn, wedi'i lesteirio gan lywodraeth y DU yn rhoi tua £150 biliwn o gymorth i gyfyngu biliau i £2,500 y flwyddyn tan 2024.

Parhaodd y farchnad lafur yn dynn drwy'r cyfnod ond roedd rhywfaint o dystiolaeth o leddfu'r galw a gostyngiad yn y cyflenwad. Gostyngodd y gyfradd ddiweithdra 3m y flwyddyn ar gyfer mis Ebrill i 3.8% a gostyngodd ymhellach i 3.6% ym mis Gorffennaf. Er ei fod bellach yn is na'r lefelau cyn-bandemig, fe ysgogwyd y gostyngiad diweddar gan gynnydd mewn anweithgarwch yn hytrach na'r galw am lafur. Roedd twf cyflog ym mis Gorffennaf yn 5.5% ar gyfer cyfanswm tâl (gan gynnwys taliadau bonws) a 5.2% ar gyfer tâl rheolaidd. Ar ôl ei addasu i chwyddiant, fodd bynnag, roedd y twf yng nghyfanswm y tâl yn -2.6% a -2.8% ar gyfer tâl rheolaidd.

Gyda gwasgfa ar incwm gwario a biliau ynni uwch eto i ddod, gostyngodd hyder defnyddwyr i'r lefel isaf erioed o -44 ym mis Awst, i lawr -41 yn y mis blaenorol. Gwelwyd gostyngiad yn y cynnyrch domestig gros chwarterol (GDP- Gross domestic product) -0.1% yn y chwarter Ebrill-Mehefin wedi'i ysgogi gan ostyngiad mewn allbwn gwasanaethau, ond ychydig yn well na'r gostyngiad o 0.3% a ddisgwyliwyd gan Fanc Lloegr.

Cynyddodd Banc Lloegr y Gyfradd Banc swyddogol i 2.25% dros y cyfnod. O 0.75% ym mis Mawrth, gwthiodd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC - Monetary Policy Committee) drwy godiadau o 0.25% ym mhob un o'r ddau gyfarfod MPC canlynol, cyn heicio 0.50% ym mis Awst ac eto ym mis Medi. Pleidleisiwyd cynnydd mis Awst gan fwyafrif o 8-1, gydag un aelod o'r MPC yn ffafrio codiad mwy cymedrol o 0.25%. 5-4 oedd pleidlais mis Medi, gyda phum pleidlais am gynnydd o 0.5%, tair am gynnydd o 0.75% ac un am gynnydd o 0.25%. Nododd y Pwyllgor fod disgwyl i bwysau chwyddiant domestig barhau'n gryf ac felly, o ystyried rhethreg gref barhaus ynghylch taclo chwyddiant, y dylid disgwyl cynnydd pellach yn y Gyfradd Banc.

Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), tra mai adnoddau mantolen yw'r symiau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth bresennol yr Awdurdod yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol.

Mae gan yr Awdurdod CFR cynyddol oherwydd y rhaglen gyfalaf, ond ychydig iawn o fuddsoddiadau ac felly bydd gofyn iddo fenthyca hyd at £85m dros y cyfnod a ragwelir, sy'n cynnwys £48m ar gyfer y ganolfan hyfforddi bosibl.

Mae Cod Darbodus *CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* yn argymell y dylai cyfanswm dyled yr Awdurdod fod yn is na'i CFR uchaf a ragwelwyd dros y tair blynedd nesaf. Mae Tabl 1 yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2023/24.

**Meincnod atebolrwydd:** Er mwyn cymharu benthyciadau gwirioneddol y Cyngor yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod atebolrwydd wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthyca. Nid yw hyn yn cynnwys costau posibl y ganolfan hyfforddi newydd fel y manylir yn nhabl 1 uchod, ond bod balansau arian parod a buddsoddiad yn cael eu cadw i lefel isafswm o £2.0m ar ddiwedd pob blwyddyn i gynnal hylifedd digonol ond lleihau risg credyd.


Mae'r meincnod atebolrwydd yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'r meincnod atebolrwydd ei hun yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gael i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r meincnod atebolrwydd gael ei gyfrifo a'i ddyfeisio mewn cysylltiad ag ymgynghorwyr y trysorlys. Fodd bynnag, bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy gydol y flwyddyn, i gymryd i ystyriaeth y datblygiadau sydd heb eu cynnwys isod. Nid yw'n cynnwys cost benthyca i ariannu'r ganolfan hyfforddi newydd bosibl. Bydd y dangosydd hwn yn cael ei ddiweddaru'n barhaus.

*Tabl 2: Dangosydd Darbodus: Meincnod atebolrwydd*

| | 31.3.22 Gwirioneddol £m | 31.3.23 Amcangyfrif £m | 31.3.24 Rhagolwg £m | 31.3.25 Rhagolwg £m | 31.3.26 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau CFR | **28.4** | **27.0** | **29.5** | **32.6** | 35.7 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.4 | -4.4 | -4.4 | -4.4 | -4.4 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 22.0 | 22.6 | 25.1 | 28.2 | 31.3 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.0 | 2.0 | 2.0 | 2.0 | 2.0 |
| **Meincnod atebolrwydd** | **24.0** | **24.6** | **27.1** | **30.2** | **33.3** |

Yn dilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod atebolrwydd tymor hir yn rhagdybio gwariant cyfalaf amcangyfrifedig, heb gynnwys cost y ganolfan hyfforddi newydd arfaethedig a ariennir drwy fenthyca, a lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar asedau amrywiol byw, yn unol â'r polisïau cyfrifyddu, ac mae'n ddibynnol ar yr ased ac incwm, gwariant a chronfeydd wrth gefn i gyd yn cynyddu gan chwyddiant o 3% y flwyddyn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod:



Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion cyfalaf gweithio (neu ddiffygion) wedi'u hystyried - dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng o dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthyca. Mae'r graff yn dangos bod yr awdurdod yn disgwyl y bydd angen benthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca bob amser gan nad oes ganddo arian sylweddol na chronfeydd wrth gefn a dim ond mynediad cyfyngedig i arian grant cyfalaf.

## <u>Strategaeth Fenthyca</u>

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod £19.46m o fenthyciadau, gostyngiad o £4.97m ar y flwyddyn flaenorol, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol. Mae rhagolwg y fantolen yn nhabl 1 yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl benthyca hyd at £28.99m yn 2023/24. Gall yr Awdurdod hefyd fenthyca symiau ychwanegol i ragariannu gofynion blynyddoedd i ddod, ar yr amod nad yw hyn yn fwy na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca o £30.99m.

**Amcanion:** Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca arian yw i gael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chael sicrwydd ynghylch y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Mae'r hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau, pe bai cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn newid, yn amcan eilaidd.

**Strategaeth:** O ystyried y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus ac yn arbennig i gyllid llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i ymdrinl â mater allweddol fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion. Gyda chyfraddau llog tymor byr ar hyn o bryd yn llawer is na chyfraddau hirdymor, mae'n debygol o fod yn fwy cost effeithiol yn y tymor byr i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny.

Drwy wneud hynny, mae'r Awdurdod yn gallu lleihau costau benthyca net (er gwaethaf incwm buddsoddi a ragwelwyd) a lleihau risg gyffredinol y trysorlys. Bydd manteision benthyca tymor byr yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial ar gyfer costau ychwanegol drwy ohirio benthyca i'r blynyddoedd i ddod pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca hirdymor yn codi'n gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda'r dadansoddiad 'cost cario' ac adennill costau hwn. Gall ei allbwn benderfynu a fydd yr Awdurdod yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2023/24 gyda'r bwriad o gadw costau llog yn y dyfodol yn isel, hyd yn oed os yw hyn yn achosi costau ychwanegol yn y tymor byr.

Mae'r Awdurdod eisoes wedi codi'r cyfan o'i fenthyciadau tymor hir oddi wrth y PWLB (y Public Works Loan Board yn flaenorol) ond bydd yn ystyried benthyciadau hirdymor o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol, er mwyn lleihau costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell ariannu yn unol â Chod CIPFA.

Fel arall, gall yr Awdurdod drefnu benthyciadau cychwyn ymlaen llaw, lle mae’r gyfradd llog wedi’i gosod ymlaen llaw, ond bod yr arian parod yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd diweddarach. Byddai hyn yn galluogi sicrwydd cost heb ddioddef cost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal, gall yr Awdurdod fenthyca rhagor o fenthyciadau tymor byr i dalu am brinder llif arian nas cynlluniwyd.

**Ffynonellau benthyca:** Y ffynonellau cymeradwy ar gyfer benthyca tymor hir a thymor byr yw:

- Cyfleuster benthyca PWLB Trysorlys EM (y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn y gorffennol)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall a awdurdodwyd i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff sector cyhoeddus arall yn y DU
- cronfeydd pensiwn sector cyhoeddus a phreifat y DU (ac eithrio eich Cronfa Bensiwn leol)
- buddsoddwyr bond marchnadoedd cyfalaf
- UK Municipal Bonds Agency plc a chwmnïau pwrpas arbennig eraill a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau awdurdodau lleol

**Ffynonellau cyllid dyled eraill:** Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy’r dulliau canlynol nad ydynt yn fenthyca, ond gellir eu dosbarthu fel rhwymedigaethau dyled eraill:

- prydlesu
- hurbwrcasu
- Menter Cyllid Preifat
- gwerthu ac adlesu

**Asiantaeth Bondiau Trefol:** Sefydlwyd *UK Municipal Bonds Agency plc* yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel dewis amgen i’r PWLB. Mae’n cyhoeddi bondiau ar y marchnadoedd cyfalaf ac yn benthyca’r elw i awdurdodau lleol. Mae hon yn ffynhonnell fwy cymhleth o gyllid na’r PWLB am ddau reswm: mae’n ofynnol i awdurdodau benthyca roi gwarant i fuddsoddwyr bond i ad-dalu eu buddsoddiad os na fydd yr asiantaeth yn gallu gwneud hynny am unrhyw reswm; a cheir amser arweiniol o sawl mis rhwng ymrwymo i fenthyca a gwybod y gyfradd llog sy’n daladwy. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca gan yr Asiantaeth felly yn destun adroddiad ar wahân i’r Awdurdod.

**Benthyciadau tymor byr a chyfradd amrywiol**: Mae’r benthyciadau hyn yn gadael yr Awdurdod yn agored i’r risg o godiadau cyfradd llog tymor byr ac felly maent yn amodol ar y terfynau cyfradd llog yn y dangosyddion rheoli trysorlys isod. Gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli’r risg cyfradd llog hon (gweler yr adran isod).

**Aildrefnu dyled:** Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn aeddfedrwydd a thalu premiwm neu dderbyn gostyngiad yn unol â fformiwla benodol yn seiliedig ar gyfraddau llog cyfredol. Efallai y bydd benthycwyr eraill hefyd yn barod i drafod telerau adbrynu cynamserol. Gall yr Awdurdod fanteisio ar hyn a rhoi benthyciadau newydd yn lle rhai benthyciadau, neu ad-dalu benthyciadau heb eu disodli, lle disgwylir i hyn arwain at arbediad cost cyffredinol neu ostyngiad mewn risg. Mae'r cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu y dylai cyfleoedd mwy ffafriol i aildrefnu dyled godi nag yn y blynyddoedd blaenorol.

**<u>Strategaeth Buddsoddi'r Trysorlys</u>**

Nid oes gan yr Awdurdod gronfeydd wedi'u buddsoddi. Rhoddir arian parod dros dro mewn cyfrif galwad nes bod ei angen.

**Amcanion:** Mae Cod CIPFA a Chanllawiau LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion neu'r arenillion uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

**Strategaeth:** Fel y dangosir gan y meincnod atebolrwydd uchod, nid yw'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr tymor hir ac felly bydd buddsoddiadau trysorlys newydd yn cael eu gwneud yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

**Polisi ESG:** Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (environmental, social and governance - ESG) yn ffactor gynyddol wrth i fuddsoddwyr byd-eang wneud penderfyniadau, ond mae'r fframwaith ar gyfer gwerthuso cyfleoedd buddsoddi yn dal i ddatblygu. Wrth fuddsoddi mewn banciau a chronfeydd, bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, Cynghrair Rheolwyr Asedau Net Sero a/neu Côd Stiwardiaeth y DU.

**Parti i gontract cymeradwy:** Gall yr Awdurdod fuddsoddi ei arian dros ben gydag unrhyw un o'r mathau o barti i gontract yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau a ddangosir.

*Tabl 3: Partïon i gontract a therfynau buddsoddi'r trysorlys*

| **Sector** | **Disgrifiad** | **Terfyn parti i gontract** | **Terfyn sector** |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | Swyddfa Rheoli Dyled | Diderfyn | amherthnasol |
| Awdurdodau lleol ac endidau eraill y llywodraeth | Pawb ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor ac archebiannau o dan Ran 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | £2m | Diderfyn |
| Banciau (anwarantedig)* | Holl fanciau'r DU a'u hisgwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). | £5m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (anwarantedig) * | Cymdeithasau adeiladu gyda sgôr | £2m | Diderfyn |
| Cronfeydd Marchnad Arian (MMF) | Dim ond ar y cyd â chyngor gan Arlingclose. | £1m | Diderfyn |

Mae'n rhaid darllen y tabl hwn ar y cyd â'r nodiadau isod

*** Isafswm sgôr credyd:** Bydd buddsoddiadau'r trysorlys yn y sectorau sydd wedi'u marcio â seren yn cael eu gwneud dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd yn is nag A-. Os yw ar gael, defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddosbarth penodol o fuddsoddiad, fel arall defnyddir y statws credyd parti i gontract. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, a bydd yr holl ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

Ar gyfer endidau heb statws credyd cyhoeddedig, gellir gwneud buddsoddiadau naill ai (a) lle mae cyngor allanol yn nodi bod yr endid o ansawdd credyd tebyg; neu (b) hyd at uchafswm o £1m fesul parti i gontract fel rhan o bwll arallgyfeirio e.e. drwy lwyfan cymar-i-gymar.

**Llywodraeth:** Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warentir gan lywodraethau cenedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a lleol a banciau datblygu amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun 'bail-in', ac yn gyffredinol mae'r risg ansolfedd yn is, er nad ydynt yn risg sero. Ystyrir bod buddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU yn sero risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian cyfred ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau anghyfyngedig am hyd at 50 mlynedd.

**Banciau a chymdeithasau adeiladu (heb eu gwarantu):** Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau diwarant uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i'r risg o golli credyd drwy 'bail-in' pe bai'r rheolydd yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

**Cyfrifon banc gweithredol:** Gall yr Awdurdod achosi datguddiadau gweithredol, er enghraifft drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr, i unrhyw fanc yn y DU sydd â statws credyd heb fod yn is na BBB- ac sydd ag asedau sy'n fwy na £25 biliwn. Nid yw'r rhain yn cael eu dosbarthu fel buddsoddiadau ond maent yn dal i fod yn agored i risg o fechnïaeth y banc, ac felly bydd balansau'n cael eu cadw o dan £5m y banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan, os bydd methiant, bod banciau ag asedau o fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o gael eu hachub ar fechnïaeth na'u gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r siawns y bydd yr Awdurdod yn cynnal parhad gweithredol.

**Asesiad risg a statws credyd**: Caiff statws credyd ei sicrhau a'i fonitro gan ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod, a fydd yn hysbysu newidiadau mewn graddfeydd wrth iddynt ddigwydd. Rhestrir yr asiantaethau statws credyd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y ddogfen Arferion Rheoli'r Trysorlys. Pan fo statws credyd endid wedi'i israddio fel ei fod yn methu â bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy, yna:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd,
- bydd buddsoddiadau presennol y gellir eu hadalw neu eu gwerthu heb unrhyw gost yn cael eu hadalw neu eu gwerthu, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r parti i gontract yr effeithir arno.

Pan fydd asiantaeth statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu ar gyfer israddio posibl (a elwir hefyd yn "wyliadwriaeth negyddol") fel y gall ddisgyn yn is na'r meini prawf statws cymeradwy, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu'n ôl fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw tan cyhoeddi canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negyddol, sy'n dynodi cyfeiriad hirdymor yn hytrach na newid graddfa sydd ar fin digwydd.

**Gwybodaeth arall ynghylch diogelwch buddsoddiadau**: Mae'r Awdurdod yn deall bod statws credyd yn gallu rhagweld diffyg buddsoddiad yn dda, ond nid yn berffaith. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael am ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffyg credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth am gymorth posibl gan y llywodraeth, adroddiadau yn y wasg ariannol o ansawdd, a dadansoddiad a chyngor gan ymgynghorydd rheoli trysorlys yr Awdurdod. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon sylweddol ynghylch ei ansawdd credyd, er y gallai fel arall fodloni'r meini prawf uchod.

Pan fydd dirywiad yn amodau'r farchnad ariannol yn effeithio ar deilyngdod credyd pob sefydliad, fel y digwyddodd yn 2008 a 2020, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyffredinol ar statws credyd, ond mae i'w weld mewn mesurau marchnad eraill. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny o ansawdd credyd uwch ac yn lleihau hyd ei fuddsoddiadau i gynnal y lefel ofynnol o sicrwydd. Bydd maint y cyfyngiadau hyn yn unol ag amodau'r farchnad ariannol ar y pryd. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian parod yr Awdurdod, yna bydd y gwarged yn cael ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i enillion buddsoddi ostwng ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

**Rheoli hylifedd**: Mae'r Awdurdod yn monitro'r llif arian yn ddyddiol ac yn rhagweld incwm a gwariant hysbys er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo arian yn ddarbodus ar ei gyfer. Mae'r rhagolwg yn cael ei lunio ar sail ddarbodus i leihau'r risg y bydd yr Awdurdod yn cael ei orfodi i fenthyca ar delerau anffafriol i gwrdd â'i ymrwymiadau ariannol.

## Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

**Fframwaith aeddfedrwydd benthyca:** Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg ail-ariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar fframwaith aeddfedrwydd benthyca fydd:

| Dangosydd risg cyfradd ail-ariannu | Terfyn uchaf | Terfyn isaf |
|---|---|---|
| O dan 12 mis | 60% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 60% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 45% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd neu ragor | 100% | 0% |

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

## Materion Perthnasol

Mae Cod CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei strategaeth rheoli'r trysorlys.

**Deilliadau ariannol:** Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (megis cyfnewidiadau, blaensymiau, dyfodol ac opsiynau). Gellir defnyddio deilliadau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd cyfun a thrafodion sy'n cychwyn ymlaen llaw, a bydd y risgiau a gyflwynir ganddynt yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risg y trysorlys.

**Canllawiau'r Llywodraeth:** Mae materion pellach sy'n ofynnol gan Ganllawiau LlC wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

## Goblygiadau Ariannol

Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2023/24 yw dim. Y gyllideb ar gyfer llog dyled a dalwyd yn 2023/24 yw £1.2 miliwn, yn seiliedig ar bortffolio dyledion cyfartalog o £25 miliwn ar gyfradd llog gyfartalog o 4.6%. Os bydd lefelau gwirioneddol buddsoddiadau a benthyca, neu gyfraddau llog gwirioneddol, yn wahanol i'r rhai a ragwelwyd, bydd perfformiad yn erbyn y gyllideb yn gyfatebol wahanol.

## Ystyriaethau eraill a wnaed

Nid yw Cod CIPFA yn rhagnodi unrhyw strategaeth rheoli trysorlys benodol i awdurdodau lleol ei mabwysiadu. Cred y Trysorydd fod y strategaeth uchod yn cynrychioli cydbwysedd priodol rhwng rheoli risg a chost effeithiolrwydd. Mae rhai strategaethau amgen, gyda'u goblygiadau ariannol a rheoli risg, wedi'u rhestru isod.

| Amgen | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risg |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn ystod gulach o wrthbartïon a/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm llog yn is | Llai o debygolrwydd o golledion oherwydd diffygdalu sy'n gysylltiedig â chredyd, ond gall unrhyw golledion o'r fath fod yn uwch |
| Buddsoddi mewn ystod ehangach o wrthbartïon a/neu am gyfnodau hwy | Bydd incwm llog yn uwch | Mwy o risg o golledion oherwydd diffygdalu sy'n gysylltiedig â chredyd, ond gall unrhyw golledion o'r fath fod yn llai |
| Benthyg symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyled yn codi; mae hyn yn annhebygol o gael ei wrthbwyso gan incwm buddsoddi uwch | Cydbwysedd buddsoddi uwch yn arwain at effaith uwch pe bai diffygdaliad; fodd bynnag gall costau llog hirdymor fod yn sicrach |
| Benthyg benthyciadau tymor byr neu amrywiol yn lle cyfraddau sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyled yn is i ddechrau | Bydd cynnydd mewn costau llog dyled yn cael ei wrthbwyso'n fras gan gynnydd mewn incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond gall costau hirdymor fod yn llai sicr |
| Lleihau lefel y benthyca | Mae cynilo ar log dyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir | Llai o falans buddsoddi yn arwain at effaith is os bydd diffygdalu; fodd bynnag gall costau llog tymor hir fod yn llai sicr |

## <u>Atodiad A – Rhagolwg Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose – Tachwedd 2022</u>

**Tybiaethau sylfaenol:**

- Mae disgwyliadau cyfraddau llog y DU wedi lleddfu yn dilyn y gyllideb fach, gyda disgwyliadau cynyddol y bydd polisi cyllidol y DU yn awr yn cael ei dynhau i adfer hyder buddsoddwyr, gan ychwanegu at y pwysau ar gyllid cartrefi. Bydd yr uchafbwynt ar gyfer cyfraddau llog y DU felly yn is, er bod y llwybr ar gyfer cyfraddau llog ac arenillion giltiau yn parhau i fod yn ansicr iawn.

- Yn fyd-eang, mae twf economaidd yn arafu wrth i chwyddiant a pholisi ariannol llymach leihau gweithgarwch. Mae chwyddiant, fodd bynnag, yn parhau'n rhemp, gan godi disgwyliadau y bydd llunwyr polisi, yn enwedig yn yr Unol Daleithiau, yn gyfeiliornus, yn parhau i gynyddu cyfraddau ac yn tynhau economïau i ddirwasgiad.

- Datgymalodd y Canghellor newydd y gyllideb fach, gan dawelu marchnadoedd bondiau a chael gwared ar y premiwm a oedd yn amlwg ers etholiad arweinydd cyntaf y Torïaid fwy neu lai. Bydd cefnogaeth i filiau ynni manwerthu yn llai hael, gan achosi uchafbwynt is ond mwy hirfaith mewn chwyddiant. Bydd hyn yn effeithio ar ddisgwyliadau chwyddiant a thwf.

- Mae economi'r DU eisoes yn profi amodau dirwasgiad, gyda gweithgaredd busnes a gwariant y cartref yn gostwng. Bydd polisi ariannol a chyllidol llymach, ynghyd â chwyddiant uchel, yn lleihau incwm gwario aelwydydd. Mae'r rhagolygon tymor byr i ganolig ar gyfer economi'r DU yn llwm, gyda'r BoE yn rhagweld dirwasgiad hirfaith.

- Mae'r galw am lafur yn parhau'n gryf, er bod rhai arwyddion o leddfu. Mae'r gostyngiad yn y gweithlu gweithredol wedi llifo drwodd i dwf cyflogau uwch, a allai ymestyn chwyddiant uwch. Bydd datblygiad marchnad lafur y DU yn ddylanwad allweddol ar benderfyniadau MPC. Mae'n anodd gweld cryfder y farchnad lafur yn parhau o ystyried y rhagolygon economaidd presennol.

- Mae cynnyrch bondiau byd-eang wedi gostwng rhywfaint wrth i sylw droi tuag at drobwynt posibl ym mholisi ariannol yr Unol Daleithiau. Mae chwyddiant ystyfnig yr Unol Daleithiau a marchnadoedd llafur cryf yn golygu bod y Gronfa Ffederal yn parhau i fod yn anghyfeillgar, gan greu risgiau chwyddiant i fanciau canolog eraill sy'n torri rhengoedd.

- Fodd bynnag, mewn gwyriad oddi wrth bolisi Ffed ac ECB, ym mis Tachwedd ceisiodd y BoE ddarostwng yn bendant y disgwyliadau cyfraddau llog, gan danlinellu'r niwed y bydd disgwyliadau presennol y farchnad yn ei wneud i economi'r DU, a'r tanwariant chwyddiant tebygol yn y tymor canolig. Ni ataliodd hyn y Llywodraethwr rhag cadarnhau y bydd cynnydd pellach yn y Gyfradd Banc.

**Rhagolwg:**

- Mae’r MPC yn parhau i bryderu am chwyddiant ond mae’n gweld bod y llwybr ar gyfer Cyfradd Banc yn is na’r hyn a brisir i farchnadoedd.
- Yn dilyn y cynnydd eithriadol o 75bp ym mis Tachwedd, mae Arlingclose yn credu y bydd yr MPC yn arafu cyfradd y cynnydd yn yr ychydig gyfarfodydd nesaf. Mae Arlingclose bellach yn disgwyl i Gyfradd y Banc gyrraedd uchafbwynt o 4.25%, gyda chynnydd pellach o 50bp ym mis Rhagfyr a chynnydd llai yn 2023.
- Mae’n debyg bod economi’r DU wedi mynd i ddirwasgiad yn Ch3, a fydd yn parhau am beth amser. Unwaith y bydd chwyddiant wedi gostwng o’r brig, bydd yr MPC yn torri Cyfradd y Banc.
- Mae Arlingclose yn disgwyl i gynnyrch gilt aros yn weddol gyson er gwaethaf ymgais yr MPC i wthio disgwyliadau cyfraddau llog i lawr. Heb i’r rhagolygon chwyddiant wanhau, bydd buddsoddwyr yn ystyried pris disgwyliadau chwyddiant uwch o ystyried arwyddion o safbwynt polisi ariannol meddalach.
- Mae cynnyrch gilt yn wynebu pwysau ar y ddwy ochr gan bolisi banc canolog anghyfeillgar US/EZ ar un llaw a rhagolygon economaidd byd-eang gwan ar y llaw arall. Bydd gwerthiannau bond BoE yn cynnal arenillion ar lefel uwch nag a fyddai fel arall.

| | Current | Dec-22 | Mar-23 | Jun-23 | Sep-23 | Dec-23 | Mar-24 | Jun-24 | Sep-24 | Dec-24 | Mar-25 | Jun-25 | Sep-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.50 | 1.75 | 1.50 | 1.25 | 1.25 |
| Arlingclose Central Case | 3.00 | 3.50 | 4.00 | 4.25 | 4.25 | 4.25 | 4.25 | 4.00 | 3.75 | 3.50 | 3.50 | 3.50 | 3.50 |
| Downside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 3-month money market rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.50 | 1.75 | 1.50 | 1.25 | 1.25 |
| Arlingclose Central Case | 3.00 | 3.90 | 4.40 | 4.40 | 4.40 | 4.35 | 4.30 | 4.25 | 4.00 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 |
| Downside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 5yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.60 | 0.70 | 0.80 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 3.36 | 3.65 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.80 | 3.70 | 3.60 | 3.50 | 3.40 | 3.30 | 3.20 |
| Downside risk | 0.00 | 0.70 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 10yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.60 | 0.70 | 0.80 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 3.46 | 3.70 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.70 | 3.70 | 3.70 | 3.70 | 3.70 | 3.70 | 3.70 | 3.70 |
| Downside risk | 0.00 | 0.70 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 20yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.60 | 0.70 | 0.80 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 3.88 | 4.00 | 4.00 | 4.00 | 4.00 | 4.00 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 |
| Downside risk | 0.00 | 0.70 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| | | | | | | | | | | | | | |
| 50yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.60 | 0.70 | 0.80 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 3.24 | 3.40 | 3.40 | 3.40 | 3.40 | 3.40 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 |
| Downside risk | 0.00 | 0.70 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |

Cyfradd Safonol PWLB (Benthyciadau Aeddfedrwydd) = Cynnyrch Gilt + 1.00%
Cyfradd Sicrwydd PWLB (Benthyciadau Aeddfedrwydd) = Cynnyrch Gilt + 0.80%
Cyfradd UKIB (Benthyciadau Aeddfedrwydd) = Cynnyrch giltiau + 0.60%

**<u>Atodiad B – Sefyllfa'r Portffolio Buddsoddiadau a Dyledion Presennol</u>**

| | 30 Tachwedd 2022 **Portffolio gwirioneddol £m** | 30 Tachwedd 2022 **Cyfradd gyfartalog %** |
|---|---|---|
| **Benthyciadau allanol:** | | |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 13.46 | 2.37 |
| Awdurdodau lleol | 6.00 | 1.30 |
| **Cyfanswm benthyciadau allanol** | **19.46** | |
| **Cyfanswm dyledion allanol gros** | **19.46** | |
| **Buddsoddiadau'r trysorlys:** | | |
| Banciau (anwarantedig) | 1.0 | 2.25 |
| **Dyledion net** | **18.46** | |

## Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol 2023/24 (Atodiad 4)

Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol 2023/24 (Atodiad 4)

Pan fo'r Awdurdod yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, mae'n rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled honno mewn blynyddoedd diweddarach. Gelwir y swm a godir ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu dyled yn Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP – Minimum Revenue Provision), er na fu isafswm statudol er 2008. Mae *Deddf Llywodraeth Leol 2003* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i *Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Isafswm Darpariaeth Refeniw* (Canllawiau LlC) a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar yn 2018.

Nod eang Canllawiau LlC yw sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu dros gyfnod sydd naill ai'n rhesymol gymesur â'r hyn y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion iddo, neu, yn achos benthyca a gefnogir gan Grant Cymorth Refeniw y Llywodraeth, yn rhesymol gymesur â'r cyfnod goblygedig wrth benderfynu'r grant hwnnw.

Mae Canllawiau LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad MRP Blynyddol bob blwyddyn ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm doeth o MRP. Mae'r datganiad canlynol yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllawiau.

- Ar gyfer gwariant cyfalaf a dynnwyd ar ôl 31 Mawrth 2008, bydd yr MRP yn cael ei benderfynu drwy godi tâl ar y gwariant dros fywyd defnyddiol disgwyliedig yr ased perthnasol mewn rhandaliadau cyfartal, gan ddechrau yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Bydd yr MRP ar brynu tir rhydd-ddaliadol yn cael ei godi dros 50 mlynedd. Bydd yr MRP ar wariant nad yw'n gysylltiedig ag asedau sefydlog ond sydd wedi'i gyfalafu gan reoleiddio neu gyfeiriad yn cael ei godi dros 20 mlynedd.
- Ni fydd gwariant cyfalaf a dynnwyd yn ystod 2023/24 yn destun tâl MRP tan 2024/25 neu'n hwyrach.

Yn seiliedig ar amcangyfrifon diweddaraf yr Awdurdod o'i ofyniad ariannu cyfalaf (CFR – capital financing requirement) ar 31 Mawrth 2023, mae'r gyllideb ar gyfer yr MRP wedi'i gosod fel a ganlyn:

| | 31.03.2023 CFR a amcangyfrifir £m | 2023/24 MRP a amcangyfrifir £m |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Cronfa Gyffredinol** | **29.0** | **2.0** |

*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthw** |
| Pwnc | **Archwilio Cymru - Adroddiad Lleihau Allyriadau Carbon** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Darparu trosolwg o Adroddiad Lleihau Allyriadau Carbon Archwilio Cymru yn dilyn eu harchwiliad o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), yn ogystal â disgrifio'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i'w canfyddiadau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022, ceisiodd Archwilio Cymru bennu cynnydd yr Awdurdod tuag at ddod yn garbon sero net erbyn 2030. Yn benodol, y cwestiwn a ofynnwyd oedd '*A yw'r Awdurdod yn gwneud cynnydd da o ran lleihau ei allyriadau carbon a chyfrannu'n llawn at wneud sector cyhoeddus Cymru'n garbon niwtral erbyn 2030?*'

3 Penderfynodd Archwilio Cymru, '*Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn dod yn garbon sero net erbyn 2030 oni bai y ceir newid sylweddol mewn perfformiad'*.

4 Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r newid sylweddol angenrheidiol, gwnaeth Archwilio Cymru bum argymhelliad y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi bod yn mynd i'r afael â nhw ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at eu cyflawni yn ystod 2022.

**ARGYMHELLIAD**

5 Bod yr Aelodau yn:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad; a
(ii) cefnogi'r Gwasanaeth wrth i ni barhau i ymdrechu i gyflawni niwtraliaeth garbon net erbyn 2030.

## CEFNDIR

4. Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen Strategaeth Newid Hinsawdd bum mlynedd gyda thargedau i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050.

5. Mae Cymru'n rhannu'r uchelgais o gyflawni statws sero net erbyn 2050, gyda dyhead ychwanegol i gyflawni statws sero net ar draws y sector cyhoeddus erbyn 2030.

6. Yng Nghymru, ategir y dyheadau hyn gan ddeddfwriaeth gyda Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) a'r tri Rheoliad Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 dilynol sy'n disgrifio'r angen i Lywodraeth Cymru a holl bartneriaid y sector cyhoeddus, gan gynnwys Gwasanaethau Tân ac Achub (GTA), i ddangos eu hymrwymiad i gyflawni niwtraliaeth garbon.

## GWYBODAETH

7. Cynhaliwyd archwiliad i ganfod '*A yw'r Awdurdod yn gwneud cynnydd da o ran lleihau ei allyriadau carbon a chyfrannu'n llawn at wneud sector cyhoeddus Cymru'n garbon niwtral erbyn 2030*' rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022.

8. Ym mis Mawrth 2022, penderfynodd Archwilio Cymru, '*Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn dod yn garbon sero net erbyn 2030 oni bai y ceir newid sylweddol mewn perfformiad*'.

9. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r newid sylweddol angenrheidiol, gwnaeth Archwilio Cymru bum argymhelliad. Y rhain oedd y dylem:

   - ddatblygu llinell sylfaen carbon gywir;
   - datblygu cynllun penodol ar gyfer lleihau carbon;
   - diwygio polisi'r Rhaglen Amnewid Cerbydau a chytuno ar strategaeth yr Awdurdod ar gyfer amnewid injanau tân ddisel a gwella'r seilwaith gwefru ledled ardal y Gwasanaeth;
   - ennyn ymgysylltiad staff a'u cynnwys yn y broses o gynllunio ar gyfer lleihau allyriadau carbon i sicrhau eu bod yn perchnogi cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella a'u bod yn cyfrannu'n llawn at gyflawni camau gweithredu allweddol; a
   - cryfhau'r modd y mae cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i leihau allyriadau carbon a chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru'n cael ei wneud ac yn arwain at welliant.

10. Ar adeg yr archwiliad, roedd cynnydd tuag at gyflawni statws carbon sero net ar wahanol gamau o aeddfedrwydd ar draws y sector cyhoeddus, ac roedd hyn yn dibynnu ar yr adnoddau neu'r arbenigedd oedd ar gael i bob asiantaeth.

11. Cyn yr archwiliad, cydnabuwyd nad oedd gan y Gwasanaeth unrhyw arbenigedd pwnc ac y byddai angen recriwtio Rheolwr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Ategwyd yr angen am yr arbenigedd hwn ymhellach gyda chanfyddiadau Archwilio Cymru.

12. Ym mis Awst 2022 penodwyd arbenigwr pwnc ac mae cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud tuag at roi'r Awdurdod mewn sefyllfa llawer cryfach tuag at gyflawni carbon sero net yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru.

13. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran casglu'r dystiolaeth gywir i ddarparu llinell sylfaen carbon gywir, ac mae'r gwaith o ddrafftio strategaeth a chynllun gweithredu i'r Awdurdod eu cymeradwyo ar fin cael ei gwblhau. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.

14. Mae cynigion ar gyfer lleihau a dileu’r defnydd o ddisel yn ein cerbydau yn cael eu hystyried a bu buddsoddiad sylweddol yn 2022 i wella’r seilwaith gwefru cerbydau ar draws ystâd y Gwasanaeth.

15. Mae grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd newydd sy'n adrodd i'r Pwyllgor Tir ac Eiddo, ac sydd yn ei dro yn adrodd i Dîm Arwain y Gwasanaeth, wedi'i ddatblygu ac yn dod â chynrychiolwyr gweithwyr ynghyd o bob rhan o'r Gwasanaeth, gan wella perchnogaeth ac adolygu cynnydd a pherfformiad.

16. Mae’r grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd sy’n cael ei gadeirio gan y Rheolwr Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi datblygu dogfen Cylch Gorchwyl clir ac wedi gosod targedau gwella i roi’r Awdurdod yn y sefyllfa orau i gyflawni carbon sero net erbyn 2030.

17. Er bod llawer o waith i'w wneud o hyd i gyflawni ein hamcanion, mae'r Awdurdod wedi dechrau'r gwaith hwn o ddifrif ac mae mewn sefyllfa lawer cryfach heddiw nag yr oedd pan gyhoeddwyd canfyddiadau'r archwiliad.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynnydd tuag at gyflawni niwtraliaeth garbon yn cefnogi Cymru fwy cydnerth, iachach a chyfrifol yn fyd-eang. |
| Cyllideb | Bydd cost wrth gyflawni niwtraliaeth garbon y mae'n rhaid ei chydbwyso yn erbyn y gost uwch o lawer o wneud dim. Mae cyfleoedd i gael cyllid grant eisoes wedi bod yn llwyddiannus ac mae costau refeniw a chyfalaf yn cael eu datblygu ar gyfer blynyddoedd ariannol y dyfodol fel rhan o'r rhagdybiaethau cynllunio tymor canolig. |
| Cyfreithiol | Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) a'r tri Rheoliad Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 dilynol yn gosod cyfrifoldeb deddfwriaethol ar yr Awdurdod i gyflawni niwtraliaeth garbon erbyn 2030 |
| Staffio | Mae'r Awdurdod bellach yn cyflogi arbenigwr pwnc sydd â phrofiad a chymwysterau helaeth yn y diwydiant amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Mae'r risg o beidio â chyflawni'r sefyllfa ofynnol erbyn 2030 wedi'i leihau'n sylweddol o ganlyniad i sicrhau bod cyfeiriad clir a strategaeth ddrafft bellach yn eu lle. |

# Lleihau Allyriadau Carbon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2860A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn dod yn garbon sero net erbyn 2030 oni bai y ceir newid sylweddol mewn perfformiad.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 7

Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn dod yn garbon sero net erbyn 2030 oni bai y ceir newid sylweddol mewn perfformiad 7

Nid oes gan yr Awdurdod linell sylfaen gywir ar gyfer ei holl allyriadau carbon 7

Nid oes gan yr Awdurdod gynllun cynhwysfawr i leihau ei allyriadau carbon a dod yn garbon sero net 8

Mae'r Awdurdod wedi gwneud peth cynnydd mewn rhai meysydd ond mae angen newid sylweddol mewn gweithgarwch i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru 11

Nid oes gan yr Awdurdod drefniadau priodol i fonitro a gwerthuso'i gynnydd tuag at ddod yn garbon sero net 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Mae ymddygiad dynol yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at y newid hirdymor ym mhatrymau cyfartalog y tywydd. A hithau'n cael ei chydnabod yn her fwyaf y ddynoliaeth, er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd mae gofyn i unigolion, cymunedau, sefydliadau, rhanbarthau a gwledydd i gyd chwarae eu rhan. Cafodd Cytundeb Paris, cytundeb ar newid hinsawdd sy'n rhwymo mewn cyfraith, ei fabwysiadu yn 2015 gan 196 o bartïon (gan gynnwys y DU) ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad rhyngwladol i gyflawni'r trawsnewid economaidd a chymdeithasol sy'n ofynnol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr[1].

2 Yng Nghymru, cafodd ein fframwaith deddfwriaethol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ei gryfhau trwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Ddeddf yn gosod targed cyfreithiol i leihau allyriadau 95% erbyn 2050 ac yn gosod system o gyllidebau carbon dros gyfnodau o bum mlynedd ac amcanion interim i wneud cynnydd tuag at hyn[2]. Fel rhan o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, ac fe wnaeth ei datganiad ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd yn 2019 ailgadarnhau ei huchelgais i gynyddu cyflymder y newid tuag at economi carbon isel.

3 Mae cost yn gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon, ond rhaid taro cydbwysedd rhwng hyn a'r gost uwch o lawer a fyddai'n deillio o wneud dim byd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn allweddol felly i'r modd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n mynd i'r afael â'r heriau hyn. Trwy roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith a chyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang, gall Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ddangos ei gyfraniad tuag at ymateb i argyfwng yr hinsawdd.

### Yr hyn a ganfuom

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: 'A yw'r Awdurdod yn gwneud cynnydd da o ran lleihau ei allyriadau carbon a chyfrannu'n llawn at wneud sector cyhoeddus Cymru'n garbon niwtral erbyn 2030?' Ar y cyfan canfuom fel a ganlyn: **Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn dod yn garbon sero net erbyn 2030 oni bai y ceir newid sylweddol mewn perfformiad**.

[1] Cytundeb Paris, Y Cenhedloedd Unedig – Newid Hinsawdd

[2] Ymrwymiad Cymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd, Llywodraeth Cymru

5 Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan yr Awdurdod linell sylfaen gywir ar gyfer ei holl allyriadau carbon;
- nid oes gan yr Awdurdod gynllun cynhwysfawr i leihau ei allyriadau carbon a dod yn garbon sero net;
- mae’r Awdurdod wedi gwneud peth cynnydd mewn rhai meysydd ond mae angen newid sylweddol mewn gweithgarwch i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru; ac
- nid oes gan yr Awdurdod drefniadau priodol i fonitro a gwerthuso’i gynnydd tuag at ddod yn garbon sero net.

## Argymhellion

6 Mae’r tabl isod yn nodi’r argymhellion yr ydym wedi’u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Datblygu llinell sylfaen carbon gywir trwy:<br>• greu cronfa ddata i gofnodi data ar yr holl allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 yn gywir;<br>• cyflwyno proses gasglu i ddiweddaru’r llinell sylfaen yn rheolaidd;<br>• archwilio gwybodaeth yn y llinell sylfaen i sicrhau ei bod yn gywir;<br>• sicrhau bod bylchau yn yr wybodaeth mewn perthynas â mesuryddion dŵr, effaith gwaith gwrthbwyso carbon a data ar adeiladau’n cael eu cofnodi;<br>• sicrhau bod effaith y pandemig a’r newid i fwy o weithio gartref a gweithio’n ystwyth yn cael ei hadlewyrchu yn y llinell sylfaen carbon. |
| A2 | Datblygu cynllun penodol ar gyfer lleihau carbon sy’n nodi’r camau gweithredu y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd i ddod yn garbon sero net a chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru a hynny’n cynnwys:<br>• Defnyddio ynni a gwastraff<br>• Ystadau<br>• Fflyd a seilwaith cerbydau<br>• Y gweithlu<br>• Caffael a’r gadwyn gyflenwi<br>• Gweithio sefydliadol<br>• Cydweithio a phartneriaeth<br>• Gwrthbwyso |

**Argymhellion**

A3 Diwygio polisi'r Rhaglen Amnewid Cerbydau a chytuno ar strategaeth yr Awdurdod ar gyfer amnewid injans tân diesel a gwella'r seilwaith gwefru ledled ardal y Gwasanaeth. Fel rhan o'r broses hon dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

- adolygu rhychwant oes tybiannol cerbydau trydan a hybrid i oleuo tybiaethau cynllunio yn y dyfodol mewn modd gwell;
- adolygu gwariant cyfalaf cyfredol ar amnewid fflyd a seilwaith gwefru trydan i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddigon o gyllid wedi'i neilltuo i roi cymorth i bontio i fflyd carbon isel; ac
- adnabod cyfleoedd a chyflwyno cytundebau cytbwys o'r ddwy ochr i gyrchu mannau gwefru trydan a berchnogir gan y sector cyhoeddus ledled ardal Gogledd Cymru a gwneud y defnydd gorau ohonynt.

A4 Ennyn ymgysylltiad staff a'u cynnwys yn y broses o gynllunio ar gyfer lleihau allyriadau carbon i sicrhau eu bod yn perchnogi cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella a'u bod yn cyfrannu'n llawn at gyflawni camau gweithredu allweddol.

A5 Cryfhau'r modd y mae cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i leihau allyriadau carbon a chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru'n cael ei wneud ac yn arwain at welliant trwy:

- fynd ati'n rheolaidd i adolygu cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer lleihau $CO_2e$ yng nghynlluniau'r Awdurdod;
- cymharu perfformiad ag eraill i feincnodi ac adnabod cyfleoedd i gefnogi gwelliant;
- canolbwyntio ar adrodd ar y cynnydd y mae'r Awdurdod yn ei wneud a gwerthuso'r cynnydd hwnnw tuag at ddod yn garbon sero net erbyn 2030; a
- monitro cynnydd o ran cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon ar y cyfan yn ôl cyfradd o 63% erbyn 2030; 89% erbyn 2040; ac o leiaf 100% (sero net) erbyn 2050.[3]

[3] Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon, Gwefan Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2021

# Adroddiad manwl

## Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn dod yn garbon sero net erbyn 2030 oni bai y ceir newid sylweddol mewn perfformiad

### Nid oes gan yr Awdurdod linell sylfaen gywir ar gyfer ei holl allyriadau carbon

7 Rhestr o ffynonellau allyriadau carbon o weithgareddau busnes yw llinell sylfaen carbon. Mae hon yn nodweddiadol yn giplun dros flwyddyn (neu fwy) sy'n gyfeirbwynt i sefydliadau ei ddefnyddio i ddeall a thracio'u hallyriadau newidiol dros amser. Er mwyn cynllunio a chyllidebu ar gyfer lleihau allyriadau carbon a dod yn garbon niwtral, mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall yn hyderus beth yw maint eu hallyriadau trwy ddatblygu a diweddaru llinell sylfaen carbon. Bydd hon wedyn yn cael ei defnyddio fel sylfaen ar gyfer trywydd carbon a all ddangos y llwybrau sydd ar gael i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru yn ymarferol.

8 Mae gan yr Awdurdod beth gwybodaeth allweddol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch mewn perthynas ag allyrru carbon deuocsid ($CO_2$) a nwyon tŷ gwydr eraill (a gaiff eu mesur mewn cywerthedd carbon deuocsid neu $CO_2e$). Er enghraifft, nododd yr Awdurdod yn 2019-20 fod ei $CO_2e$ fel cilowat oriau'n 1,318,794 ar gyfer trydan, yn 2,965,006 ar gyfer nwy a Nwy Petrolewm Hylifedig (LPG) ac yn 18,796 ar gyfer trydan adnewyddadwy.

9 Mae hwn yn fan cychwyn defnyddiol, ond mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw'r data y mae wedi'i goladu'n gywir, gan ei fod yn fwy o fras amcan na ellir ei gymharu ag unrhyw linell sylfaen carbon gywir. Hefyd, ceir rhai bylchau. Er enghraifft, mesuryddion dŵr, ystadau a mesur a chofnodi effaith gweithgarwch gwrthbwyso. O ganlyniad, nid yw'r Awdurdod yn gwybod pa mor dda y mae'n perfformio ar hyn o bryd a beth arall y mae angen iddo'i wneud.

10 Yn hanesyddol, bu'r Awdurdod yn defnyddio Cyfrifydd Ôl Troed Carbon yr Ymddiriedolaeth Garbon i gofnodi data $CO_2e$[4]. Bu'r Awdurdod yn cyfranogi hefyd yn rhaglen beilot Llywodraeth Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero Net gan y Sector Cyhoeddus a'i Thrywydd ar gyfer Datgarboneiddio ar draws y Sector Cyhoeddus. Nid yw'n ofyniad gorfodol bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r dull hwn i fesur allyriadau ond, ar y cyfan, mae'r Awdurdod yn ei ystyried yn fframwaith defnyddiol i gefnogi ei waith.

[4] Cynllun ardystio yw Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon. Dyfernir ardystiad i ymgeiswyr os ydynt yn bodloni tair set o feini prawf mewn perthynas â mesur carbon, lleihau carbon ac effeithiolrwydd o ran rheoli allyriadau.

11 Er bod yr Awdurdod wedi casglu peth data ynghyd, yr adroddwyd arno'n fwyaf diweddar yn yr Adroddiad ar Leihau Defnydd o Ynni a Datgarboneiddio ym mis Mawrth 2021, nid yw hwn yn cynnwys allyriadau Cwmpas 3. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon[5] yn rhannu allyriadau'n dri chategori neu 'Gwmpas', a ddiffinnir fel a ganlyn:

- **Cwmpas 1** – sy'n cynnwys allyriadau uniongyrchol o ffynonellau a berchnogir neu a reolir megis hylosgi tanwydd ac allyriadau o fflyd;
- **Cwmpas 2** – sy'n cynnwys allyriadau anuniongyrchol o gynhyrchu trydan, stêm, gwresogi ac awyru a brynir ac a ddefnyddir gan yr Awdurdod; a hefyd
- **Cwmpas 3** – sy'n cynnwys yr holl allyriadau anuniongyrchol eraill sy'n digwydd yng nghadwyn caffael, cyflenwi a gwerth yr Awdurdod. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, nwyddau a gwasanaethau a brynir, teithio ar gyfer busnes, cymudo gan gyflogeion, gwaredu gwastraff, defnyddio cynhyrchion a werthwyd a buddsoddiadau.

12 Caiff pwysigrwydd mynd i'r afael â'r elfen nwyddau a gwasanaethau a brynir o Gwmpas 3 ei danlinellu gan ymchwil sy'n dangos y gall y rhain roi cyfrif am oddeutu 60% o gyfanswm ôl troed $CO_2e$ sefydliad[6]. Wrth edrych tua'r dyfodol, ac o fewn ffrâm amser fer iawn, bydd angen i'r Awdurdod ddatblygu system gofnodi gynhwysfawr i fynd ati'n gywir i gofnodi ac adrodd ar allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 i'w helpu i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer lleihau allyriadau carbon.

13 Ni all yr Awdurdod fynd ati'n effeithiol i gynllunio'r agenda datgarboneiddio na chyflawni yn ei herbyn heb ddeall ei fan cychwyn. Felly mae creu llinell sylfaen fwy cywir yn flaenoriaeth i'r Awdurdod. Fodd bynnag, bydd hyn yn profi'n gryn her o ystyried nad yw'r un swyddog unigol wedi'i neilltuo i reoli gweithgarwch lleihau allyriadau carbon a bod staff yn teimlo'u bod yn gwneud yr hyn a allant 'ar ben eu prif swydd'. Mae'r Awdurdod wedi penodi Hyrwyddwr Aelod dros Gynaliadwyedd yn ddiweddar ond nid oes ganddo unrhyw un sydd wedi'i neilltuo i arwain ar gynaliadwyedd. Mae'r Awdurdod wedi cydnabod y bwlch yma ac mae'n bwriadu mynd i'r afael ag ef.

## Nid oes gan yr Awdurdod gynllun cynhwysfawr i leihau ei allyriadau carbon a dod yn garbon sero net

14 Er nad oes ganddo strategaeth drosfwaol i leihau allyriadau carbon, mae gan yr Awdurdod rai cynlluniau ehangach. Er enghraifft, mabwysiadodd yr Awdurdod Gynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy yn 2008 a wnaeth redeg tan 2020. Dros y cyfnod hwn o 12 mlynedd nod y cynllun oedd lleihau'r defnydd o ynni a thanwydd yn ôl cyfradd o 60%; allyriadau nwyon tŷ gwydr ($CO_2e$) yn ôl cyfradd o 60%; a gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn ôl cyfradd o 75%. Fodd bynnag, roedd perfformiad ym mis Mawrth 2018 yn dangos bod defnydd o ynni a thanwydd wedi

[5] https://www.carbontrust.com/resources/briefing-what-are-scope-3-emissions

[6] Nodyn Polisi Caffael Cymru WPPN 12/21: Datgarboneiddio drwy gaffael – Mynd i'r afael â CO2e mewn cadwyni cyflenwi, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2021.

gostwng 19% a $CO_2e$ wedi gostwng 27%. Ni nodwyd unrhyw wybodaeth am wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi.

15 Ers i'r cynllun hwn ddod i ben, nid yw'r Awdurdod wedi datblygu cynllun pwrpasol nac unigol ar gyfer lleihau carbon. Yn hytrach, mae wedi canolbwyntio gweithgarwch ar ystod o strategaethau ategol sy'n darparu cyfeiriad ar gyfer gwella cynaliadwyedd yn ehangach. Er enghraifft, mae Cynllun Gwella a Llesiant 2020-21 yn cynnwys amcan i ddatblygu ffyrdd o ddod yn fwy 'ymwybodol o'r amgylchedd' er mwyn lleihau effaith gweithgarwch yr Awdurdod ar yr amgylchedd. Yn yr un modd, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad cyhoeddus yn 2019 i helpu i lunio a datblygu Strategaeth yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Nid yw'r gwaith yma wedi symud yn ei flaen o ystyried mai ymateb i'r pandemig oedd blaenoriaeth yr Awdurdod.

16 Er bod y Cynllun Gwella a Llesiant 2020-21 yn nodi'n fras beth yw blaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer gweithredu, nid yw graddfa'r gweithgarwch arfaethedig yn mynd mor bell â lleihau allyriadau carbon. Er enghraifft, mae'n canolbwyntio ar sefydlu Bwrdd Strategol â chyfrifoldeb am ddatblygu gwaith yr Awdurdod yn y maes yma, yn ymrwymo i archwilio cyfleoedd i leihau plastigau defnydd untro ac i ganfod ffyrdd o leihau a gwneud defnydd gwell o ddŵr, gwastraff, ynni a thanwydd. Fodd bynnag, canfuom fod gormod o'r camau gweithredu arfaethedig ar y cam 'wrthi'n archwilio' ac 'wrthi'n deall' yn hytrach na'u bod yn gamau gweithredu ystyrlon, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n cefnogi taith yr Awdurdod i fod yn garbon sero net.

17 Fel lleiafswm byddem yn disgwyl i'r Awdurdod ganolbwyntio ar bum maes craidd; yr eitemau gwerth uchel a fydd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i leihau $CO_2e$, sef:

- **Adeiladau** – gwella effeithlonrwydd ynni ac inswleiddio mewn adeiladau, defnyddio deunyddiau cynaliadwy megis toeau gwyrdd a systemau casglu dŵr mewn prosiectau ailddatblygu ac adeiladau newydd a datblygu a/neu ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy megis celloedd ffotofoltäig a thyrbinau gwynt ar safleoedd.
- **Caffael** – amcangyfrif allyriadau o gadwyni gwerth trwy fapio'r meysydd caffael ag allyriadau uchel ac adnabod ffyrdd o leihau allyriadau wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau.
- **Fflyd** – adolygu perfformiad y fflyd ar hyn o bryd, pennu trothwyon a chreu llwybrau wedi'u hoptimeiddio ar gyfer teithio safonol. Ystyried dewisiadau eraill yn lle cerbydau diesel a phetrol a nodi cynlluniau i newid i ddefnyddio trydan a fydd yn cynnwys amnewid cerbydau a seilwaith gwefru. Diweddaru rhaglenni amnewid fflyd a sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu neilltuo i dalu'r costau uwch sy'n gysylltiedig â newid i fflyd carbon isel.

- **Tir** – gwrthbwyso carbon[7] a hyrwyddo mentrau amgylcheddol a bioamrywiaeth.
- **Ffyrdd o weithio** – adolygu polisïau gweithredol a chyllidebau i sicrhau bod allyriadau carbon yn cael eu lleihau yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn darparu ei wasanaethau. Defnyddio dylanwad ehangach yr Awdurdod i annog eraill, a'i staff ei hun, i leihau allyriadau carbon yn yr hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud.

18 Yn bwysig, mae'r Prif Swyddog Tân newydd, a ymgymerodd â'i swydd yn haf 2021, yn ychwanegu hwb newydd at yr agenda lleihau allyriadau carbon. Yn ei 100 diwrnod cyntaf mae hi wedi cwblhau adolygiad strategol gwraidd a changen ac wedi adnabod pedair blaenoriaeth graidd ar gyfer y dyfodol, ac un o'r rhain yw gwella a blaenoriaethu'r modd y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer allyriadau carbon ac yn dod yn garbon sero net erbyn 2030. Mae'r arweinyddiaeth hon yn hollbwysig i gyflawni'r newid sylweddol y mae ei angen i ymdrin â'r agenda anodd hon.

19 Mae ennyn ymgysylltiad cyflogeion ag arbed ynni a charbon yn ffordd effeithiol o gymell staff a llwyddo i gyrraedd nodau amgylcheddol yr Awdurdod. Canfuom, er bod gan staff ddealltwriaeth eang am yr heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy o ran sut y mae ystadau, fflyd a defnydd o ynni'n cyfrannu at $CO_2$e, nad oedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg (63%) yn gwybod beth oedd man cychwyn yr Awdurdod ar gyfer lleihau $CO_2$e a pha un a oedd gan yr Awdurdod linell sylfaen gywir.

20 Yn gadarnhaol, mae 79% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn ymwybodol o darged Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus leihau allyriadau carbon i sero net erbyn 2030. Fodd bynnag, mae llai na hanner yr ymatebwyr i'r arolwg (46%) yn ymwybodol o gamau gweithredu blaenoriaeth yr Awdurdod ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Dim ond 26% o'r aelodau hynny o staff a ymatebodd i'n harolwg oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod yr Awdurdod yn mesur cynnydd i leihau allyriadau carbon. Fodd bynnag, dim ond 36.2% oedd yn ymwybodol o'r targedau oedd wedi cael eu gosod i leihau allyriadau carbon a dim ond 15% sy'n credu y bydd yr Awdurdod yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru.

21 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i gyfleu'n effeithiol pam ei bod yn bwysig lleihau allyriadau carbon a'r cyfraniad pwysig y gall unigolion ei wneud tuag at helpu i hyrwyddo, arwain a chyflawni cyfrifoldebau'r Awdurdod.

[7] Daw gwrthbwyso carbon o brosiectau sy'n lleihau swm y nwyon tŷ gwydr sy'n mynd i mewn i'r atmosffer ac amsugno $CO_2$e yn uniongyrchol o'r aer. Rhaid iddynt arwain at ostyngiadau go iawn neu at ddal a storio carbon, y mae angen ei fesur a'i feintioli. I sicrhau dilysrwydd y prosiectau rhaid iddynt fodloni amodau llym.

## Mae’r Awdurdod wedi gwneud peth cynnydd mewn rhai meysydd ond mae angen newid sylweddol mewn gweithgarwch i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru

22 Mewn sefydliad, caiff carbon ei gynhyrchu gan bobl, trwy eu gweithredoedd, ac asedau, trwy eu dyluniad a’r modd y’u defnyddir. Er mwyn lleihau allyriadau, bydd angen i’r Awdurdod dargedu dyluniad asedau ac ymddygiad. Canfuom bocedi o waith da y mae’r Awdurdod eisoes yn ei wneud i’w helpu i ddod yn garbon sero net.

23 Er enghraifft, mae nifer o orsafoedd wedi elwa o fuddsoddiadau mewn mesurau effeithlonrwydd ynni megis Synwyryddion Isgoch Goddefol, Celloedd Ffotofoltäig a chynlluniau cynhyrchu trydan. Mae’r Awdurdod hefyd wedi cwblhau rhaglen amnewid ffenestri a drysau ac mae oddeutu 90% o’i ystâd wedi elwa o osod ffenestri a drysau gwydr dwbl UPVC ynni-effeithlon. Yn ogystal â hynny, mae drysau’r baeau injans tân mewn 27 o’r 44 o orsafoedd wedi cael eu hamnewid hefyd ac mae’r Awdurdod hefyd wedi uwchraddio systemau boeleri mewn nifer o orsafoedd ac yn adeilad ei bencadlys.

24 Mae fflyd yn faes sy’n mynd trwy gyfnod o newid na welwyd mo’i fath o’r blaen ac mae lleihau allyriadau $CO_2e$ o fflyd yr Awdurdod yn flaenoriaeth fawr. Canfuom fod yr Awdurdod wedi cymryd nifer o gerbydau cymorth anweithredol trydan ar brydles a’i fod yn treialu’r rhain i bennu’r opsiynau ar gyfer dod yn wasanaeth trydan yn gyfan gwbl yn y dyfodol. Er bod hyn yn dangos ymrwymiad yr Awdurdod i leihau allyriadau o fflyd, mae rhai risgiau arwyddocaol yn dal i fodoli, yn enwedig o ran cerbydau trwm, sy’n rhoi cyfrif am y mwyafrif o injans tân rheng flaen.

25 Oherwydd eu natur arbenigol, mae gan y cerbydau hyn bolisïau oes hir ac maent yn fwy o her i’w datgarboneiddio. Er bod hynny’n ddichonadwy mewn egwyddor yn rhai o’r lleoliadau, wrth newid i fodelau amgen rhaid taro cydbwysedd rhwng hynny a’r effaith bosibl ar allu gweithredol. Nid yw wastad yn briodol newid i gerbydau llai os yw hyn yn amharu ar allu’r Awdurdod i ymateb i achos brys.


26 Mae rhai heriau arwyddocaol i’w goresgyn wrth newid i fflyd drydan yn bennaf. Er enghraifft, trwy ein gwaith archwilio rydym yn deall mai dim ond dwy injan dân drydan sydd ar y farchnad, ond eu bod yn costio oddeutu £600,000 y cerbyd. Mae hyn yn sylweddol uwch na’r swm a gaiff ei wario fel arfer ar amnewid injans tân diesel. Yn ogystal â gorfod gwario llawer mwy ar gerbydau trydan, mae tebygolrwydd hefyd y bydd angen i’r cerbydau trydan gael eu hamnewid yn fwy mynych a bydd angen i rychwant oes 15 mlynedd tybiannol injan dân ddiesel gael ei leihau mewn tybiaethau cynllunio yn y dyfodol. Mae cerbydau hydrogen, a allai gynnig datrysiad dichonadwy, wrthi’n cael eu datblygu ond nid ystyrir eu bod yn opsiwn realistig ar hyn o bryd.

27 I wireddu potensial fflyd drydan yn llawn bydd angen seilwaith gwefru digonol ledled yr ardal y mae’r Awdurdod yn weithredol ynddi hefyd. Mae’n hanfodol bod rhwydwaith gwefru cerbydau trydan cynhwysfawr â phrisiau cystadleuol yn ei le. Os ystyrir bod y rhwydwaith gwefru’n annigonol, yna bydd hyn yn rhwystr mawr i’r amcan bod yr holl gyrff cyhoeddus yn dechrau defnyddio cerbydau trydan. Ni

ddylid tanamcangyfrif graddfa'r newid i gerbydau trydan. Er ei bod yn anodd gwybod yn union faint o wefru fydd ei angen, mae rhagolygon Llywodraeth y DU[8] yn awgrymu y bydd angen o leiaf 10 gwaith yn fwy o fannau gwefru erbyn 2030 nag sy'n bodoli ar hyn o bryd.

28 I gefnogi'r broses bontio hon mae angen i'r Awdurdod weithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn yr ardal y mae'n weithredol ynddi i wneud defnydd llawn o'r seilwaith gwefru presennol. Canfuom mai cyfyngedig fu'r cynnydd yn hyn o beth ledled Gogledd Cymru hyd yma a bod angen cryn dipyn o waith o hyd i fwrw ymlaen â'r mater hwn. Dengys data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ym mis Hydref 2021 ledled rhanbarth Gogledd Cymru, fod 341 o ddyfeisiau gwefru cerbydau trydan (pob cyflymder) ar gael yn gyhoeddus, y mae 41 ohonynt yn unedau gwefru cyflym – **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1 – Mannau Gwefru Cerbydau Trydan a oedd ar gael yn gyhoeddus fesul ardal Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ym mis Hydref 2021**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau ar ddyfeisiau gwefru cerbydau trydan: Hydref 2021

[8] https://www.gov.uk/government/publications/electric-vehicle-charging-market-study-final-report/final-report

29 O ystyried yr heriau hyn nid yw'n syndod felly bod ein harolwg ymhlith staff wedi canfod mai'r prif rwystr i ddod yn garbon sero net yw cost y buddsoddiad sy'n ofynnol mewn seilwaith, cerbydau, swyddfeydd a gorsafoedd. Ein casgliad yw y bydd yr Awdurdod, heb fuddsoddiad sylweddol ganddo ef ei hun a phartneriaid mewn seilwaith gwefru a datblygu dewisiadau eraill yn lle injans tân diesel, yn ei chael yn anodd cyflawni fflyd carbon sero net.

30 Er mai osgoi a lleihau allyriadau yw blaenoriaeth yr Awdurdod o hyd, bydd y gallu i gyflawni statws Sero Net erbyn 2030 yn eithriadol o anodd heb ryw fath o wrthbwyso oherwydd graddfa'r dechnoleg a'r buddsoddiad sy'n ofynnol. Mae cynlluniau gwrthbwyso carbon yn caniatáu i gyrff cyhoeddus fuddsoddi mewn prosiectau amgylcheddol er mwyn mantoli eu holion traed carbon hwy eu hunain. Mae'r prosiectau wedi'u bwriadu'n fwyaf cyffredin i leihau allyriadau yn y dyfodol ac amsugno $CO_2$e yn uniongyrchol o'r aer trwy blannu coed a phrosiectau bioamrywiaeth eraill. Mae rhai sefydliadau'n gwrthbwyso'u hôl troed carbon cyfan tra bo eraill yn amcanu at niwtraleiddio effaith gweithgaredd penodol.

31 Nid yw'r Awdurdod wedi cyflawni gweithgareddau gwrthbwyso arwyddocaol hyd yma. Mae nifer fach o fentrau wedi cael eu cyflwyno yn adeilad y pencadlys ac maent yn cynnwys gardd gloÿnnod byw, perth a man amwynder gwyrdd ar gyfer staff. Y tu hwn i hyn, fodd bynnag, ychydig o waith sydd wedi cael ei wneud ac mae cyfleoedd o hyd i ehangu dulliau cyfredol. Bydd angen i'r Awdurdod sicrhau hefyd ei fod yn gallu dangos effaith ei fentrau cyfredol ac unrhyw weithgarwch ychwanegol a gyflawnir ganddo yn ei linell sylfaen ddiwygiedig.

32 Mae newid y ffordd y mae sefydliadau'n gweithio, yn defnyddio cynhyrchion a gwasanaethau sy'n dod o adnoddau naturiol, yn gallu lleihau $CO_2$e yn fesuradwy. Canfuom fod yr Awdurdod wedi canolbwyntio ar rai mentrau da i newid ymddygiadau ond hefyd y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau. Mae gan yr Awdurdod hanes hir o uwchgylchu deunyddiau ac offer – yn fwyaf nodedig fel rhan o Ymgyrch Florian lle mae'r Awdurdod wedi rhoi cerbydau, offer, cyflenwadau ac arbenigedd i helpu gwasanaethau mewn gwledydd llai goludog.

33 Fe wnaeth y newid i weithio gartref a achoswyd gan y pandemig helpu'r Awdurdod i leihau allyriadau carbon hefyd er nad yw effaith hirdymor hyn wedi cael ei mesur. Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau â chyfarfodydd ar-lein (neu gyfarfodydd hybrid gyda rhai wyneb yn wyneb) ac yn ddiweddar fe fabwysiadodd Bolisi Gweithio'n Ystwyth sy'n berthnasol i staff cymwys (y rhai yn y ganolfan gorfforaethol yn bennaf). Roedd lleihau carbon yn un o'r ystyriaethau wrth ei ddatblygu, yn bennaf o ran lleihau milltiroedd cymudo, er nad yw effaith ymgymryd â hynny ymhlith staff yn cael ei monitro yn y ffordd yma.

34 Mae ennyn ymgysylltiad cyflogeion ag arbed ynni a charbon yn ffordd effeithiol o gymell staff a llwyddo i gyrraedd nodau amgylcheddol. Trwy fabwysiadu dull strategol lle mae ymgysylltu yn y cwestiwn, gall cyrff cyhoeddus sefydlu cydberchnogaeth ar dargedau carbon ac ynni a sicrhau bod arweinwyr yn cael eu dwyn i gyfrif. Dylai strategaeth cynaliadwyedd gadarn ac eglur gynnwys ymgysylltu â chyflogeion fel elfen greiddiol.

35 Canfu ein harolwg o staff fod angen i'r Awdurdod wneud mwy i ymgysylltu â'i weithlu ar yr agenda ddatgarboneiddio. Er enghraifft, mae un o'r pum prif rwystr a nodwyd gan staff i allu'r sefydliad i ddod yn garbon sero net yn ymwneud â diffyg ymwneud gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub â chynllunio a chyflawni blaenoriaethau ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Mae'r Prif Swyddog Tân newydd yn ennyn ymgysylltiad staff ac Aelodau o ran mynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Awdurdod, ac mae'n dechrau dod â hwy ar y daith hon.

## Nid oes gan yr Awdurdod drefniadau priodol i fonitro a gwerthuso'i gynnydd tuag at ddod yn garbon sero net

36 Mae Aelodau'r Awdurdod Tân yn cael diweddariadau chwe misol ar gynnydd yn erbyn yr amcan llesiant a thrwy'r Asesiad Blynyddol o Berfformiad a phrosesau blaengynllunio, yn ogystal â diweddariadau eang ar y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae swyddogion ac Aelodau y gwnaethom ni gyfweld â hwy'n cydnabod, ar hyn o bryd, nad yw'r Awdurdod yn craffu ar ddigon o ddata ac yn gwerthuso digon o ddata ar allyriadau carbon na'r camau gweithredu sy'n ofynnol i ddwyn gwelliant a dod yn garbon sero net.

37 Nid yw adroddiadau'n cynnwys unrhyw ddadansoddiad yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru na pherfformiad ôl-weithredol yn erbyn targedau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ac nid yw'r perfformiad yn cael ei feincnodi na'i gymharu ag eraill. Ein casgliad yw nad yw'n bosibl i Aelodau fonitro a dwyn swyddogion i gyfrif am y cynnydd oherwydd y gwendidau hyn.

38 Fel lleiafswm byddem yn disgwyl i'r Awdurdod sefydlu systemau gwerthuso perfformiad sy'n ei alluogi i wneud y canlynol:

- barnu sut y mae'n gwneud cynnydd tuag at ddod yn garbon sero net erbyn 2030;
- dangos ei welliant yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon ar y cyfan yn ôl cyfradd o 63% erbyn 2030; 89% erbyn 2040; ac o leiaf 100% (sero net) erbyn 2050;
- cymharu a meincnodi ei berfformiad gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill o faint tebyg i allu adnabod cyfleoedd ar gyfer gwella; a
- monitro'r modd y cyflawnir camau gweithredu y cytunwyd arnynt i leihau $CO_2e$ mewn cynlluniau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn* Saesneg **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony T Jones, Pennaeth Gweithrediadau ac Ardal y Dwyrain** |
| Pwnc | **Deddf Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd (Cymru) 2016** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am gynllunio arfaethedig yn y dyfodol ac adrodd ar gamau gweithredu gan yr Awdurdod mewn perthynas â gwella bioamrywiaeth o fewn ei ystâd.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynllunio ar gyfer, ac adrodd ar y camau mae'n ei gymryd i wella bioamrywiaeth o fewn ei ystâd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Adroddiad Bioamrywiaeth a Chynllun Gweithredu 2022 ar gyfer ei gymeradwyo yn unol ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar wefan yr Awdurdod ddiwedd Rhagfyr 2022 yn dilyn cymeradwyaeth gan y Panel Gweithredol ar 12 Rhagfyr.

## ARGYMHELLION

3. Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo'r cynnwys yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2022.

## CEFNDIR

4. Mae bioamrywiaeth yn ymwneud â'r amrywiaeth o fywyd sydd ar y ddaear. Mae'r economi ac iechyd a lles pobl yn dibynnu ar ecosystemau iach a chydnerth am fwyd, dŵr glân ac aer, deunyddiau crai, ynni a diogelwch rhag peryglon fel llifogydd a newid yn yr hinsawdd.

5. Roedd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw i warchod bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau'n briodol.

6. Yn 2015 fe lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Adfer Natur gyda'r nod o wyrdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru. Roedd y Cynllun hwn yn nodi sut byddai Cymru'n cyflawni ymrwymiadau Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol drwy gyfrwng camau gweithredu tymor byr hyd at 2020 ac fel ymrwymiadau tymor hwy y tu hwnt i 2020.

7. Fe wnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sefydlu saith nod llesiant i Gymru y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i'w cyflawni. Mae un o'r nodau hynny'n ymwneud â 'Chymru gydnerth', gan wneud Cymru'n genedl 'sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid'.

8. Yn 2016, daeth awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru'n ddarostyngedig i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a oedd yn cyflwyno dyletswydd uwch ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ('dyletswydd adran 6').

9. Mae'r ddyletswydd adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus – gan gynnwys awdurdodau tân ac achub – i gynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae hynny'n cyd-fynd ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

10. Dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu holl weithgareddau gan gynnwys unrhyw gynllunio busnes, polisïau, rhaglenni a phrosiectau. Yn benodol, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi cynllun sy'n nodi sut mae'n bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, ac adroddiad sy'n disgrifio'r hyn mae eisoes wedi'i wneud yn hyn o beth. Cafodd yr adroddiad ôl-weithredol cyntaf o'r fath ei gyhoeddi yn 2019, gydag adroddiadau dilynol i gael eu cyhoeddi bob tair blynedd wedi hynny.

**GWYBODAETH**

11. Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio yn ôl cynllun gweithredu ar gyfer rheoli safleoedd yr Awdurdod mewn ffyrdd sy'n gwella bioamrywiaeth ei ystâd drwy fynd i'r afael â'r chwe amcan sydd wedi'u rhestru yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur i Gymru. Mae rhagor o fanylion yn yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth drafft atodedig (gweler Atodiad 1).

12. Yn ogystal â hyn, mae amcanion drafft yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 yn cynnwys bwriad i ddatblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol. Felly byddai cynllunio camau gweithredu ar fioamrywiaeth yn y dyfodol yn dod o fewn cylch gwaith y strategaeth ehangach hon.

13. Mae testun drafft ail adroddiad bioamrywiaeth adran 6 yr Awdurdod wedi'i gynnwys o fewn Atodiad 1.

14. Er mai dim ond unwaith bob tair blynedd y mae angen adrodd yn erbyn y ddyletswydd adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gellir ymgorffori adroddiadau amlach yn y dyfodol yn Asesiadau Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Goblygiad uniongyrchol i gytuno ar y camau tuag at gyflawni un o amcanion gwelliant a llesiant tymor hir yr Awdurdod. |
| **Cyllideb** | Mae eitemau'r cynllun gweithredu eisoes yn cael eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â deddfwriaeth llesiant a chynllunio gwelliant. |
| **Staffio** | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddwn ni ar hyn o bryd. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| **Risgiau** | Lleihau'r risgiau o ddiffyg cydymffurfio cyfreithiol ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

## Atodiad 1

## Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: Rhan 1 – Adran 6

# Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

## Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth

Tachwedd 2022

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

**Awdur(on):**
Tim Christensen
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd

Paratowyd gan:
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**<u>Cynnwys</u>**
*Tudalen*

**Contents**

1.0 Cefndir ........ 1
2.0 Cyflwyniad a Chyd-destun ........ 4
3.0 Camau a Gymerwyd ........ 5
4.0 Uchafbwyntiau, Prif Ganlyniadau a phroblemau ........ 9
4.1 Prosiectau Bioamrywiaeth (Astudiaethau Achos) ........ 9
5.0 Cynllun Gweithredu ........ 11
5.1 Amcan 1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ........ 11
5.2 Amcan 2 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ........ 11
5.3 Amcan 3 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ........ 12
5.4 Amcan 4 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ........ 14
5.5 Amcan 5 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ........ 15
5.6 Amcan 6 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ........ 16

**<u>Tablau</u>**
*Tudalen*

Tabl 1: Mathau o Safleoedd a Lleoliadau ........ 7

# 1.0 CEFNDIR

1.0.1 Bioamrywiaeth (neu amrywiaeth fiolegol) yw'r amrywiaeth o fywyd sydd i'w gael ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, eu helaethrwydd a'u hamrywiaeth genetig; mae'n sail i'n bywydau a'n bywoliaeth ac yn cefnogi gweithrediad a chydnerthedd ecosystemau mewn cefnforoedd, gwlyptiroedd, llynnoedd, afonydd, mynyddoedd, coedwigoedd a thirweddau amaethyddol. Mae ein heconomi, ein hiechyd a'n lles yn dibynnu ar ecosystemau iach a chydnerth, sy'n darparu bwyd, dŵr glân ac aer, deunyddiau crai ac ynni i ni ac sy'n ein hamddiffyn rhag peryglon, fel llifogydd a newid yn yr hinsawdd. Mae'n hanfodol cysylltu pobl â byd natur a'r cyfraniad mae ei fywyd gwyllt a'i gynefinoedd yn ei wneud tuag at lesiant, ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol cymdeithas.

1.0.2 Cydnabyddir yn eang bod bioamrywiaeth dan bwysau o amrywiaeth o ddylanwadau a bod cynefinoedd a rhywogaethau yn parhau i ddirywio. Mae'n hanfodol felly ein bod yn cynnal ac yn gwella ein bioamrywiaeth i sicrhau ei bod yn parhau'n iach, yn gydnerth ac yn gallu addasu i newid. Mae effaith newid hinsawdd ar fioamrywiaeth dros y degawdau nesaf yn debygol o fod yn sylweddol, gan gynnwys colli mwy o gynefinoedd a chynnydd posib mewn rhywogaethau goresgynnol.

1.0.3 Mae rheoli bioamrywiaeth o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan annatod o wella ei berfformiad amgylcheddol cyffredinol ac mae'r Gwasanaeth eisoes wedi mynd i'r afael â materion bioamrywiaeth ar ei ystâd drwy ei Gynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2020. Roedd y Ddyletswydd Bioamrywiaeth drwy'r Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 yn gofyn i bob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys y Gwasanaethau Tân, roi sylw i warchod bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r maes pwnc hwn bellach yn adroddadwy o dan ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Rhan 1, Adran 6 – Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

1.0.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cydnabod y pwysigrwydd mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i natur a'i bioamrywiaeth; ynghyd â chwe nod arall ar gyfer Cymru gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi nod Cymru Gydnerth ar waith (cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid).

1.0.5 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymgorffori egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol yn y gyfraith drwy fabwysiadu ymagwedd ecosystemau at y modd y mae Cymru'n rheoli ei hadnoddau naturiol yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno bioamrywiaeth a chydnerthedd gwell o ddyletswydd ecosystemau (dyletswydd adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (mae hyn yn cynnwys y Gwasanaethau Tân) wrth arfer y swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Mae dyletswydd adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae hynny’n cyd-fynd ag arfer eu swyddogaethau’n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.

1.0.6 Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd adran 6 dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu meddylfryd a’u gwaith cynllunio busnes cynnar, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.

1.0.7 O dan y Ddeddf, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â dyletswydd adran 6. Ni ddylai’r adroddiad fod yn feichus, a dylai fod yn gymesur â maint a math y sefydliad, o ran y camau ar gyfer bioamrywiaeth y gallent eu cyflawni. Cyhoeddodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ei Adroddiad Bioamrywiaeth a'i Gynllun Gweithredu cyntaf ym mis Tachwedd 2019.

1.0.8 Er bod safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig yn bwysig, mae dyletswydd adran 6 yn ymwneud â chymryd camau i ddiogelu natur yn ein trefi, ein dinasoedd, ein mannau cyhoeddus a'n tirwedd ehangach, drwy weithredu’n ymarferol ar lawr gwlad, ac yn y ffordd y caiff yr holl swyddogaethau cyhoeddus eu cyflawni. Nid y mentrau tiroedd mawr yn unig sy'n bwysig, ond hefyd y camau gweithredu llai, bob dydd, ar raddfa leol a all wneud gwahaniaeth ac sy'n gallu cyfrannu at helpu bioamrywiaeth.

1.0.9 Yn ogystal â'r ddeddfwriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Cynllun Adfer Natur, sy'n cynnwys y strategaeth ar gyfer Natur a'r ymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, y materion yr oedd angen ymdrin â nhw a'r amcanion i’w gweithredu; Cynllun Gweithredu i gyflawni'r amcanion i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth; a strwythur llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â chyflawni camau gweithredu ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

1.0.10 Drwy'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, mae nifer o amcanion wedi'u nodi i fynd i'r afael â materion sy'n achosi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac i gefnogi adferiad:

**Amcan 1:** Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

**Amcan 2:** Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf a gwella'r modd y cânt eu rheoli.

**Amcan 3:** Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd.

**Amcan 4:** Mynd i'r afael â'r prif bethau sy'n rhoi pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.

**Amcan 5:** Gwella tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro.

**Amcan 6:** Rhoi fframwaith llywodraethu ar waith a chefnogi'r gwaith o'i gyflawni.

1.0.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Canllawiau Adrodd ar gyfer dyletswydd adran 6, a defnyddiwyd y ddogfen hon i ffurfio'r adroddiad hwn.

## 2.0 CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

2.0.1 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau gwarchod ac atal tân i tua 687,000 o bobl dros ardal ddaearyddol o 2,400 milltir sgwâr, yn ogystal â channoedd o filoedd o dwristiaid ac ymwelwyr sy'n dod i Ogledd Cymru bob blwyddyn. Mae tua 328,742 o eiddo domestig a 33,820 o eiddo annomestig o dan warchodaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac mae'r Gwasanaeth yn cyflogi bron i 1,000 o staff mewn rolau gweithredol a chefnogol.

2.0.2 Mae'r Gwasanaeth yn gofalu am dair ardal ddaearyddol, sef ardaloedd Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae ganddo ystâd o 47 o adeiladau, yn amrywio o orsafoedd tân amser llawn, criw dydd, wrth gefn a gorsafoedd tân yn y gymuned, swyddfeydd gweinyddol, gweithdy garej i adeiladau sy'n cael eu rhannu gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Mae gan bob ardal swyddfa diogelwch cymunedol a rheolwr diogelwch cymunedol dynodedig. Bob blwyddyn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn mynychu tua 1,879 o danau, 958 o Ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig, a thua 2,517 o alwadau diangen o wahanol fathau bob blwyddyn.

2.0.3 Mae ganddo fflyd fawr gan gynnwys 54 o beiriannau tân, un uned meistroli digwyddiadau a 31 o gerbydau 'arbennig' – fel cerbydau arbenigol a chludwyr ewyn; mae tri pheiriant ag ysgol ac esgynlawr, offer pŵer cludadwy, offer codi a winsio ac offer arbenigol eraill i'n galluogi i ymateb i nifer o wahanol fathau o ddigwyddiadau.

2.0.4 Mae'r Gwasanaeth yn gwneud gwaith helaeth gydag ysgolion, busnesau a chymunedau lleol i hyrwyddo diogelwch ac atal tân. Mae'r potensial am niwed difrifol i'n hamgylchedd, yn aml mewn ardaloedd sensitif, gan effaith tanau cefn gwlad yn bryder difrifol. Mae effaith cynnau tân bwriadol yn tanseilio hyder cymdeithasol ac economaidd ac yn tynnu adnoddau y gellid eu defnyddio'n fwy effeithiol mewn mannau eraill.

2.0.5 Yn ogystal â'r ymateb Gweithredol i fynychu tanau neu ddigwyddiadau mewn ardaloedd lle gallai bioamrywiaeth gael ei heffeithio ganddyn nhw, mae Tîm Lleihau Llosgi Coed (partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru) yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem o danau sy'n cael eu cynnau'n fwriadol fel nad yw pobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd na threftadaeth yr ardal yn cael eu rhoi mewn perygl. Nod y Tîm yw lleihau nifer y tanau cefn gwlad sy'n cael eu cynnau'n fwriadol; newid agwedd y gymuned tuag at danau sy'n cael eu cynnau'n fwriadol; defnyddio dull partneriaeth aml-asiantaeth o fynd i'r afael â'r broblem hon; sicrhau bod neges gyson yn cael ei chyflwyno i gymunedau ar danau cefn gwlad a chefnogi'r gwaith o gyflwyno gweithgareddau dargyfeiriol ar gyfer oedolion a phobl ifanc, atal troseddwyr posib ac ymyrryd yn gynnar pan fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dechrau.

2.0.6 Felly, gellir ystyried Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Sefydliad Grŵp 2 yng nghanllawiau'r adran 6 mewn perthynas â'r disgrifiad o sefydliad cymharol â bioamrywiaeth. Hynny yw, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn sefydliad sydd (1) yn berchen ar, yn meddiannu neu'n rheoli tir yn eu safle eu hunain a (2) mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir neu sy'n gallu dylanwadu ar y rhai sy'n berchen ar dir neu'n eu rheoli.

2.0.7 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynhyrchu cynlluniau llesiant ac mae'n aelod o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych a Sir y Fflint mewn perthynas â bioamrywiaeth, newid hinsawdd a gweithgorau ar yr agenda amgylcheddol.

## 3.0 CAMAU A GYMERWYD

3.0.1 Mae'r Adran Rheoli Cyfleusterau yn gyfrifol am gyflawni prosiectau bioamrywiaeth a'r contract cynnal a chadw tir yn safle'r Gwasanaeth, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau).

3.0.2 Daeth y cyn-gontract cynnal a chadw tir i ben ar 31 Mawrth 2020 ac wrth ddatblygu'r fanyleb ar gyfer y contract newydd (sydd bellach yn weithredol), mae camau gwella bioamrywiaeth i'w cymryd mewn safleoedd, wedi'u cynnwys.

3.0.3 Mae'r contract cynnal a chadw tir yn ymwneud â chyfundrefn lle mae’r holl ardaloedd glaswelltog mewn safleoedd yn cael eu torri bob pythefnos rhwng Ebrill a Thachwedd bob blwyddyn; llwyni, gwrychoedd a choed yn cael eu tocio yn ôl y galw; chwynladdwyr yn cael eu defnyddio i reoli chwyn ar ardaloedd palmantog, cyrbau a gwaelod adeiladau; a mannau caled (meysydd parcio, llwybrau ac ati) yn cael eu clirio o sbwriel ac unrhyw wastraff (glaswellt, dail, llwyni marw ac ati) yn cael ei dynnu oddi ar y safle. Mae rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol wedi’i gynnwys yn y contract cynnal a chadw tiroedd. Mae clymog Japan yn cael ei reoli’n llym mewn tri safle.

3.0.4 Yn ogystal â'r tri chynllun creu cynefinoedd a nodwyd yn 2019, mae'r Gwasanaeth wedi cynnal pedwar prosiect diogelu neu wella bioamrywiaeth o fewn y cyfnod adrodd presennol:

**Prosiect 1:** Dolgellau: Diwrnod gweithredu amgylcheddol

**Prosiect 2:** Mynyddoedd Llandysilio a Rhiwabon: Ymgyrch atal llosgi bwriadol a hydrohadu

**Prosiect 3:** Abergele, y Waun, Conwy, y Fflint, Harlech, Llanfairfechan, Prestatyn a Rhosneigr: Lleihau’r drefn torri gwair

**Prosiect 4:** Gorsaf Dân Harlech: Gosod bocs cyflym

Bydd y prosiectau hyn yn cael eu trafod isod yn yr astudiaethau achos.

3.0.5 Gellir grwpio ystâd y Gwasanaeth yn dri math o safle:

**Grŵp 1:** Tiroedd yn cynnwys arwynebau caled + ardaloedd glaswelltog + llwyni, gwrychoedd, coed

**Grŵp 2:** Tiroedd yn cynnwys arwynebau caled + ardaloedd glaswelltog

**Grŵp 3:** Tiroedd yn cynnwys arwynebau caled yn unig

Mae crynodeb o bob safle a’u lleoliadau daearyddol yn Nhabl 1: Mathau o safleoedd a lleoliadau.

## Tabl 1: Mathau o safleoedd a lleoliadau

| Ardal y Sir | Grŵp 1<br><br>Safleoedd gydag arwynebau caled + ardaloedd glaswelltog + llwyni, gwrychoedd, coed<br><br>B = safle prosiect bioamrywiaeth<br>JK = Rheoli clymog Japan | Grŵp 2<br><br>Safleoedd gydag arwynebau caled + ardaloedd glaswelltog | Grŵp 3<br><br>Safleoedd gydag arwynebau caled yn unig |
|---|---|---|---|
| **Conwy** | Gorsaf Dân (GD) Bae Colwyn<br>GD Conwy<br><br>GD Llanfairfechan<br>GD Llanrwst<br>Fflyd a Storfeydd<br>TGCh – Uned 8 | GD Abergele<br><br>GD Cerrigydrudion | GD Llandudno<br>GD Betws-y-coed |
| **Sir Ddinbych** | Cyfadeilad y Rhyl<br>GD Corwen (JK)<br>GD Rhuthun<br>Pencadlys y Gwasanaeth Tân (B) | GD Llangollen<br>GD Prestatyn<br>GD Llanelwy | GD Dinbych |
| **Fflint** | GD Glannau Dyfrdwy | GD Bwcle<br><br>GD y Fflint<br>GD yr Wyddgrug | GD Treffynnon |
| **Wrecsam** | GD y Waun<br>GD Wrecsam [Canolfan Adnoddau Ambiwlans a Gwasanaethau Tân Wrecsam]<br>- tiroedd o dan reolaeth Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | GD Tre Ioan | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | GD Porthaethwy<br>GD Rhosneigr | GD Caergybi<br>GD Benllech<br>GD Llangefni (JK) | GD Amlwch<br>GD Biwmares |
| **Gwynedd** | GD Caernarfon<br>GD Bangor<br>GD Abersoch<br>GD a Gorsaf yr Heddlu Nefyn (B)<br>GD Pwllheli (JK)<br>GD Porthmadog<br>GD a Gorsaf yr Heddlu Tywyn (B) | GD Llanberis<br>GD Dolgellau<br>GD Y Bala<br>GD Blaenau Ffestiniog<br>GD Harlech | GD Aberdyfi<br>GD y Bermo |
| **Cyfanswm** | **21**<br>(22 gan gynnwys Wrecsam) | **17** | **8** |

## 4.0 UCHAFBWYNTIAU, PRIF GANLYNIADAU A PHROBLEMAU

4.0.1 Mae'r potensial i fynd i'r afael ag ystyriaethau bioamrywiaeth yn ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn uchel, gydag 83% o safleoedd ag ardaloedd o dirlunio meddal (ardaloedd glaswelltog) a 46% o'r safleoedd hynny ag ardaloedd ychwanegol o fewn y tiroedd sy'n cynnwys llwyni, gwrychoedd neu goed; dim ond 17% o safleoedd sydd heb unrhyw lystyfiant.

4.0.2 Arsylwadau o ymweliadau blaenorol â safleoedd:

- Mae rhai ardaloedd glaswelltog yn rhy fach i gynnal trefn 'dim torri o Ebrill i Awst'.
- Mae rhai gwrychoedd yn dod o dir cymdogion, ond yn rhan o berimedr safle Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; lle mae bylchau yn y gwrych (atal coridorau bywyd gwyllt a rhyng-gysylltedd), gallai'r ardal ar lefel y ddaear ar ochr y Gwasanaeth fod yn rhai wyneb caled.
  Mae coed castanwydden yn dueddol o fod ar safleoedd â choed aeddfed. Yn ystod yr Hydref mae aelodau o'r cyhoedd yn dod i'r tir i gasglu concyrs. Mae'r safleoedd hyn eisoes yn galluogi ffordd i'r Gwasanaeth gyfrannu tuag at ymgysylltu â'r gymuned â natur.  Gwelwyd yr ymddygiad yma yn ystod ymweliadau safle â gorsafoedd tân Porthmadog a Chonwy.

## 4.1 Prosiectau Bioamrywiaeth (Astudiaethau Achos)

Prosiect 1

4.1.1 Cymerodd Staff o'r Gwasanaeth ran mewn Diwrnod Gweithredu Amgylcheddol mewn partneriaeth ag Adra a Chyngor Gwynedd ym mis Medi 2021 yn Nolgellau, ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu â'r cyhoedd am bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd yn lleol, a chael gwared ar sbwriel.

Prosiect 2

4.1.2 Cynhaliodd y Gwasanaeth ymgyrch atal llosgi bwriadol  mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru a Heddlu Gogledd Cymru ym mis Awst 2022 ym Mynyddoedd Llandysilio a Rhiwabon, yn dilyn tân gwyllt yn Llandysilio yn 2018 a orchuddiodd 250ha o fewn Safle Dynodedig o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). Ym mis Hydref 2021, yn dilyn y tân hwn, rhoddodd y Gwasanaeth gymorth logistaidd i Gyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â chynllun hydrohadu yn ardal y tân.

4.1.3 Roedd yr ymgyrch atal llosgi bwriadol yn cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd ac addysg ar sut i osgoi gweithgareddau risg uchel fel taflu sigaréts a/neu ddefnyddiau gwydr a sut i ddefnyddio a gwaredu barbeciws.

Prosiect 3

4.1.4 Yn unol â Chontract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwell Bioamrywiaeth, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2020, mae'r drefn torri glaswellt wedi'i lleihau i'r Gwanwyn a'r Hydref yn unig yn Abergele, y Waun, Conwy, y Fflint, Harlech, Llanfairfechan, Prestatyn a Rhosneigr.

4.1.5 Y nod o wneud hyn ydy caniatáu twf cynefin ar gyfer peillwyr a phryfed sy'n llysysyddion.

Prosiect 4

4.1.6 Fel rhan o gynllun dymchwel tŵr hyfforddi a gosod un newydd yng Ngorsaf Dân Harlech, sydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri a SSSI Coed Llechwedd, mae'r Gwasanaeth wedi cytuno i osod bocs nythu teras adar to yn yr orsaf.

## 5.0 CYNLLUN GWEITHREDU

5.0.1 Mae'r canlynol yn rhoi gwybodaeth am ba gamau y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu cymryd i gyrraedd amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP), o ran rheoli eu tiroedd a chynnal a gwella bioamrywiaeth yn eu safleoedd.

### 5.1 Amcan 1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel."*

5.1.1 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â bioamrywiaeth ar ei ystâd, ac ar hyn o bryd mae'n datblygu polisi i ddisodli'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy (SDAP), a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2020.

5.1.2 Darperir data, gwybodaeth ac adroddiadau sy'n ymwneud â meysydd pwnc sy'n ymwneud â bioamrywiaeth i Uwch Swyddogion a'r Awdurdod Tân, fel sy'n ofynnol neu yn ôl y gofyn .

5.1.3 Hyd yma, mae codi ymwybyddiaeth am faterion bioamrywiaeth wedi bod yn seiliedig ar safle'r prosiect yn bennaf, er enghraifft roedd prosiect bioamrywiaeth y Pencadlys Tân yn hysbysu staff o'r gwaith sy'n cael ei wneud a pham. Bu ymgysylltu da â'r cynllun, gyda staff yn tynnu lluniau rhywogaethau (gloÿnnod byw a phryfed eraill) ac yn rhoi adborth am unrhyw broblemau i'r Adran Cyfleusterau .

### 5.2 Amcan 2 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf a gwella'r modd y cânt eu rheoli."*

5.2.1 Nid oes gan y Gwasanaeth unrhyw safleoedd gwarchodedig o fewn ei ystâd.

5.2.2 Mae'r Pencadlys Tân wedi'i leoli ar Barc Busnes Llanelwy, lle mae'r Fadfall Gribog Fwyaf yn byw, ac mae unrhyw waith sy'n tarfu ar y tir yn cymryd i ystyriaeth y gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r madfallod dŵr hyn.

5.2.3 Lle cynhelir datblygiad adeiladu newydd neu waith adnewyddu mawr gan y Gwasanaeth, cynhelir ardystiad BREEAM ar gynlluniau lle bo'n ymarferol i wneud hynny. BREEAM yw'r dull sefydledig hiraf yn y byd o asesu, sgorio, ac ardystio cynaliadwyedd adeiladau. Dyma'r egwyddorion ar gyfer cynnal gwaith datblygu:

- Sicrhau, lle bo'n bosibl, bod unrhyw waith adeiladu yn digwydd ar safleoedd sy'n cael eu diffinio fel tir o werth ecolegol isel
- Gan sicrhau, lle bo'n bosibl, bod unrhyw waith datblygu'n gwarchod nodweddion ecolegol presennol rhag cael difrod sylweddol wrth ei baratoi neu ei gwblhau.
- Cydnabod ac annog camau a gymerwyd i wella gwerth ecolegol safleoedd datblygu o ganlyniad i'r datblygiad.

## 5.3 Amcan 3 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd."*

5.3.1 Mae'r amcan hwn yn cael ei fodloni drwy weithredu'r Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2020.

5.3.2 Cafodd pob safle dan reolaeth y Gwasanaeth eu hasesu am eu gofynion cynnal a chadw tir a'u potensial i greu cynefinoedd, gyda chyfundrefn safle-benodol yn cael ei hysgrifennu ar gyfer pob safle, gan gynnwys cynlluniau safle a mesuriadau ardaloedd o lystyfiant.

5.3.3 Cyfeiriwch at Dabl 1 uchod: Mathau o safleoedd a lleoliadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

5.3.4 Mae'r potensial i fynd i'r afael ag ystyriaethau bioamrywiaeth yn ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn uchel, gydag 83% o safleoedd yn meddu ar ardaloedd tirlunio meddal (ardaloedd glaswelltog) a 46% o'r safleoedd hynny yn meddu ar ardaloedd ychwanegol o fewn y tiroedd sy'n cynnwys llwyni, gwrychoedd neu goed; dim ond 17% o safleoedd sydd heb unrhyw lystyfiant.

5.3.5 Dyma'r cyfundrefnau a gafodd eu rhoi ar waith o dan y Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth:

Ardaloedd Glaswelltog

5.3.6 Oni bai bod angen cynnal yr ardal laswelltog fel nodwedd ffurfiol (h.y. o flaen y Pencadlys) neu fod arwynebedd y glaswellt yn rhy fach, mae'r drefn torri gwair wedi ei lleihau o bob pythefnos rhwng Ebrill ac Awst i un toriad yn y gwanwyn ac un yn yr hydref. Felly, mae hyn yn gadael i'r glaswellt dyfu rhwng Ebrill ac Awst bob blwyddyn i gynyddu'r cynefin sydd ar gael i beillwyr a rhywogaethau eraill.

5.3.7 Lle mae ardaloedd glaswelltog yn cael eu gadael i dyfu rhwng Ebrill ac Awst, bydd stribed ar hyd ymyl y glaswellt wrth ymyl arwynebau caled yn cael eu torri'n rheolaidd, i ddangos ble mae'r ardal bioamrywiaeth, nodi bod yr ardal yn cael ei rheoli ac yn caniatáu unrhyw ystyriaethau iechyd a diogelwch i bersonél sy'n defnyddio'r safle.

5.3.8 Ar gyfer ardaloedd o laswellt sy'n rhy fach i'w gadael i dyfu, mae'r rhain wedi cael eu hasesu'n unigol am gynefinoedd amgen 'sy'n gyfeillgar i beillwyr', fel gwelyau blodau neu botiau.

Llwyni a Choed

5.3.9 Bydd yr holl goed yn cael eu cofnodi mewn Rhestr Coed (parhaus), gan nodi'r lleoliad, unrhyw orchmynion diogelu coed, rhywogaethau, oedran yn fras, cyflwr (iechyd y goeden ac asesiadau risg [risg i'r goeden o glefyd fel clefyd coed ynn a risg o'r goeden, fel tynnu canghennau marw a allai ddisgyn ar eiddo neu bobl]).

5.3.10 Lle bydd angen tynnu coed, bydd rhywogaethau brodorol addas yn cymryd eu lle.

5.3.11 Lle bydd coed wedi eu symud yn y gorffennol a bylchau yn y cynefin, lle bo'n ymarferol, bydd y bylchau hyn yn cael eu llenwi drwy blannu coed newydd.

5.3.12 Bydd gwrychoedd a llwyni'n cael eu tocio ar yr adeg briodol o'r flwyddyn a bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i rywogaethau a allai fod yn eu defnyddio, fel adar sy'n nythu.

5.3.13 Lle mae angen adnewyddu neu drwsio llwyni neu wrychoedd, bydd rhywogaethau blodeuol (fel y ddraenen wen) yn cael eu defnyddio fel stoc porthiant ar gyfer peillwyr.

5.3.14 Bydd pentyrrau o goed, a bocsys ystlumod, adar a phryfed yn cael eu gosod ar safleoedd lle bo hynny'n ymarferol.

Codi Ymwybyddiaeth am Fioamrywiaeth

5.3.15 Mae staff Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru wedi cael gwybod am y newid yn y drefn cynnal a chadw tiroedd a pham mae'n digwydd.

5.3.16 Mae byrddau esbonio cyhoeddus yn cael eu harddangos mewn safleoedd sy'n destun prosiect bioamrywiaeth penodol, yn amlinellu pa gamau bioamrywiaeth penodol sydd wedi eu cymryd a'r rhesymau dros wneud hynny. Yn lle mae prosiectau mwy arwyddocaol (e.e. yr ardd gefn ym Mhencadlys Llanelwy), bydd log ffotograffig yn dangos 'cyn' ac 'ar ôl' yn cael ei arddangos fel arfer.

## 5.4 Amcan 4 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Mynd i'r afael â'r prif bethau sy'n rhoi pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd."*

5.4.1 Mae Gwaith Rheoli Clymog Japan yn digwydd mewn 3 safle ac rydym yn monitro ei statws yn barhaus.

5.4.2 Cafodd asesiad risg i Goed Ynn y Gwasanaeth o'r clefyd coed ynn ei ohirio oherwydd y pandemig, a'r bwriad nawr yw ei gynnal erbyn diwedd 2023.

5.4.3 Lle mae gwaith plannu coed ychwanegol yn cael ei wneud, mae'r gwerth secwestru biogenig i ôl-troed carbon y Gwasanaeth o ganlyniad i secwestru carbon coed o fewn yr ystâd yn cael ei nodi fel rhan o'r adroddiad cyfrifo carbon blynyddol.

5.4.4 Pan fydd man gwyrdd ar gyfer staff, ymwelwyr neu grwpiau cymunedol yn cael ei greu, bydd unrhyw seddi'n dod o ffynonellau cynaliadwy a chymdeithasol.

5.4.5 Y defnydd o blaladdwyr a chwynladdwyr; mae'r Gwasanaeth eisoes yn gofyn i gontractwyr sicrhau bod y defnydd o'r sylweddau hyn yn gymesur, nad yw'r cemegion hyn yn cael eu rhoi ar blanhigion gwlyb na phan fydd hi'n gaddo glaw. Mae'n gofyn hefyd fod sbwriel yn cael ei waredu cyn chwistrellu a bod giardiau cymeradwy ar offer er mwyn atal drifft chwistrellu.

5.4.6 Oherwydd eu natur fiogronnol a'r graddau uchel o ecowenwyn, bydd y Gwasanaeth yn dod â'r defnydd o ewynnau diffodd tân *fluorosurfactant* (C6 a C8) cadwyn hir i ben ac yn gwaredu ei stociau presennol yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Mae'r ewynnau hyn i gael eu disodli gan opsiynau eraill di-fflworin.

5.4.7 Mae gan y Gwasanaeth swyddog arweiniol tanau gwyllt penodol, sy'n ymgynghori â pherchnogion tir gan gynnwys ffermwyr ac awdurdodau lleol, a phartner awdurdodau megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Heddlu Gogledd Cymru i helpu i leihau difrifoldeb a nifer y tanau gwyllt yn ardal y Gwasanaeth, gan warchod cynefinoedd mawr a gwerthfawr. Mae gwaith partneriaeth gyda ffermwyr yn arbennig o werthfawr gan fod llawer o danau gwyllt y mae'r Gwasanaeth yn delio â nhw yn dechrau fel gwaith llosgi dan reolaeth gan dirfeddianwyr. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys addysgu gofynion y Cod Llosgi Grug a Glaswellt i Gymru 2008, gan gynnwys y gofyniad i baratoi Cynllun Llosgi a hysbysu'r Gwasanaeth.

5.4.8 Bydd y Gwasanaeth yn parhau â'i waith parhaus yn ymwneud ag Atal Llosgi Bwriadol, er mwyn helpu i ddiogelu cynefinoedd naturiol.

## 5.5 Amcan 5 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro."*

5.5.1 Mae Rhestr Bioamrywiaeth o ystâd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cael ei gynhyrchu, sy'n cynnwys cynlluniau safle, mesuriadau ardaloedd glaswelltog a chynefinoedd ar y safle. Paratowyd log ffotograffig o holl ardaloedd bioamrywiaeth yr ystâd yn 2021.

5.5.2 Y flwyddyn waelodlin ar gyfer y Rhestr yw blwyddyn ariannol 2019-20, lle mae safleoedd wedi bod yn ddarostyngedig i'r hen drefn ar gyfer cynnal a chadw tiroedd, cyn y newidiadau a nodir uchod i adlewyrchu ymrwymiadau bioamrywiaeth y Gwasanaeth.

5.5.3 Mae'r Rhestr yn cael ei diweddaru bob blwyddyn, gan adlewyrchu prosiectau a wneir ym mhob safle a gwaith pellach sydd ei angen.

5.5.4 Mae pob rhestr, data a gwybodaeth ar gael i'r Ganolfan Cofnodion Amgylchedd Lleol (COFNOD), Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Swyddogion Bioamrywiaeth lleol, sefydliadau partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.

## 5.6 Amcan 6 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

*"Rhoi fframwaith llywodraethu ar waith a chefnogi'r gwaith o'i gyflawni."*

5.6.1 Gweinyddir y gwaith o gyflwyno camau bioamrywiaeth o ddydd i ddydd ar safleoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drwy Adran Cadwraeth Amgylcheddol ac Ynni'r Adran Rheoli Cyfleusterau, ar y cyd â'r Rheolwr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, gan adrodd i'r Pennaeth Gweithrediadau a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sy'n gyfrifol am yr Amgylchedd. Mae'r adroddiadau 'Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth' a baratoir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: Rhan 1 – Adran 6 bob tair blynedd yn cael eu cyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w cymeradwyo cyn eu cyhoeddi.

5.6.2 Mae'r Gwasanaeth yn mynd ati yn barhaus i geisio cefnogaeth gan bartner sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd a grwpiau bywyd gwyllt lleol er mwyn nodi rhywogaethau mewn safleoedd. Er enghraifft, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, agor y tiroedd am y dydd i aelodau'r cyhoedd ac arbenigwyr ecolegol i helpu i asesu a chofnodi rhywogaethau ar y safle; gan gofnodi'r canlyniadau gyda COFNOD.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Adolygu Amcanion Gwella a Llesiant yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Adolygu amcanion hirdymor yr Awdurdod Tân ac Achub sydd yn ei Gynllun Corfforaethol 2021-24.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Bob mis Mawrth mae'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn cyhoeddi Cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, gan nodi'r amcanion gwella a lles y cytunwyd arnyn nhw ac amlinellu'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd tuag at gyflawni'r amcanion hynny yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddodd yr Awdurdod ei ddiweddariad diwethaf yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2021-24 yn gynharach eleni.

3. Er nad yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi pa mor aml y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus newid ei amcanion, mae'n ofynnol eu bod yn cynnal adolygiad blynyddol o'u hamcanion llesiant i asesu a ydyn nhw'n dal i fod yn berthnasol ac yn briodol ai peidio.

4. Dros y misoedd nesaf, bydd Swyddogion yn edrych eto ar gynnwys Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24 er mwyn diweddaru'r rhestrau o gamau gweithredu arfaethedig ar gyfer pob amcan strategol. I'r perwyl hwn, gofynnir i'r Awdurdod ystyried a yw'n dymuno parhau i ddilyn yr un amcanion hirdymor y flwyddyn nesaf, neu fel arall awgrymu newidiadau i'w hymgorffori yn fersiwn diwygiedig Cynllun Corfforaethol 2021-24 ar gyfer blwyddyn nesaf.

**ARGYMHELLIAD**

5. Gofynnir i'r Aelodau:
   i) gadarnhau bwriad yr Awdurdod i barhau i ddilyn ei saith amcan hirdymor presennol yn 2023/24; a
   ii) gwneud cais i Swyddogion baratoi fersiwn wedi'i ddiweddaru o Gynllun Corfforaethol 2021-24 i'w gymeradwyo yn Ebrill 2023.

**CEFNDIR**

6. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi eu hamcanion gwelliant yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'u hamcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod mae'r rhain yn cael eu trin yn union yr un peth.

7. Mae Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae'n rhaid i hyn gynnwys:

   a) gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd â'r nod o wneud y cyfraniad mwyaf posib at gyflawni pob un o'r nodau llesiant a osodwyd ar gyfer Cymru gyfan;

   b) cymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

8. Yn ystod cylch cynllunio arferol, bydd yr Awdurdod yn amlinellu amcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn ystod yr hydref/gaeaf, ac ym mis Mawrth bydd yn cymeradwyo cynllun sy'n nodi'r camau tymor byrrach ar gyfer cefnogi ei amcanion tymor hwy.

9. Yn 2023-24 bydd Swyddogion yn trafod cylch nesaf y Cynllun corfforaethol â'r Awdurdod ar gyfer 2024 a'r cyfnod wedi hynny yn y gobaith o'i weld yn esblygu i fod yn gynllun pum mlynedd ar gyfer 2024-29.

**GWYBODAETH**

10. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd yr Awdurdod saith amcan llesiant hirdymor yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24. Dyma'r amcanion hynny:

   - **Amcan 1:** Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a lles pobl yng ngogledd Cymru.
   - **Amcan 2:** Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i wella pa mor gydnerth ydyn nhw.
   - **Amcan 3:** Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosib, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
   - **Amcan 4:** Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid.
   - **Amcan 5:** Cynnal gweithlu cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg.
   - **Amcan 6:** Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy amgylcheddol ymwybodol er mwyn lleihau effaith ein gweithgarwch ar yr amgylchedd.
   - **Amcan 7:** Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, a hynny yn ystod prosesau caffael hefyd.

11. Yn dilyn adolygiad blynyddol ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd yr Awdurdod Tân ac Achub blaenorol y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24 wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru. Roedd hwn yn cydnabod parhad rhai camau yn y dyfodol oherwydd bod ffactorau allanol wedi dylanwadu ar gyfradd y cynnydd mewn rhai meysydd ac effaith ymgorffori newidiadau llywodraethu mewnol a oedd i fod i ddod i rym ym mis Ebrill 2022.

12. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod adolygu ei amcanion o leiaf unwaith y flwyddyn, ond nid oes rhaid iddo eu newid. Wrth asesu a yw ei amcanion yn parhau i fod yn briodol, rhaid i'r Awdurdod ystyried i ba raddau:

- maen nhw'n cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant i Gymru;
- maen nhw'n gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy – h.y. eu bod nhw'n helpu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- mae'r Awdurdod yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

13. Os yw'r asesiad yn nodi bod angen newid unrhyw amcanion, byddai disgwyl i'r Awdurdod egluro beth sydd wedi newid, a pham bod y newid wedi digwydd.

14. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2022, cymeradwyodd yr Awdurdod Asesiad Perfformiad Blynyddol 2021/22 ar gyfer ei gyhoeddi ar ei wefan. Mae'r Asesiad hwn yn disgrifio cynnydd a chyflawniadau'r llynedd i gefnogi amcanion yr Awdurdod. Mae hefyd yn egluro sut mae amcanion pob un o'r Awdurdodau'n cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant i Gymru ac yn cadw at egwyddor datblygu cynaliadwy.

15. Nid oedd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn dangos bod angen adolygu na newid y saith amcan hirdymor presennol.

16. Mae llawer o'r camau gweithredu sy'n cefnogi'r amcanion yn dangos bod yr Awdurdod yn parhau i ystyried yr amcanion fel rhai tymor hir drwy ei rôl atal yn y gymuned, gan helpu i addysgu ac arfogi pobl i fyw bywydau diogel a llawn boddhad. Hefyd, mae'n gweithredu'n gyfrifol i warchod cynefinoedd naturiol a'r amgylchedd yn fwy cyffredinol.

17. Bydd rhai o'r camau gweithredu o reidrwydd yn wahanol yn 2023/24 wrth i'r Awdurdod barhau i ddilyn camau arbed arian a cheisio ymateb i ddylanwadau mewnol ac allanol, ond bydd y rhain yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol diwygiedig 2021-24 er mwyn i'r Awdurdod ei gymeradwyo ym mis Ebrill 2023.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiad uniongyrchol i gadarnhau neu ddiwygio amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae yna berthynas glir rhwng cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwireddu'r amcanion o fewn Cynllun Corfforaethol 2021/24 a faint o adnoddau ariannol sydd ar gael. |
| Cyfreithiol | Yn cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â deddfwriaeth llesiant a chynllunio gwelliant. |
| Staffio | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddwn ni ar hyn o bryd. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| Risgiau | Yn lleihau'r risgiau o ddiffyg cydymffurfio cyfreithiol ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |

*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **ACFO Stuart Millington** |
| Swyddog Cyswllt | **ACFO Stuart Millington** |
| Pwnc | **Ymchwiliad Arena Manceinion** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Rhoi trosolwg o gynnwys a goblygiadau adroddiad Ymchwiliad Arena Manceinion - Cyfrol 2 a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddwyd ail gyfrol Ymchwiliad Cyhoeddus Arena Manceinion.

3 Mae Cyfrol 2 yn canolbwyntio ar y cam ymateb brys ac yn gwneud 149 o argymhellion, wedi'u dosbarthu ar draws yr holl wasanaethau ymateb brys a fynychodd ar noson yr ymosodiad.

4 Mae llawer o'r argymhellion hyn yn berthnasol i'r sector tân ac achub ar draws y DU. Mae cwblhau dadansoddiad bwlch i ddeall yn llawn sefyllfa Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi dechrau cael ei ddatblygu, gyda mewnbwn gan holl aelodau staff ac adrannau perthnasol.

5 Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn cael ei reoli a'i gydlynu trwy'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol, sydd yn ei dro yn adrodd i Dîm Arwain y Gwasanaeth.

**ARGYMHELLIAD**

6 Bod yr Aelodau yn:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad;

**CEFNDIR**

7 Ar 22 Mai 2017, taniodd terfysgwr unigol ddyfais ffrwydrol yng nghyntedd Arena Manceinion, yn ystod perfformiad encore olaf cyngerdd Ariana Grande.

8 Lladdodd y ffrwydrad ddau ar hugain o bobl ac anafwyd mwy na chant arall yn ddifrifol.

9 Ers hynny bu craffu helaeth, nid yn unig o ran y dilyniant o ddigwyddiadau a arweiniodd at yr ymosodiad, ond hefyd ar yr ymateb brys aml-asiantaeth.

10 Yn fuan ar ôl yr ymosodiad, comisiynodd Maer Manceinion, Andy Burnham, yr Arglwydd Kerslake i gwblhau 'Adolygiad Annibynnol i'r parodrwydd ar gyfer, ac ymateb i, ymosodiad Arena Manceinion'.

11 Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddwyd yr adroddiad adolygu y cyfeirir ato bellach fel adroddiad Kerslake. Gwnaeth yr adolygiad hwn 29 o argymhellion.

12 Beirniadodd adroddiad Kerslake ymateb Gwasanaeth Tân ac Achub Manceinion Fwyaf a oedd wedi'i ohirio'n sylweddol yn ogystal â thynnu sylw at nifer o feysydd lle'r oedd cyfathrebu gwael wedi arwain at ddryswch a diffyg ymwybyddiaeth a rennir o'r sefyllfa rhwng asiantaethau a oedd yn mynychu.

13 Yng Ngogledd Cymru, rydym wedi archwilio ein sefyllfa yn erbyn yr argymhellion hyn a nodwyd 13 o weithgareddau penodol i'w rhoi ar waith i wella ein sefyllfa pe bai ymosodiad tebyg yn digwydd yng Ngogledd Cymru.

14 Mae cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn wedi'i fonitro, ac yn parhau i gael ei fonitro.

15 Ar 22 Hydref 2019, sefydlodd yr Ysgrifennydd Cartref ymchwiliad cyhoeddus i ymchwilio i farwolaethau'r sawl fu farw yn ymosodiad Arena Manceinion 2017, gyda gwrandawiadau yn dechrau ar 07 Medi 2020.

16 Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddwyd Cyfrol 1 o adroddiad yr ymchwiliad. Roedd Cyfrol 1 yn canolbwyntio ar ddiogelwch yr Arena a gwnaeth nifer o argymhellion. Roedd 9 ohonynt i'w monitro ac roedd angen adrodd yn eu herbyn. Nid oedd y 9 argymhelliad hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau tân ac achub (GTA).

**GWYBODAETH**

17 Ar 03 Tachwedd 2022, cyhoeddwyd ail gyfrol yr ymchwiliad cyhoeddus ac mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar gyfnod yr Ymateb Brys.

18 Mae Cyfrol 2 yn cynnwys 916 o dudalennau ac yn cynnwys 149 o argymhellion, a bydd 21 ohonynt yn cael eu monitro. O'r 21 hynny, roedd pedwar yn berthnasol i GMFRS yn uniongyrchol ac ystyriwyd bod 13 yn argymhellion aml-asiantaeth. Mae unrhyw argymhellion a wneir ar gyfer sefydliadau penodol mewn ymchwiliadau o'r math yma yn cael eu darllen ar draws y sector cyfan, ac felly gellir eu hystyried yn berthnasol o ran rhoi sylw iddynt yma yng Ngogledd Cymru.

19 Roedd cryn ddryswch ar noson yr ymosodiad ac roedd y diffyg cyfathrebu rhwng y gwasanaethau brys wrth wraidd cyfres o broblemau a ddatblygodd.

20 Roedd yr adolygiad hefyd yn cwestiynu sut y dylid defnyddio rôl Swyddog Cyswllt Rhyngasiantaethol Cenedlaethol (NILO) yn y dyfodol, oherwydd ar noson yr ymosodiad gwnaed penderfyniad gyda diogelwch criwiau mewn golwg i beidio â chydleoli mewn man a nodwyd, ac roedd hyn yn gatalydd ar gyfer nifer o broblemau eraill a ddilynodd.

21 Yn amlwg mae rhai meysydd tebyg i adroddiad Kerslake a gan fod mwy na phum mlynedd wedi mynd heibio ers yr ymosodiad, mae'r Gwasanaeth ar ei ffordd i sicrhau na fyddai'r problemau hyn yn digwydd yma; fodd bynnag, ni ddylem byth fod yn hunanfodlon gan fod ymarferion diweddar mewn rhannau eraill o'r wlad wedi nodi bod problemau tebyg a dryswch yn parhau i fod yn gyffredin heddiw.

22 Mewn ffordd debyg i'r ffordd y gwnaethom astudio Kerslake yn 2018, rydym eisoes wedi dechrau cwblhau'r dadansoddiad bwlch yn erbyn y 149 argymhelliad drwy ein strwythur pwyllgor llywodraethu sefydledig.

23 Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol wedi comisiynu'r is-grŵp Dysgu Gweithredol i gwblhau dadansoddiad bwlch, ac i gynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer gweithredu unrhyw newidiadau i bolisi, hyfforddiant neu offer. Bydd hyn yn sicrhau y byddai ein staff yn gallu ymateb yn broffesiynol ac yn ddiogel i unrhyw ddigwyddiad aml-asiantaeth ar raddfa fawr yng Ngogledd Cymru.

24 Yn ogystal â hyn, mae gwaith wedi dechrau gyda phartneriaid drwy'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (LRF) i sicrhau ein bod, gyda'n gilydd, mor barod ag y gallwn fod.

25 Hefyd, mae gwaith wedi dechrau o safbwynt Cydnerthedd Cenedlaethol i sicrhau dull cyson o ymateb i ymosodiadau terfysgol ledled Cymru.

26 Bydd y gwaith gyda'r LRF a Chydnerthedd Cenedlaethol yn arwain at gynnydd mewn ymarferion o ran gweithredwyr ar lawr gwlad ac o ran gwaith bwrdd gwaith aml-asiantaeth, a phroffil uwch ar gyfer hyfforddiant aml-asiantaeth rheolaidd.

27 Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Bydd gwaith i gyflawni unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar ôl cwblhau'r dadansoddiad bwlch yn helpu i anelu at Gymru fwy cydnerth. |
| Cyllideb | Bydd unrhyw offer ychwanegol sydd ei angen o ganlyniad i'r gwaith hwn yn cael ei gaffael o'r cyllidebau adrannol presennol. Mae cyllid ar gyfer gosod stretsieri ar bob peiriant tân rheng flaen yng Ngogledd Cymru wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru a byddant yn dod i law cyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23. |
| Cyfreithiol | Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn uniongyrchol berthnasol i'r gwaith hwn, yn yr ystyr bod yn rhaid i'r Awdurdod wneud darpariaethau ar gyfer achub ac amddiffyn pobl mewn argyfyngau eraill.<br><br>Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i ymatebwyr Categori 1, y mae'r Gwasanaeth yn un ohonynt, hyfforddi'n effeithiol ar gyfer digwyddiadau amlasiantaethol ac ymateb iddynt. |
| Staffio | Bydd goblygiadau hyfforddiant i'r holl staff gweithredol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Mae'r holl ddysgu gweithredol ac unrhyw argymhellion ynghylch newidiadau i bolisi gweithredol, offer neu hyfforddiant yn cael eu blaenoriaethu a'u gweithredu cyn gynted â phosibl. Oherwydd adnoddau cyfyngedig gall gymryd cyfnodau amrywiol o amser i newidiadau gael eu gweithredu'n llawn. Os ceir digwyddiad tebyg yng Ngogledd Cymru ni fydd yn bosibl lliniaru pob risg yn llawn hyd nes y bydd pob maes wedi'i weithredu a'i sicrhau'n weithredol. |

*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Ionawr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Adolygiad Thematig y Prif Gynghorydd Tân o Hyfforddiant Gweithredol** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyhoeddi adolygiad Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru (CFRA) o hyfforddiant yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, o'r enw 'Adolygiad Thematig o Hyfforddiant Gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ar 10 Hydref 2022, gwnaeth Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, ddatganiad i'r Senedd yn dilyn cyhoeddi adolygiad y CFRA o hyfforddiant yn y Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) yng Nghymru.

3 Prif amcan adolygiad y CFRA oedd archwilio'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ar gyfer pennu'r amser a neilltuir ar gyfer hyfforddiant cynnal sgiliau ac ymarfer yn ystod yr amser ar orsafoedd tân ac ar draws yr holl systemau dyletswydd.

4 Roedd rhan sylweddol o'r adolygiad yn cynnwys ymweliadau gan y CFRA â gorsafoedd tân yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), a hefyd archwilio gwybodaeth a dogfennaeth.

5 Daeth yr adolygiad i ben gyda chwe argymhelliad. Yna ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog at Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn gofyn am fanylion ein cynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion. Rhoddwyd ymateb manwl i'r Dirprwy Weinidog a gafodd ei gydnabod yn ei datganiad llafar i'r Senedd ar 22 Tachwedd 2022 o'r enw: 'Hyfforddiant y Gwasanaeth Tân a'r Capasiti i Ehangu'r Rôl'.

6 Ers hynny mae'r argymhellion wedi'u cynnwys mewn cynllun gweithredu a fydd yn cael ei ystyried a'i reoli drwy Bwyllgor Dysgu Sefydliadol y Gwasanaeth, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Millington.

## ARGYMHELLIAD

7 Bod yr Aelodau yn:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad; a
(ii) nodi'r cynllun gweithredu sydd wedi'i roi ar waith, i ystyried argymhellion adolygiad y CFRA o fewn terfynau amser rhesymol.

## CEFNDIR

8 Mae Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016 yn cynnwys darpariaeth i'r CFRA gynnal adolygiadau a darparu gwybodaeth a chanfyddiadau i Weinidogion Cymru, Awdurdodau Tân ac Achub (GTA) ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

9 Ar 10 Ionawr 2022, ysgrifennodd y CFRA at y Prif Swyddog Tân yn ei hysbysu o'i fwriad i gynnal adolygiad thematig o hyfforddiant, gan nodi'r fethodoleg ar gyfer sut yr oedd yn bwriadu cynnal yr adolygiad ynghyd â'r rhesymeg.

10 Roedd wedi dewis y thema hon oherwydd bod rôl diffoddwr tân yn dechnegol iawn ac wedi esblygu'n sylweddol dros amser wrth i gymhlethdodau'r amgylchedd adeiledig gynyddu. Yn ogystal, mae ehangder y digwyddiadau y mae'n ofynnol i ddiffoddwyr tân ymateb iddynt bellach yn ymestyn ymhell y tu hwnt i danau.

11 Mae caffael, datblygu a chynnal cymwyseddau craidd yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau systemau gweithio diogel yn yr amgylchedd gweithredol. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod nifer y digwyddiadau wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at lai o gyfleoedd i ddiffoddwyr tân ddefnyddio eu sgiliau a dod wyneb yn wyneb â'r peryglon sy'n gysylltiedig â digwyddiadau cymhleth.

12 Felly, mae pwysigrwydd hyfforddiant gweithredol a darparu cyfleusterau hyfforddi tân byw i ddiffoddwyr tân yn amlwg. Mae methu â hyfforddi diffoddwyr tân i safon gyson uchel gan ddefnyddio'r canllawiau gweithredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gallu peryglu diogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd.

## GWYBODAETH

13 Ar 10 Hydref 2022, gwnaeth Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, ddatganiad i'r Senedd yn dilyn cyhoeddi adolygiad y CFRA o hyfforddiant yn y Gwasanaethau Tân ac Achub, o'r enw 'Adolygiad Thematig o Hyfforddiant Gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'.

14 Mae'r adolygiad yn cynnwys archwiliad gan y CFRA i nifer o feysydd yn ymwneud â hyfforddiant gweithredol. Mae'n dechrau drwy ystyried y trefniadau presennol a'r opsiynau ar gyfer y dyfodol ar gyfer ystyried asesiad strategol o risgiau cymunedol, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gallu, a fydd yn ei dro yn llywio dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

15 Mae'r adolygiad hefyd yn canolbwyntio ar y fethodoleg a fabwysiadwyd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, yn bennaf ar gyfer pennu'r amser a neilltuir ar gyfer hyfforddi ac ymarfer o fewn arferion gwaith gorsafoedd tân, ac ar gyfer diffoddwyr tân sy'n gweithio ar y system dyletswydd rhan amser (RDS).

16 Adolygwyd hyfforddiant caffael a datblygu sgiliau cychwynnol diffodd tân a chynnal y sgiliau craidd hynny a meysydd sgiliau ychwanegol eraill. Mae'r wyth maes sgiliau craidd y mae'r CFRA wedi'u hystyried yn ei adolygiad yn cynnwys:

1. Cyfarpar Anadlu
2. Gofalu am Gleifion
3. Gorchymyn a Rheoli
4. Deunyddiau Peryglus
5. Pympiau, ysgolion, clymau a llinellau
6. Gwrthdrawiadau ar y ffordd
7. Gweithio mewn mannau uchel yn ddiogel
8. Digwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr.

17 Ystyriwyd hefyd y cydbwysedd rhwng hyfforddiant damcaniaethol a defnyddio ffilmiau byr o'r enw *microteaches* a hyfforddiant ymarferol ar draws yr ystod lawn o fathau o ddigwyddiadau tebygol mewn unrhyw ardal benodol o Gymru.

18 Mae'r adolygiad hefyd yn edrych ar y lleoliadau hyfforddi ac effaith pellteroedd teithio i ddiffoddwyr tân wrth fynychu digwyddiadau hyfforddi. O ran Gogledd Cymru, ystyriwyd bod y cyfleuster hyfforddi tân byw a chyfarpar anadlu yn Nolgellau gryn bellter oddi wrth yr holl ganolfannau poblogaeth mawr yng Ngogledd Cymru.

19 Sylwodd y CFRA hefyd, yn ei farn ef, nad yw'r hyfforddiant ymddygiad tân mewn adrannau presennol yn adlewyrchu amodau tân bywyd go iawn ac y dylid adolygu'r tactegau a'r technegau sydd wedi'u cynnwys mewn hyfforddiant ymddygiad tân mewn adrannau a'u hymgorffori yng ngoleuni ymchwil ryngwladol.

20 Mae'r adran ar gyfleusterau hyfforddi yn dod i'r casgliad mai'r ateb mwyaf priodol fyddai dull prif ganolfan a lloerennau sy'n cyfuno cyfleusterau presennol mewn gorsafoedd â datblygu cyfleuster hyfforddi tân byw newydd. Cydnabuwyd y byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol gan yr Awdurdodau Tân.

21 Mae’r amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant ar ein holl systemau dyletswydd, ac yn arbennig yr RDS, hefyd wedi’i gynnwys gydag argymhelliad wedi’i rannu’n ddau faes ar y thema hon, a fydd yn cael eu hystyried ar y cyd â’r ddau GTA arall yng Nghymru.

22 Mae’r adroddiad yn cloi gyda chwe argymhelliad sy’n cynnwys y meysydd a drafodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae’r argymhellion wedi’u cynnwys mewn cynllun gweithredu a fydd yn cael ei ystyried a’i reoli drwy Bwyllgor Dysgu Sefydliadol y Gwasanaeth, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Millington.

23 Mae’r Prif Swyddog Tân hefyd wedi darparu ymateb manwl i’r adolygiad i’r Dirprwy Weinidog, yn unol â’r cais, gan gynnwys ein cynlluniau ar gyfer mynd i’r afael â’r argymhellion a chopi o’n cynllun gweithredu. Cydnabuwyd hyn yn natganiad llafar y Dirprwy Weinidog i’r Senedd ar 22 Tachwedd 2022.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae’r papur hwn yn cyd-fynd â holl Amcanion Llesiant a Chorfforaethol 2022/23 gan ei fod yn cynnwys diogelwch diffoddwyr tân, cefnogi parodrwydd gweithredol a sicrhau cynaliadwyedd dros y tymor hwy. |
| Cyllideb | Amh. |
| Cyfreithiol | Mae rôl y CFRA wedi’i chynnwys ym mhennod 7, pwyntiau 7.12 a 7.13 o Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub 2016 ac Adran 28 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. |
| Staffio | Amh. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Bydd yr holl risgiau sy’n gysylltiedig â’r argymhellion yn cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu a reolir gan aelodau Pwyllgor Dysgu Sefydliadol y Gwasanaeth. |